# CYNLLUN SGILIAU A CHYFLOGAETH GOGLEDD CYMRU















www.northwaleseab.co.uk

2017

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# CYNNWYS


Cyflwyniad i'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol i Ogledd Cymru 3

Mewn Cydweithrediad â 4

Crynodeb Gweithredol 6

Trosolwg Ar Ogledd Cymru 10

Galw Gogledd Cymru: **Trosolwg** 23

Sector Allweddol Galw: **Ynni A'r Amgylchedd** 27

Sector Allweddol Galw: **Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch** 30

Sector Allweddol Galw: **Adeiladu** 35

Sector Twf Galw: **Creadigol a Digidol** 41

Sector Twf Galw: **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** 44

Sector Twf Galw: **Twristiaeth a Lletygarwch** 48

Sector Twf Galw: **Bwyd a Diod** 51

Sector Twf Galw: **Ariannol a Phroffesiynol** 53

Cyflenwi Gogledd Cymru 56

Diweddariad Ar Gynnydd 2016 70

**Argymhelliad 2017-2018** 73



**AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â:**

**IWAN THOMAS** | Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol – Sgiliau & Chyflogaeth

*e:* IwanThomas@Gwynedd.llyw.cymru

**Croeso i'r trydydd Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol blynyddol i Ogledd Cymru. Mae economi'r rhanbarth yn parhau i ddatblygu a bydd pwyslais mawr yn y flwyddyn i ddod ar y gwaith ar Fargen Twf Gogledd Cymru.**

Mae'r ffrwd waith Sgiliau a Chyflogaeth ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'i mabwysiadu a'i chydnabod gan Lywodraeth Cymru yn un o'i thair Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol yng Nghymru.

Drwy weithredu'n rhan o 'Dîm Gogledd Cymru', mae partneriaid o ddiwydiant, addysg a hyfforddiant, iechyd, y Trydydd Sector, llywodraeth leol a chenedlaethol, a chyrff cynrychiadol cyflogwyr, ymysg eraill, i gyd yn ymdrechu i wireddu ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer rhanbarth hyderus a chydlynus lle mae twf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'i gysylltiad ag economïau Iwerddon a Phwerdy Gogledd Lloegr.

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a'i phartneriaid yng Ngogledd Cymru yn parhau i ymdrin ag anghenion rhanbarthol a lleol, gan gefnogi polisi a chynllunio cenedlaethol. Rhai o'r uchafbwyntiau a gafwyd hyd yn hyn yw cydweithio â phartneriaid i ddarparu mwy na £50 miliwn o gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer prosiectau seiliedig ar sgiliau yn y flwyddyn ddiwethaf; a chydweithio â chyflogwyr ym mhob un o'n sectorau allweddol a sectorau twf i ddatblygu a darparu rhaglen sy'n canolbwyntio ar bynciau STEM gan ymyrryd yn gynnar i'w hyrwyddo ymysg disgyblion Blynyddoedd 5 a 6, eu hathrawon, a rhieni, yng nghyd-destun y cyfleoedd economaidd sydd ar gael yng Ngogledd Cymru – rhaglen sydd wedi'i rhannu â phob un o'r 369 o ysgolion cynradd yn y rhanbarth. Yn ogystal â hyn, rydym wedi cydweithio â phartneriaid perthnasol i hyrwyddo dull rhanbarthol o froceru sgiliau sydd bellach yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiect Wylfa Newydd ar ôl ei ddefnyddio'n llwyddiannus ar gyfer prosiect adeiladu Carchar Berwyn.

Rydym yn parhau i edrych tua'r dyfodol ac at weld sut y bydd ein dull arloesol o ddarparu mewn partneriaeth â chyflogwyr a darparwyr yn parhau i wella ac uwchraddio sylfaen sgiliau'r rhanbarth. Dull cynhwysfawr o weithredu fydd hwn sy'n ceisio gwella'r cyflenwad o sgiliau uwch mewn clystyrau economaidd gwerth uchel, yn ogystal â mynd i'r afael â diweithdra a thlodi mewn gwaith drwy fecanweithiau sy'n delio ag achosion anweithgarwch economaidd a rhwystrau i gyflogaeth.

Gan fod sgiliau'n thema drawsbynciol sy'n ategu ac yn cyfrannu at feysydd gwaith eraill, yn cynnwys cadwynau cyflenwi, seilwaith, trafnidiaeth, a mewnfuddsoddi, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos fel Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol â phartneriaid yn y meysydd hyn, gan eu cefnogi, er mwyn hyrwyddo Gogledd Cymru ymhellach; a hefyd â'n partneriaid ar draws y ffin i ddatblygu ein cryfderau, ein cyfleoedd a'n hamrywiaeth o dalentau.

Fel Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol i Ogledd Cymru, hoffwn ddiolch i'n holl bartneriaid am eu cefnogaeth barhaus, wrth i Ogledd Cymru barhau i arwain y ffordd ar gydweithio, ymgynghori, a chyflawni allbynnau, er mwyn hybu sgiliau uwch yn awr ac yn y dyfodol, ar gyfer pob rhan o'n heconomi wrth iddi **dyfu.**



**SASHA DAVIES**
Cadeirydd – Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

The Open University

PRIFYSGOL glyndŵr UNIVERSITY

COLEG CAMBRIA

Grŵp Llandrillo Menai

NWMD Business Cou Cyngor Busne

fsb Arbenigwyr mewn Busnes Experts in Business

FFEDERASIWN HYFFORDDIANT CENEDLAETHOL CYMRU NTfW NATIONAL TRAINING FEDERATION WALES

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wcva Wales Council for Voluntary Action

Gyrfa Cymru Careers Wales

jobcentreplus

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam


AVOW

citb Cymru Wales

West Cheshire & North Wale Chamber of Commerc

north wales economic ambition board

bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru






Sasha Davies
(Pwer Niwclear Horizon)
Cadeirydd
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol



Sioned Williams
(Cyngor Gwynedd)
Is Gadeirydd
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol



Iwan Thomas
(Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru)
Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol
Sgiliau a Chyflogaeth

Mae gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru nod clir yn y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol eleni, a hynny ydy cyd-fynd ymhellach â chyfleoedd economaidd ehangach Bargen Twf arfaethedig Gogledd Cymru. Gan gefnogi Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru o ran ei huchelgais i ychwanegu £7.2 biliwn at werth yr economi ranbarthol erbyn 2035, rydym yn parhau i weithio fel partneriaid i gefnogi'r gwaith o wella sylfaen sgiliau'r rhanbarth, fel ymateb i anghenion cyflogwyr a'r rhai economaidd-gymdeithasol.

Mae hyn hefyd yn cynnwys, fel sy'n briodol, cyfrannu at Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'i strategaethau trawsbynciol, a dylanwadu arnynt. Mae hyn yn cynnwys sut mae gogledd Cymru yn parhau i gefnogi addysg ar bob lefel; sgiliau, hyfforddiant a chynhwysiant digidol fel rhan o ddull 'Uchelgais a Dysgu' yn rhanbarthol, sydd hefyd yn cyd-fynd yn glir â pholisi cenedlaethol; yn ychwanegol at ein cyfraniad i ogledd Cymru 'Ffyniannus a Diogel' sy'n cefnogi ei gymunedau, ei iaith, a'i ddiwylliant drwy gadw a hyrwyddo sgiliau cynaliadwy a swyddi sy'n talu cyflogau uwch.

**#TîmGogleddCymru**
**Gweithio'n rhanbarthol, heb ffiniau, i sicrhau twf cynaliadwy drwy ysbrydoli uchelgais, a dyhead i wella cyfleoedd i bawb**

Fel partneriaeth sefydledig â chefnogaeth glir a gweladwy gan gyflogwyr a darparwyr, ein nod ydy parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y ffin i'r dwyrain, yn Lloegr, i'r de mewn ardaloedd yng nghanolbarth Cymru, ac i'r gorllewin hefyd gyda chysylltiadau gwell ag Iwerddon, wrth i ni gydnabod ac adlewyrchu mudoledd gwell ein marchnad lafur a'i hanghenion o ran sgiliau.

Bydd hyn yn cynnwys ffocws clir ar gadw sgiliau uwch a'u cyflenwi mewn clystyrau economaidd gwerth uchel ac, ar yr un pryd, amlygu perthnasedd a gwerth dwyieithrwydd i'n heconomi, a mynd i'r afael â diweithdra a thlodi mewn gwaith, a chreu llwybrau cliriach â ffocws rhanbarthol at gyflogaeth.

## HERIAU RHANBARTHOL YNG NGHYSWLLT SGILIAU A CHYFLOGAETH

**Y brif her yn y tymor hir ar gyfer gogledd Cymru ydy sut mae mynd i'r afael â'r bwlch yn y galw am weithwyr newydd, a allai fod yn fwy na bwlch o ran sgiliau**

Angen dod o hyd i newid yn y dull ar gyfer darparu adnoddau a staff ar gyfer prosiectau mwy ar draws y rhanbarth o ganlyniad i weithlu sy'n heneiddio, dadleoliad a phroblemau o ran cadw gweithwyr ifanc

Mae angen pwyntiau mynediad amlycach i brentisiaethau, a fydd yn gwella sgiliau'r gweithlu presennol yn ogystal â newydd-ddyfodiaid i fusnesau bach a chanolig, ynghyd â'r cyflogwyr mwy o ran maint a phrofiad

Ni ddylid ystyried y Fargen Twf fel rhywbeth sy'n cymryd lle arian presennol yr UE, felly mae angen eglurder o ran o le fydd hynny'n dod yn y dyfodol i gefnogi ymyriadau a phrosiectau sgiliau rhanbarthol

Hyrwyddo sgiliau digidol yn well, gan gyd-fynd â'r agenda STEM, o ganlyniad i'w heffaith draws-sector gynyddol ar gynhyrchiant ac arloesedd ar gyfer busnesau o bob maint ac ym mhob sector

Hyrwyddo sgiliau busnes trosglwyddadwy a chraidd ehangach mewn sectorau y mae dadleoliad wedi effeithio arnynt o ganlyniad i brosiectau mwy, a hyrwyddo hyfforddiant a chefnogaeth i ficrofusnesau a busnesau bach

Angen dull cydlynol a chyson ar draws y rhanbarth ar gyfer gwasanaethau gyrfaoedd a chyflogaeth ymysg partneriaid, sy'n ymestyn o'r ysgolion a'n gwaith ar ddylanwadu ar y Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru i'r farchnad lafur bresennol

## DATBLYGIADAU'R BARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL ERS 2016...

**"OPUS"**
Prosiect rhanbarthol i roi cymorth i'r rheini sy'n 25 oed a hŷn, yn ddi-waith ers cyfnod hir ac yn wynebu sawl rhwystr, wedi cael arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

**"AD-TRAC"**
Prosiect rhanbarthol i'r rheini rhwng 16 a 24 oed sy'n wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael gafael ar addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, wedi cael arian ESF



Gyda Gyrfa Cymru, fe lansion ni'r daflen GFL "Golwg ar Ogledd Cymru" ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 mewn digwyddiad gydag Airbus a Lend Lease yn Ysgol y Creuddyn yng Nghonwy



Wedi gweithio'n agosach gyda chyflogwyr ar draws ein holl sectorau twf a'r rhai allweddol i gefnogi ac amlygu anghenion sgiliau'r dyfodol er mwyn cyfrannu at raglenni Cyflogadwyedd a Phrentisiaethau Llywodraeth Cymru

Developed closer working relationship with Princes Trust Cymru in supporting skills alignment and opportunity through projects at HMP Berwyn and across North Wales

Wedi gweithio gyda'r rhaglen cyflogadwyedd PROFI ym Mhrifysgol Bangor, a datblygu'r categori "Mae'ch Dyfodol yn Ddisglair yng Ngogledd Cymru", sydd dan arweiniad y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, ar gyfer gwobrau PROFI gogledd Cymru



Ni oedd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gyntaf yng Nghymru i gynnal Uwchgynhadledd Sgiliau Rhanbarthol i hyrwyddo ein Cynllun a'n prosiectau ESF

Wedi cyflwyno'r Cynllun Sgiliau Rhanbarthol, a materion sy'n ymwneud â sgiliau yng ngogledd Cymru a rhai trawsffiniol yn San Steffan i'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros Ogledd Cymru

Mewn partneriaeth â'r Ffederasiwn Busnesau Bach, fe wnaethon ni ddarparu cynhadledd ranbarthol yn hyrwyddo sgiliau cyflogadwyedd, gyda disgyblion, cyflogwyr a darparwyr yn bresennol




Ymestyn cwmpas y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol fel rhanddeiliad rhanbarthol dynodedig sy'n cyfrannu at elfennau o lunio dyfodol Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yng Nghymru

I gyd-fynd â'n harchwiliad rhanbarthol o holl ddarpariaeth NEET 16-24, fe lansion ni ein gwefan 'Prosbectws o Ddarpariaeth a Chefnogaeth i Ieuenctid Gogledd Cymru'

Yn dilyn ein buddugoliaeth yn y categori 'Arweinyddiaeth a Datblygu Pobl' yng Ngwobrau Rhagoriaeth Adeiladu Cenedlaethol Cymru ar gyfer ein gwaith yn cefnogi broceriaeth sgiliau gyda phartneriaid yng Ngharchar EM Berwyn yn 2016, rydym unwaith eto wedi cael ein dewis i fod ar y rhestr fer yn genedlaethol yng Ngwobrau 2017

Cawsom wahoddiad i gyflwyno tystiolaeth i'r 'Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau' yn y Senedd ynghylch rôl Prentisiaethau a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Wedi cefnogi Llywodraeth Cymru gyda thystiolaeth fanwl ar y dirwedd sgiliau a chyflogaeth yng ngogledd Cymru, a oedd yn berthnasol i gais i gefnogi Canolfan Heathrow bosibl yn y rhanbarth







Y rhaglen i ysgolion 'CAMAU STEM', sy'n cael ei harwain gan gyflogwyr ar gyfer disgyblion, rhieni ac athrawon, a lansiwyd yn swyddogol mewn digwyddiad gyda S4C, ac sydd bellach ar gael ym mhob un o'r 369 o ysgolion cynradd

Gan weithio gyda Lend Lease a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gwnaethom gynnal Digwyddiad Dathlu rhanbarthol yng Ngholeg Cambria i gydnabod cyflawniadau sgiliau ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu yng Ngharchar EM Berwyn



Mae'r model Broceriaeth Sgiliau a grëwyd yng Ngharchar EM Berwyn i gefnogi prentisiaethau, hyfforddiant a chyflogaeth bellach yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth i Wylfa Newydd

Nid ydy ein rhagolwg yn 2015, sef hyd at 40,000 o swyddi newydd posibl dros y ddeng mlynedd nesaf ar draws gogledd Cymru, wedi newid. Serch hynny, mae'r dulliau y gellir eu defnyddio i sicrhau hyn yn parhau i esblygu.

Gweithio ochr yn ochr gyda phartneriaid ar ddatblygu Cynnig Twf Gogledd Cymru, yn ogystal â chefnogi darpariaeth a dylanwadu ar bolisi o ran rhaglenni a chynlluniau Llywodraeth Cymru ydy ein ffocws hollbwysig o hyd, ar y cyd â chefnogi'r blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol a'r gofynion cyflogaeth lleol.

## PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU - EIN NODAU AR GYFER 2017-18

| | |
|---|---|
| 1 | Cefnogi'r broses o ddatblygu a gweithredu Cynnig Twf Gogledd Cymru, a'i brif feysydd ffocws gan gynnwys 'Sgiliau, Diweithdra a Diwygio Cymdeithasol' |
| 2 | Cefnogi'r gwaith o hyrwyddo prentisiaethau ledled y rhanbarth yn barhaus, gan gyd-fynd â Pholisi Prentisiaethau Llywodraeth Cymru, ac mewn ymateb i'r angen lleol a rhanbarthol, gyda ffocws allweddol ar gyfleoedd prentisiaethau cyffredin, lle gall busnesau llai mewn ardaloedd gwledig elwa ar sgiliau trosglwyddadwy |
| 3 | Llunio a chyfrannu at raglenni prentisiaethau'r dyfodol, gan gyfathrebu'n well â rhieni ac athrawon, ynghyd ag amlygu dulliau 'Prentisiaethau Iau', a hyrwyddo prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ymhellach |
| 4 | Rhoi cymorth i bartneriaid ar gyfer mynd i'r afael â chanlyniadau'r Ardoll Prentisiaethau a'i heffaith ar bartneriaid ar y ddwy ochr i'r ffin – yn arbennig wrth i ni nesáu at darged Llywodraeth San Steffan sef bod pob cyflogwr sy'n cael ei effeithio ar y Fframwaith Prentisiaethau Digidol erbyn mis Ebrill 2019, a goblygiad hynny ar gyfer gweithwyr sy'n hanu o Gymru |
| 5 | Mae cyflogwyr yng ngogledd Cymru yn dweud eu bod yn rhoi'r un pwys fwy neu lai ar sgiliau cyflogadwyedd ag y maent ar gymwysterau academaidd. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y rhanbarth ac yn drawsffiniol er mwyn mynd i'r afael â'i heffaith ar yr agenda sgiliau, a hefyd yn dod o hyd i'r ffactorau sy'n cyfrannu ar draws ardaloedd cysylltiedig eraill sy'n cyd-fynd â Chynnig Twf Gogledd Cymru |
| 6 | Cwblhau gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu 'Pecyn Adnoddau Cyflogadwyedd Gogledd Cymru' i gyd-fynd â chynllun cyflogadwyedd cenedlaethol Llywodraeth Cymru, a gweithio gyda'r Llywodraeth arno, er mwyn cyfrannu at raglen genedlaethol erbyn mis Ebrill 2019 o'r enw "Cymru'n Gweithio" |
| 7 | Hyrwyddo a rhannu ymhellach ein model broceriaeth sgiliau rhanbarthol a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus yng Ngharchar EM Berwyn yn Wrecsam, ac sydd bellach yn cael ei ddatblygu gyda phartneriaid yn Wylfa Newydd, i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau eraill sydd o arwyddocâd rhanbarthol yn ôl yr angen |
| 8 | Hyrwyddo ymhellach pwysigrwydd sgiliau digidol a thechnolegau galluogol Diwydiant 4.0 er mwyn cefnogi'r broses o ddigideiddio diwydiannau ar draws ein holl sectorau twf a'r rhai allweddol yng ngogledd Cymru. Mae cynaliadwyedd ein marchnad lafur nawr ac yn y dyfodol yn dibynnu ar gystadleurwydd ein busnesau, ac felly mae 'parodrwydd' ar gyfer Diwydiant 4.0 yn hanfodol |
| 9 | Hyrwyddo ymhellach perthnasedd a gwerth dwyieithrwydd i'n heconomi er mwyn cefnogi'r Gymraeg yn ein cymunedau a'n gweithleoedd, a chefnogi sgiliau iaith dysgwyr |
| 10 | Sicrhau bod y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cyd-fynd ymhellach â chonsortia ysgolion rhanbarthol gogledd Cymru – GwE – a chefnogi eu hymateb i Donaldson; parhau i gyfrannu, dan arweiniad cyflogwyr, at y rhaglen Ysgolion Arloesi ranbarthol a datblygu modiwlau sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen Dyfodol Llwyddiannus, gan rannu gwybodaeth â phartneriaid darparu trawsffiniol yn ôl yr angen |
| 11 | Gyda phartneriaid, hyrwyddo a darparu cyfleoedd dysgu drwy brofiad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n ymwneud â sefyllfaoedd bywyd go iawn ac yn y gwaith, gan adeiladu ar ein gwaith o hyrwyddo'r sectorau twf a'r rhai allweddol, gyda gwybodaeth am y farchnad lafur a data gan gyflogwyr yng ngogledd Cymru ac yn drawsffiniol, er mwyn cefnogi disgyblion, rhieni ac ymarferwyr |
| 12 | Datblygu ein rhaglen 'CAMAU STEM' ddwyieithog y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 2, sy'n cael ei harwain gan gyflogwyr a'i darparu i bob un o'r 369 o ysgolion cynradd yn y rhanbarth, er mwyn diwygio a diweddaru'r cynnwys, cyn ei hymestyn i Ysgolion Uwchradd a llwybr parhaus i Gyfnod Allweddol 3. |

## TROS OLWG O OGLEDD CYMRU MEWN FFIGURAU ...

**30,275**
BUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU AR GYFER TAW/TALU WRTH ENNILL YN 2016 O'I GYMHARU Â 29,875 YN 2015

**60,000**
BUSNESAU SY'N GWEITHREDU YN 2016, O'I GYMHARU Â 58,000 YN 2015

**41%**
O'R BOBLOGAETH SY'N GWEITHIO SYDD YN YR 'ECONOMI SYLFAENOL'

**81%**
O FUSNESAU YNG NGOGLEDD CYMRU SYDD Â STAFF SY'N MEDDU AR SGILIAU'R GYMRAEG

**15.67%**
O DDYNION BELLACH YN HUNANGYFLOGEDIG AR DRAWS Y RHANBARTH, A 6.6% O FERCHED

**70%**
O GYFLOGWYR YN Y RHANBARTH SYDD WEDI RECRIWTIO STAFF O DAN 25 OED YN 2016

**17%**
O GYFLOGWYR YN Y RHANBARTH SYDD WEDI CYNNIG PRENTISIAETHAU YN 2016

**14,300**
O WLADOLION O'R UE SY'N GWEITHIO AR DRAWS AMRYWIOL SECTORAU YNG NGOGLEDD CYMRU

## SECTORAU ALLWEDDOL

YNNI A'R AMGYLCHEDD

DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH

ADEILADU

## SECTORAU TWF

CREADIGOL A DIGIDOL

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

TWRISTIAETH A LLETYGARWCH

GWEITHGYNHYRCHU BWYD A DIOD

ARIANNOL A PHROFFESIYNOL

"Rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'i gysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon"

Gweledigaeth ar gyfer twf yr economi yng Ngogledd Cymru (Gorffennaf 2016)

| 696,000 | 40,000 | 30,275 |
|---|---|---|
| O BOBLOGAETH AR DRAWS Y CHWE SIR | O SWYDDI NEWYDD WEDI'U HAMCANGYFRIF DROS 10 MLYNEDD | O FUSNESAU WEDI'U COFRESTRU AR GYFER TAW LEDLED GOGLEDD CYMRU |

Fel rhanbarth, mae gennym botensial drwy ein marchnad lafur grefftus, yn awr ac yn y dyfodol, i helpu i greu uchelgais a gwella cynhyrchiant, cystadleurwydd a thwf ledled Gogledd Cymru.

Drwy weithio fel partneriaid ar draws yr holl sectorau a chanolbwyntio ar ddatblygu Bargen Dwf ar gyfer Gogledd Cymru, gallwn ystyried ymyriadau allweddol gan gydweithio er mwyn hybu twf, cynyddu cynhyrchiant, ymdrin â chyflogau isel ac anweithgarwch economaidd, a gwneud economi Gogledd Cymru yn fwy cystadleuol a llewyrchus.

Fel rhanbarth, rydym eisoes wedi cyflawni prosiect cenedlaethol blaenllaw drwy adeiladu Carchar Berwyn yn Wrecsam sydd wedi ychwanegu £23 miliwn y flwyddyn at ein heconomi. O hyn ymlaen, byddwn yn elwa o'r gwersi a ddysgwyd yn y prosiect hwnnw o ran cynnwys cymunedau, creu prentisiaethau a lleoliadau gwaith, a darparu cyfleoedd am swyddi ac yn y gadwyn gyflenwi drwy gynnal gwasanaeth broceru sgiliau gyda phartneriaid, er mwyn parhau i weithredu mewn ffordd gydgysylltiedig ar gyfer prosiectau eraill ar raddfa fawr ar draws y rhanbarth.

**"Yr her wrth ateb y galw yng Ngogledd Cymru yw canfod ffyrdd o ddelio â'r bwlch yn y gweithlu yn y rhanbarth, yn fwy felly na'r bwlch sgiliau o bosibl...."**

Ken Skates, Ysgrifennydd Y Cabinet Dros Yr Economi A'r Seilwaith (20 Mawrth 2017)

Mae'r tair Ardal Fenter yng Ngogledd Cymru yng Nglannau Dyfrdwy, Ynys Môn ac Eryri, ynghyd â safleoedd busnes allweddol, yn cynnwys rhai sefydledig fel Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, rhai sy'n tyfu fel Parc Busnes Llanelwy, a rhai sy'n dechrau dod i'r amlwg fel Parc Cybi yng Nghaergybi, yn ganolfannau allweddol ar gyfer gweithgarwch economaidd y gallwn fanteisio ymhellach arnynt i gynnal twf cytbwys ledled y rhanbarth.

Mae'r buddion posibl o ran sgiliau a chyflogaeth o brosiectau blaenllaw sy'n cael eu datblygu, fel Wylfa Newydd yn Ynys Môn, yn gyfraniad allweddol o'r gwariant o tua £20 biliwn ar nifer o brosiectau ledled y rhanbarth sydd hefyd yn cynnwys Parc Eco Orthios, Cyfleuster Adfer Ynni Parc Adfer, ac ehangu pellach ym Mhorth y Gogledd. Mae disgwyl y bydd pob un o'r rhain yn dod â buddion i wasanaethau ehangach, yn ogystal â chyfleoedd a heriau i fusnesau lleol a'r farchnad lafur gan ei bod yn anochel y ceir dadleoli o ganlyniad i symud llafur.

Er mwyn sicrhau llwyddiant yr holl brosiectau mawr yng Ngogledd Cymru, bydd angen gweithlu sydd â sgiliau a chymwysterau priodol yn y rhanbarth cyn iddynt gychwyn, a bydd angen datblygu atebion cynaliadwy i helpu i sicrhau cynllunio effeithiol ar sail sectorau a sgiliau i ddiwallu anghenion lleol a rhanbarthol yng nghyswllt dadleoli.


Yng Ngogledd Cymru, mae angen ymagwedd at sgiliau sy'n seiliedig fwyfwy ar leoedd sy'n hybu cynhwysiant, yn cynyddu cynhyrchiant, ac yn sicrhau cyfleoedd mwy cynaliadwy ar gyfer y rhanbarth ac ardaloedd trawsffiniol

Er mai 30,275 yw nifer y busnesau a gofrestrwyd ar gyfer TAW yn y rhanbarth, mae Gogledd Cymru yn gartref i fwy na 60,000 o fusnesau i gyd, felly dylai cefnogi ac uwchsgilio'r gweithlu presennol gael ei weld yr un mor hanfodol â denu newydd-ddyfodiaid ifanc i'r farchnad lafur os ydym am barhau'n gystadleuol. Yr her i'r rhanbarth yw sut i wneud addysg yn berthnasol i wir anghenion gweithwyr yn ein marchnad lafur bresennol, gan barhau i ddatblygu a helpu'r unigolion hynny sydd heb ddod yn rhan o'r economi eto drwy ddarparu cyngor a chymorth gyrfaoedd cyson sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth.

## SECTORAU ALLWEDDOL



YNNI A'R AMGYLCHEDD




DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH



ADEILADU


## SECTORAU TWF



CREADIGOL A DIGIDOL



IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL



TWRISTIAETH A LLETYGARWCH



GWEITHGYNHYRCHU BWYD A DIOD



ARIANNOL A PHROFFESIYNOL

Gyda'r boblogaeth bresennol o 696,000 yng Ngogledd Cymru, er bod dyfnder pendant o ran sgiliau ac arbenigedd mewn nifer o sectorau, bydd y rhanbarth yn wynebu heriau yn y dyfodol.

Mae'r cynnydd yn oed cyfartalog y boblogaeth weithio yn galw am amnewid, i gwrdd ag anghenion presennol cyflogwyr a'r farchnad lafur, a hefyd i ateb a gwasanaethu'r cyfleoedd cyflogaeth newydd o brosiectau rhanbarthol blaenllaw newydd, yn ogystal â'r ehangu parhaus yn ein sectorau twf ledled Gogledd Cymru.

Heb gynllunio clir ar gyfer olyniaeth, a hyrwyddo llwybrau gyrfa yn gynnar mewn ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd yn yr economi ac mewn cyflogaeth, mae'n bosibl y bydd prosiectau mawr yn gorfod dibynnu fwyfwy ar ddenu sgiliau o'r tu allan i Ogledd Cymru.

MAE
**10%**
O'R BOBLOGAETH
YN 16-24 OED

MAE
**22%**
O'R BOBLOGAETH
YN 25-44 OED

MAE
**27%**
O'R BOBLOGAETH
YN 45-64 OED



Risgiau i'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru yw poblogaeth sy'n heneiddio'n naturiol, diffyg cynllunio ar gyfer olyniaeth gan gyflogwyr, mwy o fewnfudo gan bobl wedi ymddeol, a'r heriau o ran cadw pobl ifanc wedi iddynt orffen eu haddysg


Bydd angen pennu hefyd yng Ngogledd Cymru sut bydd y rheini yn yr economi 'gig' sy'n datblygu, a nodwyd yn Adolygiad Taylor i Lywodraeth y DU, yn ogystal â'r rheini yn yr 'economi sylfaen' fwy sefydledig, yn gallu elwa a chael hwb drwy gyfleoedd datblygu lleol a rhanbarthol. Bydd gwasanaethau lleol a busnesau bach yn denu nifer mawr o'r rheini sy'n wynebu her oherwydd materion fel trafnidiaeth, technoleg a hyfforddiant. Ac eto, y gweithwyr hyn sy'n helpu i ddarparu'r gwasanaethau sylfaen sydd eu hangen ar yr holl wasanaethau a phrosiectau blaenllaw mawr. Mae ystyriaethau o ran llesiant meddyliol a chorfforol yn yr holl sectorau yng Ngogledd Cymru yn hanfodol ar gyfer cynnal sylfaen sgiliau ein marchnad lafur, ond mae'n bosibl y bydd angen canolbwyntio'n benodol ar hyn wrth wrth ailasesu'r gwerthfawrogiad o le'r economi sylfaen fel cyfrannwr allweddol sy'n cynnal ac sy'n rhan o'n sectorau allweddol a sectorau twf yng Ngogledd Cymru

Y sector manwerthu a'r sector cyhoeddus yw dau o'r cyflogwyr mwyaf o ran nifer eu gweithwyr yn y rhanbarth. Y sector cyhoeddus yw un o'r cyflogwyr mwyaf yng Ngogledd Cymru, yn enwedig mewn siroedd fel Gwynedd a Wrecsam.

Bydd prinder sgiliau yn y sector iechyd, yn enwedig o ganlyniad i'w fethiant i recriwtio'r nifer o staff cymwysedig sydd eu hangen yn y rhanbarth, ynghyd â'r effaith bosibl o Brexit, yn ogystal â'r anawsterau cyllidebol cyfredol o ganlyniad i fesurau cyni, yn gadael y sector ar draws y rhanbarth mewn sefyllfa wan.

CREDIR BOD
HYD AT
**173,000**
O BOBL YN GWEITHIO
YN YR ECONOMI SYLFAEN
YNG NGOGLEDD CYMRU

FFYNHONNELL:
ONS (Annual Population Survey, Mawrth 2017)




CANRAN O BOBL SYDD YN "GYFLOGEIDION" AC YN BYW YNG NGOGLEDD CYMRU A TRAWS FFINIOL 2017

Yn ogystal â'r rhagolygon am dwf ym mhob un o'r sectorau twf a nodwyd, gyda chyfleoedd gwell ar gyfer sgiliau a chyflogaeth, ceir effaith arnynt hefyd o brosiectau rhanbarthol trawsnewidiol o arwyddocâd cenedlaethol fel Wylfa Newydd. Er bod y prosiect hwn yn ymwneud yn bennaf â'r sector ynni niwclear, ni ddylid tanbrisio'r posibilrwydd o gael effeithiau ychwanegol ohono ar sectorau twf ehangach sy'n gysylltiedig ag ef drwy'r cadwynau cyflenwi ar draws y rhanbarth.

Mae nifer o gwmnïau yng Ngogledd Cymru eisoes wedi ymgymryd â gwaith i Horizon Nuclear Power ar y prosiect mewn gwahanol sectorau ac arbenigaethau. Mae'r rhain yn cynnwys arlwyo; adeiladu; cysylltiadau cyhoeddus; ffotograffiaeth; rheoli ecolegol ac amgylcheddol; a rheoli gwastraff. Rhagwelir y bydd yr ystod o gyfleoedd mewn cadwynau cyflenwi lleol a rhanbarthol yn parhau i ehangu drwy weddill 2017 ac yn 2018. Un testun pryder cynyddol yw a fydd y diwydiant adeiladu yn gallu cwrdd â galwadau'r prosiectau trawsnewidiol a phrosiectau seilwaith eraill sydd yn yr arfaeth. Heb gael gwybodaeth glir gan ddatblygwyr am amseru ac am nifer y rolau a sgiliau sydd eu hangen, bydd yn anodd cynllunio'n effeithiol a hyrwyddo cyfleoedd a datblygiadau ar gyfer sgiliau yn y sector, yn enwedig i'n sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, a gall hyn wneud niwed i'r sector adeiladu yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'i gapasiti sgiliau a'i allu i gystadlu ac ymateb yn effeithiol.

Bydd y wybodaeth ychwanegol am nifer o'r prosiectau rhanbarthol allweddol a ddarperir yn ystod 2017-18 yn gymorth mawr i gynllunio'r holl ymyriadau priodol ar gyfer datblygu gweithlu'r sector adeiladu yn y dyfodol, gan helpu darparwyr a chyrff cynrychiadol cyflogwyr y sector i addasu hyfforddiant a darpariaeth ar gyfer sgiliau ar sail amserlenni clir. Bydd hyn yn gyfraniad mawr at ddatblygu sgiliau lefel uwch, yn ogystal â phrentisiaethau ar bob lefel, gan gynnwys camau i hyrwyddo rhagor o brentisiaethau uwch lle mae hynny'n berthnasol ac yn ateb y galw.

MAE
**57%**
O GYFLOGWYR YN CREDU BOD SGILIAU IAITH GYMRAEG YMYSG STAFF YN BWYSIG

MAE
**81%**
O FUSNESAU YNG NGOGLEDD CYMRU YN RHAI LLE MAE SGILIAU IAITH GYMRAEG YMYSG STAFF

MAE
**37,000**
O BOBL IFANC YN CAEL EU HADDYSGU MEWN YSGOLION CYFRWNG CYMRAEG AR DRAWS GOGLEDD CYMRU

Mae natur ddwyieithog nifer mawr o'r gweithwyr yng ngweithlu Gogledd Cymru yn cael ei gweld yn agwedd gadarnhaol nad yw rhanbarthau eraill yn gallu cystadlu â hi. Yng ngolwg cyflogwyr, mae'r sgil ychwanegol hon o weithio mewn dwy iaith neu ragor yn ased y gellir ei farchnata'n fewnol ac allanol i wella'r busnes. Mae nifer mawr o'n busnesau micro llai ac entrepreneuriaid yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithgareddau busnes pob dydd.

Mae entrepreneuriaeth a hunangyflogaeth yn ffactor pwysig o hyd yn economi Gogledd Cymru, ac mae siroedd fel Ynys Môn a Gwynedd yn gweld cynnydd cyffredinol o flwyddyn i flwyddyn.

MAE
**6.6%**
O FENYWOD O OEDRAN GWEITHIO YN HUNANGYFLOGEDIG

Yng Ngwynedd, mae canran y dynion o oedran gweithio sy'n hunangyflogedig wedi cynyddu o 19.8% yn 2016 i 23.1%; ac yn Sir y Fflint, mae canran y menywod o oedran gweithio sy'n hunangyflogedig wedi codi o 3.7% i 4.8%.

Drwy greu busnesau newydd, mae'r rhanbarth yn cael rhagor o gyfleoedd o ran sgiliau a chyflogaeth, a bydd yn hanfodol cael mwy o gymorth gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant i'w helpu i fod yn gynaliadwy a datblygu yn y tymor hwy.

MAE
**15.67%**
O DDYNION O OEDRAN GWEITHIO YN HUNANGYFLOGEDIG

Mae amrywiaethu sgiliau mewn sectorau traddodiadol fel amaethyddiaeth yn parhau'n ffactor pwysig sy'n cyfrannu at dwf mewn entrepreneuriaeth, fel y mae sgiliau'r unigolion hynny ym mhen arall y sbectrwm yn y sector creadigol a digidol.

Y perygl i ranbarth sydd â chyfran fawr o fusnesau micro (66.82%) yw mai'r busnesau hyn fydd yn wynebu'r heriau mwyaf wrth ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant a datblygu sgiliau, ac y byddant yn ei chael yn fwyfwy anodd llenwi swyddi gwag os byddant yn colli eu staff i brosiectau trawsnewidiol mawr. Bydd hyrwyddo mynediad at brentisiaethau a hyfforddeiaethau gyda busnesau micro, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn allweddol i'w helpu i ateb yr heriau hyn yn y dyfodol.

Mae sefydliadau fel y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) sy'n gweithio yng Ngogledd Cymru drwy ei aelodau yn y rhanbarth, wedi nodi ei fod yn teimlo bod angen mwy o gymorth ar gyfer busnesau micro a busnesau bach a chanolig mewn perthynas â chylch bywyd y busnesau a bod angen rhagor o gymorth i gynllunio ar gyfer olyniaeth a llunio strategaethau ymadael, yn hytrach na chynllunio ar gyfer twf yn unig.

Roedd yr Arolwg o Farn Cyflogwyr ar gyfer 2016 yn cynnwys 519 o gyflogwyr yng Ngogledd Cymru. Mae'n cynnig ciplun diddorol gan fod 67% wedi dweud eu bod yn cynnig hyfforddiant i'w gweithlu presennol, ac mai colegau Addysg Bellach oedd eu dewis cyntaf yn aml, a 51% wedyn wedi dweud eu bod yn defnyddio hyfforddwyr masnachol a phreifat am eu bod yn berthnasol ac yn hyblyg. Roedd yr arolwg hefyd yn dangos bod 63% o gyflogwyr yn credu bod profiad gwaith yn hanfodol, ond dim ond 26% a oedd wedi cynnig hyn o fewn 12 mis.

ROEDD

**70%**

O GYFLOGWYR YNG NGOGLEDD CYMRU WEDI RECRIWTIO POBL IFANC YN 2016 (HYD AT 25 OED)

ROEDD

**17%**

O GYFLOGWYR YNG NGOGLEDD CYMRU WEDI CYNNIG PRENTISIAETHAU YN 2016 (Y GANRAN FWYAF YNG NGHYMRU)

MAE

**41%**

O GYFLOGWYR YN CREDU BOD RHAI 16 BLWYDD OED WEDI PARATOI'N WAEL AR GYFER GWEITHIO, AC MAE'R GANRAN YN GOSTWNG I 36% AR GYFER RHAI 17-18 MLWYDD OED

Er nad yw'r cwmnïau sy'n cyflogi'r niferoedd mwyaf o weithwyr ond yn nifer bach o gyfanswm y cyflogwyr yn y rhanbarth, mae eu gwerth i'r cadwynau cyflenwi ehangach yn sylweddol, ac maent yn hyrwyddo datblygiadau a chyfleoedd ar gyfer sgiliau drwy gydweithio â darparwyr addysg yn y rhanbarth

Fodd bynnag, mae angen helpu i hyrwyddo cyfleoedd am yrfa mewn busnesau llai ar draws y rhanbarth, a dylid annog y rhai sy'n gwneud yn well na'r cyfartaledd yn eu haddysg i ystyried llwybrau gyrfa mewn busnesau llai yn ogystal â'r manteision mwy amlwg o weithio i'r cwmnïau mwyaf.

## ECONOMI DRAWSFFINIOL




Mae gwibffordd yr A55 yn ffordd wythiennol hanfodol ar draws Gogledd Cymru sy'n cysylltu â'r M56, yr A494, yr A483 a rhwydweithiau ffyrdd mawr eraill, a ddefnyddir i hyrwyddo llwybrau ar gyfer sgiliau, cyflogaeth, diwylliant, gwyddoniaeth, ac arloesedd.

Fodd bynnag, mae hefyd yn cysylltu'r canolfannau rhagoriaeth sy'n cael eu datblygu i hybu sgiliau yn y gweithle ac mewn sefydliadau academaidd yng Ngogledd Cymru ac ar draws y ffin.

Mae'n ymestyn o Barc Gwyddoniaeth Menai a'r Ganolfan Beirianneg newydd yn Ynys Môn, i'r datblygiadau sydd wedi'u cynnig ar gyfer Academi Lletygarwch yng Nghonwy, a Chanolfan Hyfforddi i'r Diwydiant Rheilffyrdd yn y Rhyl, i'r Sefydliad Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch pwysig arfaethedig yng Nglannau Dyfrdwy. Dyma ychydig o'r cyfleusterau a chanolfannau rhagoriaeth ar draws y rhanbarth, o'r gorllewin i'r dwyrain, y gellir eu hyrwyddo drwy gyfleoedd trawsffiniol a gall Coridor Gwyddoniaeth Swydd Gaer a Pharc Gwyddoniaeth Thornton fod yn estyniad ychwanegol i arlwy a sgiliau'r rhanbarth.

Byddai ymestyn y rhagoriaeth a geir yn y rhanbarth cyfan i ardaloedd trawsffiniol yn adlewyrchu disgwyliadau gan fusnesau ac ymhlith cyflogeion a myfyrwyr sy'n gallu symud yn ddirwystr.

O gael safleoedd strategol sy'n hyrwyddo cyflogaeth a sgiliau lefel uchel ledled Gogledd Cymru ac yn eu hymestyn i Loegr, ni ddylid tanbrisio effaith yr arlwy sgiliau a chyflogaeth yn yr ardal ehangach gan ei fod yn agos i Lerpwl, Manceinion ac ardal ehangach Pwerdy Gogledd Lloegr.

| £22bn | MAE 27,000 | MAE 380,000 |
|---|---|---|
| YW GWERTH YCHWANEGOL GROS YR ARDAL DRAWSFFINIOL A ELWIR YN ARDAL MERSI DYFRDWY | O GWMNÏAU YN YR ARDAL DRAWSFFINIOL RHWNG SIR Y FFLINT A WIRRAL | O SWYDDI YN YR ARDAL HON YN AWR AC MAE 50,000 O SWYDDI NEWYDD I'W CREU ERBYN 2040 |

Mae symudedd sgiliau a'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru yn parhau i ddatblygu, ac mae'n debygol o gynyddu ymhellach drwy gyfleoedd cyflogaeth ychwanegol sy'n deillio o brosiectau trawsnewidiol rhanbarthol. O fewn y rhanbarth, mae pobl yn barod i deithio am hyd at 90 munud i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth sy'n talu'n dda.

Rydym eisoes yn gweld symudedd sgiliau a'r farchnad lafur yn achos clystyrau cyflogaeth allweddol fel Ystad Ddiwydiannol Wrecsam ac Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, a hefyd yng nghyswllt safleoedd hirdymor blaenorol fel Trawsfynydd ac Wylfa. Mae cadw a datblygu staff crefftus iawn o'r ddau safle hyn, yn enwedig ar ôl eu datgomisiynu, yn parhau'n flaenoriaeth i'r rhanbarth.

| MAE TUA 28,300 | MAE TUA 32,400 | MAE TUA 17,700 |
|---|---|---|
| O BOBL YN TEITHIO I LOEGR I WEITHIO O OGLEDD CYMRU (2016) | O BOBL YN TEITHIO I OGLEDD CYMRU I WEITHIO O LOEGR (2016) | YN TEITHIO I SIR Y FFLINT I WEITHIO O LEOEDD ERAILL (2016) |

Bydd cynigion ar gyfer datblygu trafnidiaeth a seilwaith, yn enwedig yn yr ardal drawsffiniol, yn allweddol i wella mynediad at gyfleoedd ar gyfer sgiliau a llafur, a bydd y cysylltedd hwn yn cael ei weld yn nodwedd allweddol mewn unrhyw Gynnig Twf arfaethedig ar gyfer Gogledd Cymru.

Yr amcangyfrif presennol yw bod 83% o'r rheini sy'n preswylio yn yr ardal drawsffiniol hefyd yn gweithio yn yr un ardal. Maent yn cael eu cyflogi ar safleoedd strategol allweddol fel Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, Coridor Gwyddoniaeth Swydd Gaer, a Wirral Waters, ac mae datblygiadau wedi'u cynnig yn Woodside Waterfront, Ellesmere Port Central, a Pharc Technoleg Wrecsam.

Tra bo 5,700 o bobl o Orllewin Swydd Gaer a Chaer a 3,200 o Wrecsam yn teithio'n rheolaidd i Sir y Fflint am gyflogaeth, mae 11,300 o bobl o Sir y Fflint a 5,700 o Wrecsam yn teithio'n rheolaidd i Orllewin Swydd Gaer a Chaer am gyflogaeth.

Yn y boblogaeth o oedran gweithio yn yr ardal drawsffiniol (bron 600,000), ychydig llai nag 1% sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Fodd bynnag, o'r rheini sy'n hawlio'r budd-dal hwn, mae 28.9% o'r hawlwyr yn yr ardal drawsffiniol wedi gwneud hynny am fwy na 12 mis; ac mae 10% o'r holl hawlwyr o dan 24 oed (10.9% yn Wirral a 10.5% yn Wrecsam).

Er mwyn darparu ar gyfer y targed o greu 50,000 o swyddi newydd yn yr ardal drawsffiniol erbyn 2040, amcangyfrifwyd y bydd angen codi hyd at 25,000 o dai newydd hefyd. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd i'r sector adeiladu yng Ngogledd Cymru yn bennaf, yn ogystal ag ardaloedd trawsffiniol. Fodd bynnag, bydd angen ystyried rhaglennu nifer o ddatblygiadau adeiladu i gyd-fynd â galwadau eraill ar y sector a cheir prosiectau seilwaith allweddol rhwng Ynys Môn a Gwynedd, ac ar hyd coridor yr A55 i Wirral.

Er nad yw'r ardal drawsffiniol yn gymwys i gynnig am ei Chynnig Twf neu Fargen Ddinesig ei hun, mae Cynnig Twf Gogledd Cymru a Bargen Dwf Swydd Gaer a Warrington yn ceisio adlewyrchu elfennau allweddol ar draws y ffin, er mwyn hyrwyddo'r synergedd sy'n cynnal sgiliau, cyflogadwyedd, cymorth gyrfaoedd, trafnidiaeth a seilwaith, sy'n hanfodol i'n cyflogwyr, ein marchnad lafur, a myfyrwyr sy'n gallu symud a chamu ymlaen yn eu gyrfa heb wynebu rhwystrau.

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yng Ngogledd Cymru wedi cydweithio'n agos â phartneriaid ar adeiladu Carchar Berwyn yn Wrecsam, a bydd yn parhau i wneud hynny ar ôl ei agor.

Agorwyd Carchar Berwyn yn Wrecsam yn Chwefror 2017 a bydd yn dal 2,106 o ddynion yn y pen draw. Mae'r sefydliad yn garchar hyfforddi a chyfleuster ailsefydlu Categori C ar gyfer dynion sy'n dychwelyd i Ogledd Cymru. Mae nifer o gyfleoedd ar gael i breswylwyr Carchar Berwyn i dderbyn addysg a hyfforddiant wedi'u hachredu sy'n cael eu darparu gan Novus Cambria, darparwr y diwydiant a'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. Nod y dull partneriaeth hwn yw helpu dynion i ddatblygu'r sgiliau a gwybodaeth sydd eu hangen i gael cyflogaeth a chodi uchelgais. Mae'r cyrsiau coleg a chyfleoedd gwaith sydd ar gael ar y safle wedi'u halinio â nifer o'r sectorau blaenoriaeth a thwf yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys adeiladu, lletygarwch a chyfryngau digidol.

Mae'r gwaith o ddarparu hyfforddiant a chyfleusterau ffurfiol yn cael ei hyrwyddo drwy gyfleoedd ar draws y sefydliad i helpu dynion i feithrin hyder, y gallu i wneud penderfyniadau a datrys problemau, a sgiliau gwaith tîm. Mae hyfforddwyr gwaith, gweithwyr ailsefydlu a rheolwyr ymgysylltu hefyd yn gweithio ar y safle ac yn y gymuned i gynnig cymorth i fusnesau a dynion yn y ddalfa i baratoi ar gyfer cyflogaeth.

## BREXIT A GOGLEDD CYMRU

**Gan fod BREXIT wedi cychwyn, mae mwy o angen nag erioed i fuddsoddi mewn sgiliau a thalentau ac mewn prentisiaethau i bobl o bob oed sy'n byw yng Ngogledd Cymru, yn awr ac yn y dyfodol, er mwyn cefnogi ein cyflogwyr, sectorau allweddol a sectorau twf, a'n gweithlu yn awr ac yn y dyfodol.**

Ar hyn o bryd, rydym yn dibynnu ar Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) am gyllid ar gyfer prosiectau sy'n hybu sgiliau a chyflogaeth ledled Gogledd Cymru. Nid yw wedi'i gytuno na'i egluro eto pa gyllid a fydd yn cymryd lle'r cronfeydd hyn yn y dyfodol i gynnal y meysydd gweithgarwch hyn ar gyfer sgiliau a chyflogaeth.

Mae'r CBI yng Nghymru yn ategu dymuniadau nifer mawr o gyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant yng Ngogledd Cymru am gynnwys y canlynol yn brif egwyddorion wrth negodi ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd:

SYSTEM YMFUDO SY'N CANIATÁU I FUSNESAU GAEL Y SGILIAU A LLAFUR SYDD EU HANGEN ARNYNT I SICRHAU TWF

DULL O WEITHREDU SY'N DIOGELU'R BUDDION CYMDEITHASOL AC ECONOMAIDD O GYLLID YR UE GYDA GWARANTAU I RANBARTHAU FEL GOGLEDD CYMRU

Cynhaliodd FSB Cymru arolwg o farn ei aelodau ym mis Tachwedd 2016, ac mae'r canlyniadau ohono wedi cyfrannu at ei adroddiad, 'A skilful exit: What small firms want from Brexit'.

Mae'r arolwg o gyflogwyr ledled Cymru yn dangos bod un rhan o bump (21%) o gyflogwyr bach yn cyflogi staff o wledydd eraill yr UE ar hyn o bryd. Mae'r ffigur cenedlaethol hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa gyffredinol yn rhanbarth Gogledd Cymru, ond bod rhai ardaloedd lleol fel Llandudno lle mae'r sector twristiaeth a lletygarwch yn cynnwys cyfran uwch o staff o wledydd eraill yr UE.

Er bod llawer o ddadlau ynghylch effaith BREXIT, ni chafwyd ffigurau bras eto am yr effaith bosibl o BREXIT ar niferoedd o bobl yng Ngogledd Cymru. Mae Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru wedi cynnal ymchwil i'r niferoedd sy'n gysylltiedig ac wedi ymrwymo i fonitro a chynnal dadansoddiad manwl pellach ar ddiwedd 2017.

MAE **14,300** O WLADOLION O WLEDYDD ERAILL YR UE YN GWEITHIO YNG NGOGLEDD CYMRU AR HYN O BRYD

MAE **20,900** O WLADOLION O WLEDYDD ERAILL YR UE YN BYW YNG NGOGLEDD CYMRU AR HYN O BRYD

MAE **3,900** O WLADOLION O WLEDYDD Y TU ALLAN I'R UE YN GWEITHIO YNG NGOGLEDD CYMRU

MAE **9,700** O WLADOLION O WLEDYDD Y TU ALLAN I'R UE YN BYW YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae cronfeydd yr UE wedi darparu cymorth sylweddol i addysg bellach ac uwch yng Ngogledd Cymru, fel y maent mewn ardaloedd eraill, ac wedi hyrwyddo sgiliau cyflogaeth drwy nifer o brosiectau pwrpasol. Dau o'r diweddaraf yw'r prosiect SEE (Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr) sy'n cael ei reoli yn y rhanbarth gan Goleg Cambria; a phrosiect 'Academi Busnes Gogledd Cymru' sy'n cael ei reoli ar lefel ranbarthol gan Grŵp Llandrillo Menai. Gyda'i gilydd, mae'r ddau brosiect yn derbyn cyllid o tua £20 miliwn. Mae cryn ansicrwydd ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei ailadrodd heb gronfeydd strwythurol yr UE.

MAE
**965**
O WLADOLION O WLEDYDD ERAILL YR UE YN ASTUDIO MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH YNG NGOGLEDD CYMRU

MAE
**2,215**
O WLADOLION O WLEDYDD Y TU ALLAN I'R UE YN ASTUDIO MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae prifysgolion y DU yn cael 15 y cant o gyllid ychwanegol oddi wrth yr UE ac mae rhai'n credu y gallai'r DU golli hyn. Ym Mhrifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol Caer, ymysg eraill, gallai olygu hefyd y bydd academwyr yn ei chael yn anodd cydweithredu ar brosiectau ymchwil. Mae hefyd yn bosibl y byddai newid mewn trefniadau fisa ar gyfer gwledydd Ewropeaidd eraill yn gallu atal academwyr o'r radd flaenaf rhag dod i'n prifysgolion, yn enwedig mewn cyfnodau tyngedfennol pan yw datblygiadau economaidd fel cynllun Wylfa Newydd yn cynnig cryn botensial ar gyfer ymchwil, arloesi, a datblygu sgiliau lefel uwch yn y rhanbarth..

Mewn astudiaeth ddiweddar o effaith sgiliau, nododd y Brifysgol Agored fod cyflogwyr yn ei chael yn fwyfwy anodd recriwtio staff sydd â sgiliau priodol, ond nododd hefyd: "…. uncertainty surrounding Brexit was exacerbating the skills gap."

Roedd yr astudiaeth wedi cael bod nifer mawr o gwmnïau, o ganlyniad i hyn, yn gorfod cyflogi staff dros dro a thalu ffioedd recriwtio ychwanegol, yn ogystal â chyflogau mwy. Mae nifer o gyflogwyr yng Ngogledd Cymru, yn enwedig yn y sector twristiaeth a lletygarwch, yn ogystal â'r sector creadigol a digidol, eisoes yn gweld y dull hwn o weithredu'n ddod yn fwy cyffredin.

## PROSIECTAU SGILIAU RHANBARTHOL ESF

**Mae Gogledd Cymru yn chwarae rhan mewn defnyddio cyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i wella bywydau ein preswylwyr drwy ddysgu sgiliau newydd a dod o hyd i swyddi gwell. Ledled Cymru, mae nifer o ymyriadau allweddol ar waith i wynebu heriau allweddol i'n marchnad lafur, i ddelio â diweithdra, tangyflogaeth, cyflogaeth ieuenctid yn ogystal â sgiliau lefel uwch a STEM.**



Mae'r ddarpariaeth genedlaethol wedi'i hategu gan nifer o fuddsoddiadau pwrpasol a chydgysylltiedig yng Ngogledd Cymru, y rhan fwyaf ohonynt wedi'u cychwyn gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a'u datblygu gyda'i chymorth.

Mae'r dull rhanbarthol hwn o weithredu, sydd wedi'i gynllunio mewn ymateb i anghenion a chyfleoedd yn y rhanbarth ar sail gwybodaeth am y farchnad lafur ac ymgysylltu â chyflogwyr, yn sicrhau synergedd cryf rhwng y galw am gyflogaeth a'r cyflenwad. Mae hyn yn galluogi'r rhanbarth i ymdrin â gwendidau a diffyg cydbwysedd strwythurol yn y farchnad lafur, ymateb i gyfleoedd economaidd sy'n codi a helpu i amrywiaethu sgiliau'r gweithlu mewn ymateb i gyfleoedd am dwf.

Er mwyn sicrhau llwyddiant, rhaid cynnal yr ymgysylltu a'r cysylltiadau ar draws a rhwng gweithrediadau. Mae'r rhanbarth yn cymryd camau i sicrhau goruchwyliaeth ranbarthol a gweithgarwch cydgysylltiedig drwy gydweithio'n agos â gweithrediadau perthnasol drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol.

TRAC 11-24 o dan arweiniad Cyngor Sir Ddinbych

ADTRAC o dan arweiniad grwp Llandrillo Menai

OPUS o dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

SEE (Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Gweithwyr) o dan arweiniad Coleg Cambria

Academi Busnes Gogledd Cymru o dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai

Ymysg y prosiectau eraill o dan yr ESF sy'n canolbwyntio ar sgiliau yng Ngogledd Cymru y mae: Cynhwysiant Gweithredol (WCVA); Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth 'PaCE' (Llywodraeth Cymru); Arweinyddiaeth ION (Prifysgol Abertawe gyda Phrifysgol Bangor); Cyflawni drwy Brofiad Gwaith (CCAUC); a Cymunedau am Waith (Llywodraeth Cymru).

Yn ogystal â'r uchod, mae nifer o brosiectau sgiliau a chyflogaeth o dan yr ESF yn gweithredu o dan arweinyddiaeth genedlaethol yng Ngogledd Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â materion cysylltiedig ag iechyd (Cymru Iach ar Waith, Llywodraeth Cymru ) yn ogystal â meysydd eraill fel Sgiliau a Chyflogaeth Ieuenctid (Hyfforddeiaethau a Phrentisiaethau a Twf Swyddi Cymru, Llywodraeth Cymru; Cyflawni drwy Brofiad Gwaith, CCAUC; EES STEM Cymru 2 a KESS 2 Prifysgol Bangor); lleihau anghydraddoldeb yn y gweithle (Achieving Change through Employment, SOVA a Cenedl Hyblyg 2, Chwarae Teg) a hybu sgiliau yn y gwaith (Rhaglen Twf Busnesau Twenty20, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Bangor a Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, Llywodraeth Cymru).

Sicrhau'r effaith fwyaf posibl o'r gweithrediadau hyn yng Ngogledd Cymru yw un o'r blaenoriaethau pennaf yn y rhanbarth. Drwy ddefnyddio strwythurau a thimau rhanbarthol presennol, byddwn mewn lle da i sicrhau ymgysylltu a chydweithredu effeithiol â phartneriaid cenedlaethol i helpu i chwalu rhwystrau neu ddatrys anawsterau wrth weithredu ar lefel ranbarthol – er mwyn sicrhau canlyniadau rhagorol i bobl Gogledd Cymru.

## ARDALOEDD MENTER

| YNYS MÔN | GLANNAU DYFRDWY | ERYRI |
|---|---|---|
| CANOLFAN AR GYFER CYNHYRCHU YNNI CARBON ISEL DRWY BROSIECTAU YNNI CARBON ISEL MAWR | Y DWYSEDD MWYAF O SWYDDI GWEITHGYNHYRCHU UWCH A SGILIAU CREFFTUS IAWN YN Y DU | AMGYLCHEDD DELFRYDOL I FUSNESAU CYSYLLTIEDIG AG YNNI CARBON ISEL, TGCH AC AWYROFOD |

Mae Bwrdd **Ardal Fenter Ynys Môn** yn parhau i ganolbwyntio ar droi'r ynys yn ganolfan ragoriaeth o'r radd flaenaf ar gyfer cynhyrchu pŵer carbon isel ar 10 safle allweddol. Mae sgiliau peirianneg ac adeiladu ei gweithlu presennol yn gryf iawn ac mae lefelau cynhyrchiant yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU. Yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16, crëwyd 99 o swyddi o ganlyniad i gymorth ariannol uniongyrchol neu gymorth ehangach a diogelwyd 46 o swyddi pellach. Cyfanswm y swyddi a grëwyd hyd yn hyn yw 571, a diogelwyd 444 o swyddi er 2014.


Ar gampws Grŵp Llandrillo Menai yn Llangefni, datblygwyd Canolfan Ynni a Chanolfan Sgiliau Adeiladu o'r radd flaenaf sy'n cynnwys cyfleusterau hyfforddi a thechnoleg ynni carbon isel sydd â chysylltiadau cryf â diwydiant. Bydd y Ganolfan Beirianneg newydd werth £20 miliwn yn rhoi rhagor o gymorth i ddatblygu sgiliau wrth baratoi ar gyfer prosiect Wylfa Newydd. Yn ogystal â hyn, mae Prifysgol Bangor yn arwain ar ddatblygu Parc Gwyddoniaeth Menai i ategu ei chymorth ac arbenigedd presennol.

Mae safle 2,000 hectar (4,942 o erwau) **Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy** yng Ngogledd-ddwyrain Cymru yn gartref i amrywiaeth o sectorau gweithgynhyrchu cyfoes a chrefftus iawn – yn rhychwantu'r sectorau awyrofod a modurol, electroneg a fferylliaeth, yn ogystal ag adeiladu, bwyd ac ynni cynaliadwy. O ran sgiliau a llafur, mae mwy na 2 miliwn o bobl yn byw o fewn pellter 30 munud o daith. Yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16, crëwyd 784 o swyddi o ganlyniad i gymorth ariannol uniongyrchol neu gymorth ehangach a diogelwyd 176 o swyddi pellach. Cyfanswm y swyddi a grëwyd hyd yn hyn yw 2,036, a diogelwyd 3,150 o swyddi er 2014.

Mae sefydliadau academaidd lleol fel Coleg Cambria a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, a'r sector cyhoeddus, wedi gweithio ers degawdau ochr yn ochr â chwmnïau mawr fel Airbus, Tata Steel, Toyota a UPM i hybu sgiliau ac arbenigedd gweithgynhyrchu mewn cyfleusterau fel y Ganolfan Ymchwil, Hyfforddi a Datblygu Deunyddiau Cyfansawdd Uwch bresennol, a byddant yn gwneud hynny eto yn yr Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch arfaethedig o dan arweiniad Coleg Cambria gyda phartneriaid mewn diwydiant a llywodraeth.

Yn y Parc Cenedlaethol, mae **Ardal Fenter Eryri** wedi'i lleoli ar ddau safle unigryw sydd wedi'u paratoi'n benodol ar gyfer busnesau cysylltiedig ag ynni carbon isel, TGCh neu awyrofod. Ar safle Trawsfynydd, mae'r cyfleoedd yn cynnwys datblygu potensial yr Adweithydd Modiwlaidd Bach (SMR), y cyntaf o'i fath; ac yng Nghanolfan Awyrofod Eryri, mae mannau pwrpasol ar gyfer Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell a Chynnal, Atgyweirio ac Archwilio o fewn y parc busnes ehangach, ynghyd â seilwaith o'r radd flaenaf.

Er mai hon yw'r lleiaf o'r tair ardal ddatblygu, mae'n cynnig cryn botensial, ac er mai dim ond 6 o swyddi a grëwyd er 2014, a diogelu 2 swydd bellach, rhaid ei gweld yng nghyd-destun daearyddiaeth a demograffeg yr ardal. Buddsoddwyd yng Nghanolfan Awyrofod Eryri er mwyn paratoi'r maes glanio ar gyfer cyfleoedd pellach. Bellach mae'n cynnal 30 o weithwyr amser llawn a 4 gweithiwr rhan-amser. Dyma'r cam cyntaf ar gyflawni Uwchgynllun y safle ar sail defnydd cymysg.




## PROSIECTAU RHANBARTHOL & BUDDSODDIADAU ANGEN SGILIAU

**1. Wylfa Newydd**

**2. Gwaith Biomas Orthios**

**3. Land and Lakes, Ynys Môn**

**4. Canolfan Sgiliau a Thechnoleg Gweithgynhyrchu Uwch**

**5. Carchar Berwyn, Wrecsam**

**6. Porth y Gogledd, Sir y Fflint**

**7. Warren Hall, Glannau Dyfrdwy**

**8. Cyfleuster Adfer Ynni'r Parc Adfer, Glannau Dyfrdwy**

**9. Porth Gofod Llanbedr**

**10. Adweithydd Niwclear Modiwlaidd, Trawsfynydd**

**11. Morlyn Llanw Bae Colwyn**

Mae'r tri phrosiect olaf yn y rhestr uchod yn dybiannol ar hyn o bryd. Os byddant yn datblygu ymhellach, byddant yn galw am sgiliau penodol ac unigryw yng Ngogledd Cymru ar gyfer eu hadeiladu a'u gweithredu.

**Ceir nifer cynyddol o alwadau gan gyflogwyr yn ein Hardaloedd Menter, prosiectau rhanbarthol mawr, sectorau twf a sectorau economaidd allweddol, a chan y busnesau micro a busnesau bach a chanolig sy'n hanfodol i economi'r rhanbarth, am wahanol sgiliau a mathau o gyflogaeth i gwrdd â'u hanghenion. Mae hyn yn ategu'r uchelgais a'r cyfleoedd a geisir drwy'r cynigion ar gyfer Cynnig Twf Gogledd Cymru.**

Wrth ddadansoddi'r galw, mae Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru yn awyddus i ganfod ffyrdd o uwchsgilio'r gweithlu presennol er mwyn lleihau problemau fel tlodi mewn gwaith a hefyd i gydweithio â phartneriaid i ddwyn dylanwad a chael gwell mynediad at sgiliau drwy wella seilwaith a thrafnidiaeth er mwyn ateb galwadau, yn unol â 'Growth Track 360'.

**Yr her wrth ateb y galw yng Ngogledd Cymru yw canfod ffyrdd o ddelio â'r bwlch yn y gweithlu yn y rhanbarth, yn fwy felly na'r bwlch sgiliau o bosibl....**

Yn y rhan hon o'r Cynllun, rydym yn edrych ar y galwadau lefel uchel o ran sgiliau a'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru, gan gyfeirio hefyd at ein hardaloedd trawsffiniol. Ar ôl cyflwyno trosolwg cyffredinol ar faterion ehangach o ran y galwadau am sgiliau, a meysydd i'w hystyried er mwyn ateb y rhain, byddwn wedyn yn cynnig trosolwg a dadansoddiad o'r galwadau ym mhob un o'r tri sector economaidd allweddol, ac yn y pum sector twf a bennwyd ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae ein dadansoddiad ni, ynghyd â'r gwaith ar y Cynnig Twf ar gyfer Gogledd Cymru ac ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, yn tanlinellu'r berthynas rhwng gweithwyr crefftus ac arloesedd a pherfformiad economaidd. Os bydd y Cynnig Twf yn llwyddiannus, bydd angen pobl ychwanegol yng ngweithlu'r rhanbarth sydd â'r sgiliau y mae busnesau yng Ngogledd Cymru a'r ardaloedd trawsffiniol yn galw amdanynt, yn cynnwys sgiliau allweddol ar gyfer argraffu 3D a chreu data: bydd y galw am sgiliau yn y technolegau hyn yn effeithio ar nifer o sectorau, ond maent eisoes yn brin yn y rhanbarth.

Er mwyn ateb y galwadau'n effeithiol, bydd angen darparu addysg alwedigaethol yn ogystal ag addysg academaidd draddodiadol. Felly bydd angen i ni feithrin ein dylanwad a'n perthnasoedd ymhellach gydag ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch, yn ogystal ag undebau llafur a darparwyr dysgu seiliedig ar waith; a hyrwyddo cysylltiadau rhyngddynt drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, er mwyn ymateb yn briodol ar y cyd i alwadau cyflogwyr am sgiliau a llafur yn awr ac yn y dyfodol.

## SECTORAU ALLWEDDOL

YNNI A'R AMGYLCHEDD

DEUNYDDIAU A GWEITHGYNHYRCHU UWCH

ADEILADU

## SECTORAU TWF

CREADIGOL A DIGIDOL

IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

TWRISTIAETH A LLETYGARWCH

GWEITHGYNHYRCHU BWYD A DIOD

ARIANNOL A PHROFFESIYNOL

Yn ogystal â'r sgiliau technegol, academaidd a galwedigaethol y mae pob un o'r wyth sector uchod yn galw amdanynt i gwrdd â'i anghenion o ran ailsgilio'r farchnad lafur bresennol, yn enwedig mewn busnesau bach a chanolig a busnesau micro mewn rhannau gwledig o Ogledd Cymru, mae cyflogwyr ym mhob un o'r sectorau hyn yn gytûn bod angen i bob cyflogai gael set o sgiliau trosglwyddadwy craidd sylfaenol .

Prince's Trust
Cymru

Rydym yn benderfynol o gynyddu ein presenoldeb a sicrhau bod ein gwaith yn fwy gweladwy drwy weithio mewn partneriaeth, wrth ddyblu ein hadnoddau staff yn y Gogledd, gan ddarparu, er enghraifft, ein rhaglen cyflogadwyedd "Get into" ar gyfer sectorau penodol sy'n cynnwys Adeiladu, Rheilffyrdd, Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gofal yng Ngogledd Cymru. Rydym am ehangu hyn, ar sail cyfleoedd a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol, i gynnwys Lletygarwch, Twristiaeth, Gweithgynhyrchu, Peirianneg Rheilffyrdd, Diogeledd a Digidol. Hoffem barhau i gydweithio â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, fel y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol dros Ogledd Cymru, fel yr ydym wedi gwneud yn barod drwy helpu pobl i gael gwaith wrth adeiladu Carchar Berwyn yn Wrecsam, er mwyn nodi a mapio rhagor o ragolygon a chyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc ledled Gogledd Cymru fel y gallwn ganolbwyntio ar y sectorau allweddol hyn gyda chymorth y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol.

Ym marn cyflogwyr, er bod nifer mawr o'r bobl iau sy'n dod i'r farchnad lafur am y tro cyntaf ac yn cael eu recriwtio a'u penodi o'r newydd yn meddu ar lawer o'r sgiliau academaidd a sgiliau technegol y maent yn gofyn amdanynt ar gyfer eu diwydiant, maent yn aml yn dangos diffyg cymhwysedd ac ymwybyddiaeth o'r sgiliau mwy meddal y mae ar gyflogwyr eu hangen..

Byddai methu â diwallu'r angen am sgiliau mwy meddal a sylfaenol yn y farchnad lafur yng Ngogledd Cymru ar gyfer gweithwyr newydd a'r rheini sy'n dychwelyd i weithio ar ôl bod yn ddi-waith, yn gallu arwain at gynnydd yn nifer y swyddi sy'n wag dros y tymor hwy, at fwy o gostau am hyfforddiant i gyflogwyr, a sefyllfa lle mae cyflogeion yn gweithredu'n is na'r lefelau gofynnol yn y gweithle.

Mae un dull posibl o ateb y galwadau gan gyflogwyr, a rhoi hwb i ddatblygu sgiliau priodol, wedi'i gynnig yng Nghynnig Twf Gogledd Cymru. Awgrymir sefydlu cronfa sgiliau bwrpasol yn y rhanbarth i gefnogi a helpu'r rheini sydd mewn cyflogaeth isel ei thâl ar hyn o bryd, ond sydd â chymwysterau ac uchelgeisiau uwch. Byddai'n canolbwyntio'n benodol ar brentisiaethau uwch ar lefel gradd, ac ar sefydlu bwrsariaeth i hybu mynediad i hyfforddiant mewn gwaith.

Byddai'r gronfa sgiliau arfaethedig ar gyfer y rhanbarth yn helpu'r rheini sydd mewn cyflogaeth i gael cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant a datblygiad ychwanegol, i'w galluogi i symud i rolau â sgiliau uwch yn ein sectorau allweddol a sectorau twf. Os bydd y dull hwn yn llwyddiannus, bydd yn helpu i gadw gweithwyr, yn lleihau tlodi mewn gwaith, yn ateb galwadau am sgiliau priodol oddi wrth gyflogwyr, ac yn rhoi mwy o gymhelliant i'r rheini sydd mewn perygl o gael eu dadleoli ac i grwpiau agored i niwed.

ROEDD
**70%**
O GYFLOGWYR YN Y RHANBARTH WEDI RECRIWTIO STAFF O DAN 25 OED YN 2016

ROEDD
**17%**
O GYFLOGWYR YN Y RHANBARTH WEDI CYNNIG PRENTISIAETHAU YN 2016

ROEDD
**26%**
O GYFLOGWYR YN Y RHANBARTH WEDI CYNNIG PROFIAD GWAITH YN 2016

Mae'r rhanbarth eisoes wedi dechrau gweithio ar Becyn Cymorth Cyflogadwyedd Gogledd Cymru i ategu a hyrwyddo Cynllun Cyflogadwyedd cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn o gymorth i ddiwallu anghenion cyflogwyr yn y chwe sir, ac yn adlewyrchu'r anghenion mewn ardaloedd trawsffiniol.

Mae'r angen i ateb y galw am ddull mwy integredig a chydgysylltiedig o ddarparu cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn ddyhead sydd wedi'i adlewyrchu yng Nghynnig Twf Gogledd Cymru. Mae'r cynnig yn ehangu'r cymorth presennol a ddarperir gan Gyrfa Cymru a'r uchelgais a gyflwynwyd yn ei ddogfen ddiweddar "Newid Bywydau – Gweledigaeth ar gyfer Gyrfa Cymru 2017-20" a gyhoeddwyd yn gynharach yn 2017.

Yng Ngogledd Cymru, rydym yn rhag-weld y bydd Gyrfa Cymru yn gweithio'n rhan o ddull gwasanaeth integredig ochr yn ochr â DWP, partneriaid addysg bellach ac uwch, a chynrychiolwyr cyflogwyr priodol o ddwy ochr y ffin i nodi ac ymateb i alwadau er mwyn cynnig cyngor gyrfaoedd rhanbarthol pwrpasol. Gwneir hyn drwy hyrwyddo lleoliadau a phrofiad gwaith priodol a theilwredig, a chanolbwyntio ar bob oed er mwyn helpu ceiswyr swyddi, yn ogystal â hybu uchelgais mewn pobl ifanc i weithio yn ein sectorau allweddol a sectorau twf.

Er mwyn denu sgiliau i'r rhanbarth a'u cadw i ateb galwadau cyflogwyr, rhaid i ni wneud rhagor hefyd yng Ngogledd Cymru i hyrwyddo'r dimensiwn cymdeithasol ehangach mewn perthynas â chydlyniant cymdeithasol a chyfalaf cymdeithasol gan fod hyn hefyd yn hollbwysig. Yn ogystal â monitro a hyrwyddo ansawdd y swyddi a grëir (gan ddileu'r posibilrwydd o ddibynnu'n gynyddol ar yr economi 'gig'), mae angen canolbwyntio hefyd ar hyrwyddo a chysoni ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth – addysg, iechyd, tai, trafnidiaeth, diwylliant a lles. Yn wyneb y cystadlu cynyddol rhwng rhanbarthau i ddenu a chadw talentau, mae gan Ogledd Cymru fwy o lawer i'w gynnig nag eraill gydag ansawdd bywyd heb ei ail i weithwyr a'u teuluoedd. Mae'r pecyn economaidd-gymdeithasol hwn yn gynyddol bwysig wrth helpu i ateb y galwadau am sgiliau.

| | |
|---|---|
| CYFRIFIADUR ATHECHNEGOL | DYLANWAD |
| MARCHNATA | DATBLYGU CYNNYRCH |

Mae'r sgiliau hyn, a oedd gynt yn cael eu gweld yn sgiliau uwch gan gyflogwyr, yn cael eu gweld fwyfwy yn rhan o'r sgiliau prif ffrwd gan gyflogwyr yng Ngogledd Cymru. Mae themâu trawsbynciol ymwybyddiaeth a chymhwysedd mewn pynciau STEM, rhifedd a llythrennedd, ac ymwybyddiaeth gyffredinol o ymddygiad ac ymddangosiad priodol yn y gweithle yn feysydd y mae cyflogwyr yn rhoi mwy o bwys arnynt wrth ystyried penodi staff yn yr holl sectorau allweddol a sectorau twf.

Bydd yn hollbwysig cydweithio â Llywodraeth Cymru a'r Porth Sgiliau, er enghraifft, i hyrwyddo ffyrdd o ddarparu sgiliau i ateb galwadau gan y rhanbarth a'i sectorau, ac osgoi dadleoli sgiliau o gymunedau gwledig a thrawsffiniol er mwyn sicrhau bod y rhanbarth yn cydymffurfio â mesurau sy'n cael eu hyrwyddo yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'n bosibl mai'r galw am amnewid llafur yw'r her a'r galwad mwyaf sy'n wynebu'r rhanbarth. Mae rhagolygon o'r angen am amnewid gweithwyr mewn rolau yn y 5-10 mlynedd nesaf yng Ngogledd Cymru yn galw am gynllunio rhaglen amnewid i ateb y galw am sgiliau. Bydd angen i bartneriaid y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol gymryd camau i hyrwyddo'r dull hwn o weithredu ar y cyd, a chydweithio â mecanweithiau presennol fel y Rhaglen Gyflogadwyedd i Bob Oed, a'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau, i ddarparu gwybodaeth leol a rhanbarthol ar gyfer ateb galwadau, yn enwedig mewn perthynas â hyrwyddo sgiliau iaith Gymraeg yn y ffordd fwyaf effeithiol ledled Gogledd Cymru.

BYDD GALW AM AMNEWID O HYD AT

**34%**

MEWN CREFFTAU MEDRUS YN Y SECTOR YNNI A'R AMGYLCHEDD O HYN TAN 2024 YNG NGOGLEDD CYMRU

BYDD GALW AM AMNEWID O HYD AT

**30%**

MEWN CREFFTAU MEDRUS YN Y SECTOR GWEITHGYNHYRCHU UWCH O HYN TAN 2024 YNG NGOGLEDD CYMRU

BYDD GALW AM AMNEWID O HYD AT

**34%**

MEWN CREFFTAU MEDRUS YN Y SECTOR ADEILADU O HYN TAN 2024 YNG NGOGLEDD CYMRU

**Mae'r sector ynni a'r amgylchedd yn gyflogwr allweddol yng Ngogledd Cymru, felly mae wedi'i bennu'n un o'r tri sector allweddol o ran sgiliau a chyflogaeth yn y Cynllun hwn.**

Mae'r clwstwr ynni yn sbardun allweddol ac, wrth iddo barhau i ehangu, bydd angen iddo sicrhau arbenigedd mewn cynhyrchu ynni, technolegau carbon isel a phrosesau, gyda busnesau sy'n barod i fanteisio ar gyfleoedd o ganlyniad i fuddsoddiadau yn Wylfa Newydd, Adweithyddion Modiwlaidd Bach Trawsfynydd, a phrosiectau ynni gwynt ar y môr, biomas ac ynni'r llanw. Bydd busnesau yn y clwstwr yn gallu gwneud defnydd o'r canolfannau rhagoriaeth sy'n datblygu, a'r rheini'n cynnwys Parc Gwyddoniaeth Menai a'r Canolfannau Ynni a Pheirianneg yn Ynys Môn, yr Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy a chyfleusterau ar draws y ffin ym Mharc Gwyddoniaeth Thornton, a Choridor Gwyddoniaeth Swydd Gaer, er mwyn hyrwyddo sgiliau ac arbenigedd yn y rhanbarth yn awr ac yn y dyfodol.

**Yn bwysig, gwneir pob ymdrech i elwa ar synergedd gyda gweithgarwch datblygiadau clwstwr y sector ynni mewn rhanbarthau eraill cyfagos, yn enwedig cyfleoedd cadwyni cyflenwi. Bydd gogledd Cymru, ynghyd â'r ardal drawsffiniol a gogledd-orllewin Lloegr, yn cael eu gosod fel un o leoliadau mwyaf blaenllaw'r DU ar gyfer buddsoddi mewn cynhyrchu ynni a chadwyni cyflenwi yn ymwneud ag ynni, gydag arbenigedd mewn busnes ac academia i achub ar gyfleoedd am y galw byd-eang ar gyfer ynni carbon isel neu ddim carbon.**

Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru (Gorff 2016)

| MAE | RHAGWELIR Y BYDD TUA | CREDIR MAI |
|---|---|---|
| **16,789** | **850** | **£1 BILIWN** |
| O BOBL WEDI'U CYFLOGI MEWN BUSNESAU YNNI A'R AMGYLCHEDD ARBENIGOL YNG NGOGLEDD CYMRU | O SWYDDI GWEITHREDU UNIONGYRCHOL YN CAEL EU CREU YM MHROSIECT WYLFA NEWYDD | O BOBL WEDI'U CYFLOGI MEWN BUSNESAU YNNI A'R AMGYLCHEDD ARBENIGOL YNG NGOGLEDD CYMRU |

Y galwadau gan gyflogwyr ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r sector yw y byddant wedi'u hyfforddi'n dda mewn cymwyseddau sylfaenol ac yn dangos sgiliau allweddol penodol cyn eu penodi. Bydd yn bwysig iawn hyrwyddo a diwallu'r angen am fwy o unigolion cymwysedig mewn pynciau STEM yng Ngogledd Cymru gan fod disgwyliadau cyflogwyr yn codi drwy'r amser oherwydd y cystadlu cynyddol am nifer llai o gyfleoedd cyflogaeth sy'n talu'n dda.

Bydd hyn yn ein helpu hefyd i gysoni ein dyheadau ac uchelgeisiau ar gyfer y sector yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru ag agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer Twf Gwyrdd. Er mwyn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), byddwn yn datblygu'r sector allweddol hwn yn y rhanbarth gan hyrwyddo a datblygu ein gweithlu a meithrin sgiliau, ac yn dosbarthu'r elw o dwf economaidd yn deg ac yn datblygu prosiectau mewn ffordd sy'n trechu tlodi, gan geisio atal effeithiau costus o'r newid yn yr hinsawdd a defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol, lle bo'n ymarferol.

## GALW AM SGILIAU GWEITHREDOL Y DIWYDIANT NIWCLEAR I'R DYFODOL

| | | |
|---|---|---|
| PEIRIANNEG FECANYDDOL | PEIRIANNEG SIFIL | RHEOLAETH AC OFFERYNIAETH |
| CONCRITWYR | GOSODWYR DUR A SGAFFALDWYR | RHEOLWYR PROSIECTAU A RHAGLENNI |

Bydd prosiect Wylfa Newydd, sy'n werth £12 biliwn, yn cael effaith sylweddol ar sylfaen sgiliau'r gadwyn gyflenwi ehangach yng Ngogledd Cymru. Bydd angen gweithwyr profiadol ar gyfer cyflenwi a gosod hyd at 270,000m3 o goncrit, 100km o bibellau, a 70,000 o droedfeddi o fariau atgyfnerthu, yn ogystal â chymorth o bob math yn yr holl sectorau.

Yn ogystal â hyrwyddo a phennu anghenion am sgiliau a recriwtio yn y dyfodol drwy bartneriaethau presennol, sef y rhai â Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor yn bennaf, mae Horizon Nuclear Power hefyd yn ystyried nifer o lwybrau at gyflogaeth i ateb y galw. Drwy gydweithio â'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yng Ngogledd Cymru a DWP, mae'n ystyried llwybrau ar gyfer y rheini sydd am newid gyrfa; y rheini sy'n cael eu hadsefydlu ar ôl gadael y lluoedd arfog; staff sydd â phrofiad o'r diwydiant niwclear ar ôl gweithio ar y safleoedd sydd wedi'u datgomisiynu yn Nhrawsfynydd a Wylfa; a'r rheini sy'n economaidd anweithgar ar hyn o bryd ac yn ceisio dychwelyd i weithio.

Ar lefel leol, fodd bynnag, nid yw'r niferoedd sydd yn y farchnad lafur yn Ynys Môn yn ddigon i ateb y galw gan y prosiect pan fydd yn dechrau. Er bod partneriaid lleol a rhanbarthol o blaid hyrwyddo'r cyfleoedd yn y farchnad lafur bresennol a'r un sy'n datblygu yn Ynys Môn, bydd angen i'r rhanbarth ehangach chwarae rhan allweddol hefyd mewn cyflenwi'r sgiliau priodol i ateb galwadau penodol y prosiect, nid yn unig ar gyfer y gweithlu ar y safle ei hun, ond hefyd ar gyfer y gadwyn gyflenwi ehangach yn y rhanbarth lle mae'n bosibl y bydd angen ennill achrediadau ffurfiol ar gyfer sgiliau ychwanegol er mwyn cymryd rhan mewn prosiect o'r math hwn..

Y sgiliau sy'n brin yn y sector niwclear ar hyn o bryd yw cymwyseddau gan gynnwys y rheini ar gyfer datrys problemau lefel uchel a rheoli strategol

Mae'r pryderon mwyaf ynghylch y gallu i ateb galwadau am sgiliau yn y sector niwclear a'r sector ynni ehangach yn ymwneud â chymwysterau ac arbenigedd technegol mewn pynciau STEM. Gellir priodoli hyn i'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n astudio'r pynciau hyn yn ein hysgolion.

Un o'r prosiectau eraill yn y sector hwn yng Ngogledd-orllewin Cymru sy'n galw am sgiliau yw datblygiad ORTHIOS, sy'n werth £1 biliwn, a fydd yn darparu hyd at 700 o swyddi ar ôl ei roi ar waith. Bydd yn cynhyrchu 299 MegaWat o ynni drwy weithfa Biomas a chyfleuster bwyd a phŵer cyfunol (acwaponeg a hydroponeg) i ddarparu trydan i 300,000 o gartrefi.

Yn Sir y Fflint, disgwylir y bydd y gwaith ar sylfeini'r cyfleuster adfer ynni gwerth £600 miliwn yn Parc Adfer yn dechrau yn 2017 ac y bydd ar waith erbyn 2019. Bydd swyddi ar gyfer 300 o weithwyr yn y cyfnod adeiladu, a 35 o weithredwyr peirianwaith pan fydd yn weithredol.

Yng Ngwynedd, ceir cynigion ar gyfer adeiladu Adweithydd Modiwlaidd Bach gwerth £1 biliwn ger safle presennol Trawsfynydd a all fod yn weithredol erbyn 2030. Yn ôl yr amcangyfrifon presennol, bydd hyd at 800 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu, a 365 ar ôl ei roi ar waith. Bydd y datblygiad hwn yn dod â swyddi o werth uchel i Feirionnydd, ardal economaidd leol gyda chyflogau isel sy'n perfformio'n wael ar hyn o bryd.

Mae gwybodaeth o ragolygon ar gyfer Gogledd Cymru yn dangos y bydd newid yng nghyfansoddiad galwedigaethau yn y sector ynni a'r amgylchedd hyd 2024. Rhagwelir cynnydd sylweddol yn y galw am alwedigaethau lefel uwch, fel rheolwyr, gweithwyr proffesiynol a phroffesiynol cyswllt, ac y bydd galwedigaethau crefftau medrus yn parhau'n gyfran fawr o'r gyflogaeth. Fodd bynnag, oherwydd cynnydd mewn awtomeiddio a'r defnydd o dechnoleg, rhagwelir y bydd gostyngiad yn nifer y swyddi sy'n gysylltiedig â gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau, ond bydd angen o hyd i amnewid y llafur presennol a bydd angen 32% o weithwyr newydd yn y maes hwn i gydbwyso'r niferoedd sy'n gadael y sector drwy ymddeol neu am resymau eraill.

| | | | |
|---|---|---|---|
| MAE ANGEN CYNNYDD O **+23%** MEWN GALWEDIGAETHAU PROFFESIYNOL YN Y SECTOR HYD 2024 | MAE ANGEN CYNNYDD O **+20%** MEWN GALWEDIGAETHAU PROFFESIYNOL A THECHNEGOL CYSWLLT YN Y SECTOR HYD 2024 | MAE ANGEN CYNNYDD O **+6.3%** MEWN GALWEDIGAETHAU CREFFTAU MEDRUS YN Y SECTOR HYD 2024 | RHAGWELIR GOSTYNGIAD **-2.5%** YN NIFER Y GWEITHREDWYR PROSESAU, PEIRIANWAITH A PHEIRIANNAU YN Y SECTOR HYD 2024 |
| **39%** | **36%** | **34%** | **33%** |

## Y GALW AM AMNEWID GWEITHWYR

Mae'r galw cyffredinol am amnewid gweithwyr mewn rolau cyflogaeth allweddol ar draws y sector o hyn tan 2024 yn cynnwys staff i amnewid â'r rheini sy'n gadael y sector. Mae hefyd yn dangos ym mha feysydd y bydd angen y rhan fwyaf o brentisiaethau, lleoliadau gwaith a hyfforddeiaethau yn y sector Ynni a'r Amgylchedd yng Ngogledd Cymru er mwyn cwrdd â'r galw am sgiliau yn y sector, drwy ein marchnad lafur breswyl, yn awr ac yn y dyfodol.



**Rwy'n frwd iawn ynghylch peirianneg ac mae wedi bod yn wych cael cyfle i weithio yn y maes hwn o'r diwedd. Mae'n gyffrous cael cymryd rhan ym mhrosiect Wylfa Newydd gan y byddaf yn gweld pob cam yn y gwaith o ddatblygu'r orsaf bŵer, ac yn cael gweithio yno ar ôl ei gorffen!**

Nia, 17 Oed – Prentis Horizon Nuclear Gyda GLLM

**Mae'r sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch yn gyflogwr allweddol yng Ngogledd Cymru, ac yng Nghymru gyfan. Felly mae wedi'i nodi'n un o'r tri sector allweddol o ran sgiliau a chyflogaeth yn y Cynllun hwn.**

Mae'n cynnwys is-sectorau awyrofod, modurol, cemegau a phetrolewm, peirianneg a pheirianneg drachywir, gwyddorau bywyd, deunyddiau ac araenau, opto-electroneg, TG a gwasanaethau cymorth sector-benodol, pecynnu, gwasanaethau proffesiynol, morol, dillad, metelau a dur. Mae'r sector yn parhau i ddatblygu'n un o'r prif sbardunau cymdeithasol-economaidd yng Ngogledd Cymru.

Y clwstwr gweithgynhyrchu uwch yn y rhanbarth yw un o'n sectorau pwysicaf o hyd o ran sgiliau lefel uwch, ac mae'n parhau'n gystadleuol iawn ar lefel ryngwladol. Mae'r Weledigaeth ar gyfer Twf Gogledd Cymru yn nodi:

> **"Bydd y rhanbarth yn ferw o weithgareddau yn y clwstwr hwn, gan adeiladu ar rwydwaith cryf o gwmnïau angori gyda phroffil rhyngwladol a mantais gystadleuol o fewn awyrofod, deunyddiau a phrosesau, peirianneg forol ac amgylcheddol, cerbydau modur, electroneg a bwyd."**

Mae cwmnïau angori yn y clwstwr hwn eisoes yn cael eu cyflenwi gan fusnesau bach a chanolig yn y rhanbarth sydd ag enw da am ansawdd, a chan farchnad lafur sy'n cynnig sgiliau crefftus a diffiniol. Wrth barhau i ddatblygu'r sgiliau hyn drwy gynlluniau hyfforddi, a llenwi bylchau, bydd y clwstwr yn elwa hefyd yn y dyfodol o bortffolio o safleoedd datblygu â gwasanaethau da ac o asedau a chyfleusterau gwybodaeth gymwysedig, yn enwedig mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.

Bydd twf yn y clwstwr hwn a'r sgiliau sydd eu hangen arno yn cael eu hyrwyddo'n benodol gan Ardaloedd Menter (fel Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy), yn ogystal â buddsoddiadau newydd ym Mhorth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy; Parc Diwydiannol Wrecsam; Parc Busnes Llanelwy; Parc Bryn Cegin, Bangor; a Pharc Cybi, Caergybi. Y safleoedd lle ceir buddsoddi o'r fath a'r busnesau sy'n ehangu ynddynt fydd yn galw am y sgiliau ychwanegol i gynnal cyfleoedd cyflogaeth rhyng-gysylltiedig yn niwydiannau'r gadwyn gyflenwi ac mewn diwydiannau cysylltiedig sy'n darparu gwasanaethau.

MAE
**740**
O FUSNESAU'N GWEITHREDU YN Y SECTOR HWN YNG NGOGLEDD CYMRU AR HYN O BRYD

MAE
**34%**
O'R BOBL A GYFLOGIR YN Y SECTOR HWN YNG NGHYMRU YN CAEL EU CYFLOGI YNG NGOGLEDD CYMRU

BUDDSODDIAD ARFAETHEDIG O
**£30 miliwn**
MEWN ATHROFA YMCHWIL GWEITHGYNHYRCHU UWCH YNG NGLANNAU DYFRDWY

Mae dadansoddiad o'r gyflogaeth yn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch yn y rhanbarth yn ôl is-sector yn dangos bod cyfran fwy o gyflogaeth yng Ngogledd Cymru mewn awyrofod (25%) ac electroneg (19%), o'i gymharu â gweddill Cymru a'r DU.

Gyda'i gilydd, mae'r ddau is-sector hyn yn cynnwys 44% o'r holl gyflogaeth yn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch yng Ngogledd Cymru, ac mae'r 5 is-sector mwyaf yn cynnwys 83% o'r holl gyflogaeth yn y sector hwn yn y rhanbarth. Y rhain yw Awyrofod (25%), Electroneg (19%), Metelau (14%), gweithgareddau peirianneg eraill (13%) a modurol (12%).

**Prinder sgiliau yn hytrach na bwlch sgiliau yw'r hyn sy'n galw am sylw yng nghyswllt gweithlu presennol y sector hwn ledled Gogledd Cymru**

Wrth ystyried gofynion am sgiliau yn y dyfodol yn y sector Gweithgynhyrchu, a'r posibilrwydd y bydd technolegau ychwanegol yn cynyddu cynhyrchiant ac yn hyrwyddo awtomeiddio, y disgwyl yw y bydd angen rhagor o bersonél mewn rolau proffesiynol a phroffesiynol cyswllt yng Ngogledd Cymru. Mae'n bosibl y bydd angen niferoedd mwy yn y rolau hyn nag mewn crefftau medrus yn y sector oherwydd cynnydd technolegau newydd.

Bydd angen cymorth ychwanegol ar staff uwch yn y sector hwn mewn perthynas â sgiliau sy'n ymwneud ag arloesi a masnacholi. Bydd hyn yn ychwanegol at sgiliau presennol yn y sector sy'n cael eu hystyried yn bwysig iawn gan gyflogwyr a staff ar gyfer rheoli prosiectau, marchnata a dylanwadu.



**Bydd yr Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch arfaethedig yng Nglannau Dyfrdwy, sydd wedi'i datblygu gan Fwrdd Cynghorol Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, AMRC Sheffield, Prifysgol Abertawe a Choleg Cambria, ar y cyd â busnesau bach a chanolig a chwmnïau mawr, yn canolbwyntio ar ymchwil a datblygu mewn perthynas â thechnegau gweithgynhyrchu uwch a phrosesau cynhyrchu ar gyfer sectorau gweithgynhyrchu uwch, yn cynnwys awyrofod, modurol, niwclear a bwyd. Bydd hefyd yn ymateb i anghenion am hyfforddiant a sgiliau mewn diwydiant gan gefnogi cwmnïau gweithgynhyrchu allweddol, cwmnïau aml-sector mewn cadwynau cyflenwi, a busnesau bach a chanolig yng Nglannau Dyfrdwy, Gogledd Cymru, Pwerdy Gogledd Lloegr a thu hwnt.**

**930**
O FYFYRWYR ADDYSG UWCH YN DILYN CYRSIAU PEIRIANNEG, TECHNOLEG A GWEITHGYNHYRCHU YN Y RHANBARTH

**5,885**
O FYFYRWYR ADDYSG BELLACH YN DILYN CYRSIAU PEIRIANNEG, TECHNOLEG A GWEITHGYNHYRCHU YN Y RHANBARTH

**1,275**
O BRENTISIAID YM MAES GWEITHGYNHYRCHU A PHEIRIANNEG YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2016

Mewn Addysg Uwch yng Ngogledd Cymru, roedd 930 o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau mewn meysydd pwnc sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu, peirianneg a thechnoleg. Yn 2015/16, roedd hyn yn cynnwys 240 o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor a oedd yn dilyn cwrs cysylltiedig â'r meysydd hyn, sef 204 yn fwy na'r nifer a gofnodwyd yn 2014-15. Ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam roedd 690 o fyfyrwyr yn dilyn cyrsiau yn y meysydd hyn yn amser llawn ac yn rhan-amser.

Mewn Addysg Bellach, roedd 5,885 o weithgareddau dysgu'n gysylltiedig â pheirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu yng Ngogledd Cymru yn 2015-16. Roedd 30 o'r rhain ar lefel mynediad, 625 ar lefel 1, 3,125 ar lefel 2, 1,850 ar lefel 3, a 35 ar lefel 4. .

Roedd mwyafrif y gweithgareddau dysgu hyn, 3,080, ym maes peirianneg; 1,495 ym maes technolegau gweithgynhyrchu, a 1,305 yn ymwneud â gweithrediadau a chynnal cludiant.

Roedd 365 o raglenni prentisiaeth gweithgynhyrchu yng Ngogledd Cymru yn ystod 2015-16, a 910 o raglenni prentisiaeth peirianneg yn yr un cyfnod.

Ym maes gweithgynhyrchu, roedd y cyfanswm yn llai na'r 410 a gofnodwyd ar gyfer 2014-15. Fodd bynnag, er bod gostyngiad ar Lefel 2 yn 2015-16, roedd cynnydd ar Lefel 3 o 50 i 75 o brentisiaethau.

Mae'r 910 o brentisiaethau peirianneg a gofnodwyd yn cynnwys 370 ar Lefel 3, a 20 ar Lefel 4 ac yn uwch, y ddau ym maes 'Gweithgynhyrchu peirianneg'.

Yn Ynys Môn, mae'r is-sector atgyweirio a chynnal awyrennau yn cyflogi 600 o bobl, ac mae 125 o bobl wedi'u cyflogi i weithgynhyrchu adeiladweithiau metel a rhannau o adeiladweithiau – o'i gymharu â 75 yn 2014. Yng Ngwynedd, mae 100 o bobl wedi'u cyflogi i weithgynhyrchu offer a chyfarpar ar gyfer mesur, profi a mordwyo. Mae hyn yn cynnydd ar y 20 o bobl a oedd wedi'u cyflogi yn y maes hwn yn 2012.

Yng Nghonwy, mae 225 o bobl wedi'u cyflogi i weithgynhyrchu adeiladweithiau metel a rhannau o adeiladweithiau a gweithgynhyrchu cyfarpar codi a chario. Mae hyn yn cynnydd ar y 100 o bobl a gyflogwyd yn 2012.

Yn Sir Ddinbych, mae cryfder y sector optoelectroneg yn amlwg, gan fod 500 o bobl wedi'u cyflogi yn yr is-sector gweithgynhyrchu cyfarpar ffotograffig ac offer optegol, cynnydd ar y 400 o bobl yn 2012. Mae'r Ganolfan OpTIC yn ganolbwynt pwysig i'r diwydiant optoelectroneg yn y rhanbarth ac mae'n cynnwys unedau deori busnes sy'n agos i gyflogwyr fel Dyesol UK Cyf, Laser Micromachining Cyf, Qioptiq, Acuity Products Cyf, Fibrespeed, a Kent Periscopes.

Mae Sir y Fflint a Wrecsam yn cael budd o'r gyflogaeth i 6,000 yng ngwaith Airbus ym Mrychdyn, gan fod clwstwr o gwmnïau mewn is-sectorau cysylltiedig yn agos iddo, yn cynnwys Aerotech, Electroimpact UK a Gardner Aerospace yn Sir y Fflint, a chwmnïau fel Tritech Group, Cytec Aerospace Materials a Magellan Aerospace yn Wrecsam.

Mae o leiaf 800 o bobl yn cael eu cyflogi yn Wrecsam i weithgynhyrchu rhannau ac ategion cerbydau modur gan gwmnïau sy'n cynnwys Alunox Exhaust Systems, Applied Components Technology Cyf, Isringhausen GB Cyf a JCB Transmissions. Yn Sir y Fflint, mae cyfanswm o fwy na 700 o weithwyr crefftus wedi'u cyflogi i weithgynhyrchu rhannau ac ategion cerbydau modur a hefyd i weithgynhyrchu cerbydau modur mewn cwmnïau sy'n cynnwys Rhino Products Cyf, TI Automotive Systems Cyf, a Toyota Motor Manufacturing UK.

Mae gwybodaeth o ragolygon ar gyfer Gogledd Cymru yn dangos y bydd newid yng nghyfansoddiad galwedigaethau yn y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch hyd 2024. Rhagwelir cynnydd sylweddol yn y galw am alwedigaethau lefel uwch, yn cynnwys rolau proffesiynol a thechnegol, tra bydd crefftwyr medrus a gweithredwyr prosesau yn gweld mwy o awtomeiddio a mwy o ddefnydd o dechnoleg, fel y bydd angen llai o rolau o'r math hwn.

Fodd bynnag, bydd angen o hyd am amnewid y sgiliau a llafur presennol wrth i bobl adael y sector drwy ymddeol a thrwy ffyrdd eraill. Felly, er bod gostyngiad o tua -16.4% yn cael ei rag-weld yn nifer y gweithredwyr peirianwaith a pheiriannau, er enghraifft, erbyn 2024, bydd angen amnewid hyd at 28% o staff yn y maes gwaith hwn yn ystod yr un cyfnod, sy'n cyfateb i ofyniad am 11.9% mewn galwedigaethau newydd i gydbwyso'r gostyngiad a ragwelir.

| | | | |
|---|---|---|---|
| MAE **+0.4%** mewn galwedigaethau Proffesiynol yn y sector hyd 2024 | MAE **-2.7%** mewn galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cyswllt yn y sector hyd 2024 | MAE **-14.3%** mewn galwedigaethau Crefftau Medrus yn y sector hyd 2024 | MAE **-16.4%** mewn galwedigaethau Gweithredwyr Prosesau, Peirianwaith a Pheiriannau yn y sector hyd 2024 |
| **33%** | **33%** | **30%** | **28%** |

**Y GALW AM AMNEWID GWEITHWYR**

Mae'r galw cyffredinol am amnewid rolau cyflogaeth allweddol yn y sector o hyn tan 2024 yn cynnwys staff amnewid ar gyfer y rheini sy'n gadael y sector. Mae hefyd yn dangos ym mha feysydd y bydd angen y rhan fwyaf o brentisiaethau, lleoliadau gwaith a hyfforddeiaethau yn y sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch yng Ngogledd Cymru er mwyn cwrdd â'r galw am sgiliau yn y sector, drwy ein marchnad lafur breswyl, yn awr ac yn y dyfodol.

Un o'r heriau mwyaf i'r sector hwn o ran y galw am sgiliau yw hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd am swyddi a chyflogaeth yn y dyfodol ymysg pobl ifanc yn gyffredinol – yn enwedig drwy brentisiaethau. Dylid gweld hyn hefyd yn ffordd o annog mwy o fenywod i ddod drwy bynciau STEM i'r sector hwn er mwyn datblygu mwy o amrywiaeth o ran rhywedd a chydraddoldeb gan mai dynion yw'r rhan fwyaf o lawer o'r gweithwyr yn y sector ar hyn o bryd (gan ddilyn yr un egwyddor ag ar gyfer sectorau allweddol Ynni ac Adeiladu).

"Mae Airbus yn ymfalchïo'n fawr yn ei weithlu yma ym Mrychdyn yng Nglannau Dyfrdwy, ac yn gwerthfawrogi'r rhan y mae partneriaid yn ei chwarae mewn parhau i ddatblygu sgiliau. Yn 2016 ym Mrychdyn, roeddem wedi derbyn bron i 100 o brentisiaid mewn rolau crefft, technegol, a graddedig, ac rydym yn bwriadu recriwtio 100+ o brentisiaid ychwanegol mewn gwahanol ddisgyblaethau yn 2017. Mae ymgysylltu â'n cadwynau cyflenwi a'u gweithwyr crefftus ar lefel ranbarthol yn fwyfwy pwysig i ni, ac rydym yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â phartneriaid eraill drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yng Ngogledd Cymru wrth i ni geisio datblygu academi STEM newydd i wella a hyrwyddo'r sgiliau y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol."

**Gavin Jones, Pennaeth Rhaglenni Gyrfaoedd Cynnar - Airbus**



Pe bawn i wedi dilyn gyrfa yn y lluoedd arfog, fyddwn i ddim wedi cael yr un gwobrwyon a chydnabyddiaeth. Nawr rwy'n cael fy nghyfri yn un o'r peirianwyr gorau yn y DU ac Ewrop ac mae hynny'n ganlyniad i'r gefnogaeth gan staff Coleg Cambria, fy asesydd a'm cyflogwr, Electroimpact. Rwy'n edrych ymlaen at gystadlu yn WorldSkills yn Abu Dhabi ym mis Hydref ac mae hyn i gyd yn ganlyniad i'm prentisiaeth a'm profiad yn y coleg.

**Ethan Davies, NVQ Lefel 4 Peirianwaith CNC, Electroimpact**

**Y sector adeiladu yw un o'n sectorau pwysicaf o hyd o ran sgiliau, gan ei fod yn effeithio ar sectorau eraill yng Ngogledd Cymru, ac yn agored iawn i effeithiau oddi wrthynt, wrth i'r cynnyrch o adeiladu dyfu'n barhaus, ar hyn o bryd, o ganlyniad i ehangu'r sector tai preifat a'r sector masnachol. Mae prosiectau blaenllaw diweddar, fel prosiect adeiladu Carchar Berwyn yn Wrecsam, wedi rhoi pwyslais o'r newydd ar gydweithio rhwng darparwyr a chyflogwyr i hyrwyddo'r llwybrau sgiliau a chyflogaeth sydd ar gael o fewn y sector yng Ngogledd Cymru, ac mae hyn wedi bod yn effeithiol iawn.**

Mae'r sector yng Ngogledd Cymru yn un amrywiol iawn, fel y mae mewn rhanbarthau eraill, ac mae'n cwmpasu nifer o sgiliau a chrefftau mewn gwahanol ddisgyblaethau ac arbenigaethau, yn cynnwys: codi adeiladau (preswyl ac amhreswyl); gwasanaethau seilwaith, diwydiannol, peirianneg sifil ac adeiladu; gweithgynhyrchu deunyddiau adeiladu; gweithgareddau adeiladu arbenigol; gwaith gosod brics; gosod sylfeini; gwaith electrodechnegol; gwresogi ac awyru; plymio a gwresogi; ffensio; plastro; gwaith coed a saernïaeth; gosod paenau, gwydro a thoi.

Mae'r rolau a chyfrifoldebau rheng flaen hyn yn cael eu hategu gan swyddogaethau eraill yn y sector sy'n ymwneud â gweinyddu, rheoli prosiectau, caffael, gwaith cyfreithiol, cyllid, tirfesur, marchnata, addysg, ymgysylltu â'r gymuned, ac eraill, sy'n cael eu diystyru'n aml ond sy'n rhan annatod o'r sector adeiladu ehangach yng Ngogledd Cymru a thu hwnt.

MAE ODDEUTU
**20,500**
YN CAEL EU CYFLOGI YN Y SECTOR ADEILADU YNG NGOGLEDD CYMRU

MAE
**3,170**
O UNEDAU BUSNES COFRESTREDIG YN Y SECTOR ADEILADU YNG NGOGLEDD CYMRU

ROEDD
**1,035**
O RAGLENNI PRENTISIAETH ADEILADU YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2016

Ar sail data Stats Cymru ac Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES), gwyddom fod tua 20,500 yn cael eu cyflogi yn y sector hwn (data 2015). Mae hyn yn parhau'r cynnydd a nodwyd yng Nghynllun Sgiliau y flwyddyn ddiwethaf lle dangoswyd bod 16,100 wedi'u cyflogi yn y sector (data 2014), a hynny'n uwch na'r ffigur o 13,800 ar gyfer 2013.

Mae CITB Cymru yn rhag-weld twf mewn cyflogaeth yn y sector yn Rhagolwg y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu ar gyfer 2017. Rhagwelir y bydd cynhyrchiant yn tyfu'n gyflym, yn bennaf oherwydd y twf yn y sector seilwaith, lle mae dwysedd llafur isel, sy'n cynnwys prosiectau mawr fel Wylfa Newydd. Er bod disgwyl y bydd twf blynyddol cyfartalog rhagamcanol o 6.2% mewn cynnyrch yn y pum mlynedd hyd 2021, bydd y ffigur yn uwch yng Ngogledd Cymru o ganlyniad i effaith Wylfa Newydd.

**Yr her o hyd i'r sector yng Ngogledd Cymru yw hybu ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc, yn enwedig menywod, o'r gwahanol gyfleoedd sydd ar gael yn y sector. Bydd hyn yn helpu i newid y ffordd o edrych ar y sector, ac yn delio â bylchau o ran sgiliau technegol ac arbenigol yn y dyfodol.**

O'r chwe sir, yn Sir y Fflint y mae'r nifer mwyaf o fusnesau adeiladu cofrestredig, sef 685 o unedau lleol yn 2015, a Gwynedd yn ail gyda 670. Roedd 545 o unedau lleol yn Wrecsam, 470 yng Nghonwy, a 460 yn Sir Ddinbych. Yn Ynys Môn yr oedd y gyfran leiaf o fusnesau adeiladu, sef 340.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer yr unedau adeiladu lleol rhwng 2013 a 2015 yng Ngwynedd a Sir Ddinbych (cynnydd o 40 yn y ddwy sir). Cafwyd cynnydd o 30 yn nifer yr unedau lleol yn Sir y Fflint rhwng 2013 a 2015, a chynnydd o 25 yn Wrecsam. Yng Nghonwy ac Ynys Môn y cafwyd y twf lleiaf; 10 o unedau adeiladu lleol ychwanegol a gafwyd yng Nghonwy, a dim ond 5 yn Ynys Môn. Fodd bynnag, drwy ddadansoddi cymharol effeithiol, gan ystyried materion sy'n gysylltiedig â dwysedd poblogaeth a sbardunau economaidd, gellir casglu bod 5 busnes newydd yn Ynys Môn yn cyfateb i 25 yn Sir y Fflint ar sail gyfrannol.

BYDD ANGEN CYNNYDD O
**13%**
O LEIAF YN NIFER Y BRICWYR YNG NGOGLEDD CYMRU ERBYN 2022

BYDD ANGEN CYNNYDD O
**12%**
O LEIAF YN NIFER Y PEINTWYR AC ADDURNWYR YNG NGOGLEDD CYMRU ERBYN 2022

BYDD ANGEN CYNNYDD O
**7%**
O LEIAF YN NIFER Y PEIRIANWYR SIFIL YNG NGOGLEDD CYMRU ERBYN 2022

Yn ogystal â'r galw am sgiliau ar gyfer y sector yng Ngogledd Cymru a nodwyd uchod, rhagwelir hefyd y bydd angen recriwtio a hyfforddi gweithwyr ychwanegol i fod yn 'Rheolwyr Prosesau' (+12.16%); 'Gweithredwyr Peirianwaith' (+9.94%); 'Syrfewyr' (+6.34%); 'Crefftau Trydanol a Gosod' (+5.46%); a 'Crefftau Coed' (+4.21%).

Gan ei bod yn bosibl y bydd nifer y gweithwyr adeiladu yn Wylfa Newydd yn cyrraedd uchafbwynt o 8,500-9,000 yn 2023-24, mae'n glir na fyddai'r gweithlu adeiladu presennol yn Ynys Môn, pe baent i gyd yn gadael eu rolau presennol, ond yn gallu llenwi un rhan o bump o'r swyddi a all fod ar gael.

Drwy gydweithio â phartneriaid rhanbarthol ehangach, mae angen i ni ymestyn y cyfleoedd i'r rhanbarth ehangach er mwyn gallu ateb y galwadau, a pharatoi ar gyfer yr effeithiau anochel o ddadleoli gweithwyr oddi wrth gyflogwyr a phrosiectau yn y sector ar draws Gogledd Cymru.

| Y Gweithlu Mwyaf yn Wylfa Newydd ym Mhob Un o Gamau'r Prosiect | |
|---|---|
| Safle'r Orsaf Bŵer (Adeiladu) | 8,050 |
| Cyfleusterau y Tu Allan i'r Safle (Adeiladu) | 45 |
| Yr Orsaf Bŵer (Gweithredu) | 425 |
| Cyfleusterau Campws y Safle (Gweithredu) | 425 |
| Cyfleusterau Parcio a Theithio (Gweithredu) | 20 |
| Cyfleusterau'r Ganolfan Logisteg (Gweithredu) | 35 |
| CYFANSWM | 9,000 |

| Y Gweithlu Mwyaf yn Wylfa Newydd yn ôl y Math o Swydd | |
|---|---|
| Gwasanaethau Safle, Clercol a Diogeledd | 500 |
| Rheoli a Goruchwylio | 1,975 |
| Technegwyr Peirianneg Sifil | 3,050 |
| Technegwyr Mecanyddol a Thrydanol | 2,670 |
| Staff Gweithredu'r Orsaf Bŵer | 425 |
| Gwasanaethau y Tu Allan i'r Safle, Diogeledd a Chlercol | 380 |
| CYFANSWM | 9,000 |

Rhagwelir y bydd galwadau ychwanegol yn y gadwyn gyflenwi yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd, ac felly y bydd angen prentisiaethau ychwanegol mewn crefftau ac is-sectorau perthnasol. Bydd prentisiaid sydd ar Lefelau 2 a 3 ar hyn o bryd yn gallu symud ymlaen i brentisiaethau uwch mewn arbenigaethau penodol i gyd-fynd â'r cyfnod adeiladu hirach sy'n ganlyniad i raddfa a hyd amser y prosiect.

Mae Horizon Nuclear ynghyd â'i bartner cyd-fentro, Menter Newydd, wedi ymrwymo i gydweithio â busnesau lleol a rhanbarthol i helpu i hyrwyddo'r gadwyn gyflenwi ac ateb galwadau'r prosiect am sgiliau, fel y bydd partïon lleol yn gallu paratoi a chydweithio lle bo'n ymarferol, er mwyn elwa o'r cyfleoedd mawr a geir o brosiect o'r maint a graddfa hon.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer adeiladu a gynigir gan Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria drwy gydweithio, ochr yn ochr â CITB, yn rhan allweddol o'r ymateb rhanbarthol i'r galw am gymorth ar gyfer prosiect Wylfa Newydd. Bydd y cyfuniad o arbenigedd a chyfleusterau, gan gynnwys y Ganolfan Adeiladu newydd yn y Bers yn Wrecsam o dan Goleg Cambria, a'r buddsoddi ychwanegol yng nghampws Llangefni gan GLlM i greu canolfannau rhagoriaeth, yn dangos yn glir fod y rhanbarth yn paratoi i ateb galwadau'r dyfodol, drwy hyrwyddo a darparu'r sgiliau sydd eu hangen.

**1,035**
o raglenni prentisiaethau adeiladu yng Ngogledd Cymru yn 2016

**140**
o fenywod yn dilyn cyrsiau adeiladu Addysg Bellach ledled Gogledd Cymru yn 2016

**4,850**
o bobl ifanc yn dilyn cyrsiau adeiladu mewn sefydliadau Addysg Bellach ledled Gogledd Cymru yn 2016

Yn 2015/16 rydym wedi gweld nifer y rhaglenni cysylltiedig ag adeiladu yng Ngogledd Cymru yn codi i 1,035, wedi i gyflogwyr a darparwyr hybu ymwybyddiaeth o gyfleoedd yn y sector. Mae prosiectau blaenllaw fel Carchar Berwyn yn Wrecsam yn batrwm i'r diwydiant yng Ngogledd Cymru sy'n cael cymorth gan gyrff y sector fel CITB Cymru ac ECITB.

Yn ystod 2015/16 yng Ngogledd Cymru, mae 550 o fyfyrwyr yn dilyn prentisiaeth yn y sector hwn ar Lefel 2, mewn meysydd fel adeiladu cyffredinol ac arbenigol; peirianneg sifil; a gwresogi a phlymio. Roedd y 485 o fyfyrwyr ar Lefel 3 yn cael eu hyfforddi yn yr un meysydd, yn ogystal ag adeiladu technegol a phroffesiynol; gwaith electrodechnegol; a gwresogi ac awyru.

Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2015/16 am fyfyrwyr sy'n hanu o Ogledd Cymru sy'n dilyn cwrs cysylltiedig ag adeiladu mewn Addysg Bellach yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Yn 2014/15, roedd 4,790 o fyfyrwyr sy'n hanu o Ogledd Cymru yn dilyn cyrsiau adeiladu, ac roedd y ffigur hwn wedi codi i 4,850 yn 2015/16.

Mae nifer mawr o fusnesau micro a chyflogwyr llai yn y sector hwn yng Ngogledd-orllewin Cymru yn benodol. Ceir 4,700 o gyflogeion yng Ngwynedd, 3,100 yng Nghonwy a 2,000 yn Ynys Môn. Darparwyd 800 o weithgareddau dysgu ar gyfer adeiladu yn 2015/16 yn ddwyieithog (tua 18% o'r ddarpariaeth gyfan).

Mae'r ffaith y bydd cyfleoedd cyflogaeth ar gael yn agos ar gyfer prentisiaid yn y dyfodol mewn prosiectau fel Wylfa Newydd yn allweddol ar gyfer hyrwyddo a chadw sgiliau yng Ngogledd Cymru. Mae ffigurau cymharol am brentisiaid adeiladu ar draws Gogledd Cymru yn dangos, ar gyfer y rheini sy'n hanu o'r chwe sir yn y rhanbarth yn 2015/16, fod 55 yn Ynys Môn (30 ar Lefel 2, a 25 ar Lefel 3); 110 yng Ngwynedd (70 ar Lefel 2, a 40 ar Lefel 3); 65 yng Nghonwy (40 ar Lefel 2, a 25 ar Lefel 3); 55 yn Sir Ddinbych (35 ar Lefel 2, a 20 ar Lefel 3); 80 yn Sir y Fflint (50 ar Lefel 2, a 30 ar Lefel 3); a 100 yn Wrecsam (60 ar Lefel 2, a 40 ar Lefel 3).

Mae nifer o gyflogwyr ar draws Gogledd Cymru yn cefnogi prentisiaethau yn y sector. Mae'r rhain yn amrywio o gwmnïau mawr fel ANWYL lle'r oedd tua 20% o'r gweithlu presennol wedi dechrau drwy brentisio i gwmnïau lleol llai sy'n helpu i hyrwyddo a datblygu sgiliau lleol. Rhai o'r cyflogwyr eraill yn y sector yng Ngogledd Cymru sy'n hyrwyddo a chefnogi prentisiaethau yn y rhanbarth yw:

**Jones Bros / Owens Building & Roofing Cyf / Pro-Build / AK Developments / a Wynne Construction.**

Fodd bynnag, er mwyn i'r sector barhau i ddatblygu yng nghyd-destun gweithlu sy'n heneiddio, dadleoli o ganlyniad i brosiectau graddfa fawr, a cheisio cyfrannu at gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o sicrhau 100,000 o brentisiaethau newydd i bob oed, bydd angen datblygu a dysgu gwersi o'r arferion gorau presennol gyda phartneriaid cyflawni ar lefel leol. Bydd angen mabwysiadu'r arferion gorau o'r gwasanaeth broceru sgiliau a arweiniwyd gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a DWP ar gyfer Carchar Berwyn a helpodd i ddatblygu 100 o brentisiaethau newydd, ac ymestyn a hyrwyddo prosiectau eraill a chyflogwyr llai mewn ardaloedd gwledig.

Yn hydref 2017, bydd Coleg Cambria yn agor ei Ganolfan Beirianneg newydd yn Ffordd y Bers yn Wrecsam a fydd yn cynnwys cyfleusterau newydd i fyfyrwyr ar gyrsiau adeiladu. Mae'r ganolfan newydd yn rhan o waith ailddatblygu gwerth £8.5 miliwn ar y safle a fydd yn cynnwys gwaith adnewyddu ychwanegol ar y gweithdai adeiladu, weldio a moduron presennol.



Datblygiad Ffordd y Bers (Argraff arlunydd)



Canolfan Beirianneg Llangefni (Argraff arlunydd)

**Mae datblygu sgiliau yn lleol yn hanfodol os ydym am wneud y gorau o'r cyfleoedd gwaith sydd yn codi ... Mae'r buddsoddiad ... yn dangos ein ffydd ym mhobl ifanc Gogledd Cymru. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl iddynt hyfforddi mewn amgylchedd o'r radd flaenaf a pharatoi ar gyfer gyrfa gyffrous yn Wylfa Newydd neu un o'r prosiectau mawr ym maes isadeiledd sydd ar y gweill**

**Alun Davies, Gweinidog Y Gymraeg A Dysgu Gydol Oes (15 Rhagfyr 2016)**

Er 2014, mae Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru wedi bod yn ddull costeffeithiol o sicrhau is-gontractwyr i adeiladu ysgolion newydd ac adeiladau cyhoeddus eraill, yn ogystal â dod â manteision i fusnesau is-gontractio lleol a chymunedau. Hyd yn hyn, mae wedi hyrwyddo mwy na 7,800 o oriau o brofiad gwaith, wedi creu 29 o swyddi parhaol newydd i bobl ddi-waith, wedi cynnwys 8,800 o ddisgyblion mewn digwyddiadau, a darparu 30 o leoliadau gwaith ar gyfer rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant mewn partneriaeth â'r Prince's Trust.

Y Gofyniad Recriwtio Blynyddol yng Nghymru yw tua 3,890, sef y gofyniad pumed mwyaf ar sail absoliwt, a'r mwyaf fel cymhareb â sylfaen gyflogaeth 2017 (3.4%). Mae hyn yn fwy o lawer na'r gymhareb o 1.4% ar gyfer y DU. Er bod all-lifiad net uchel o weithwyr adeiladu o Gymru gyfan i rannau eraill o'r DU yn arferol, mae'r rhan fwyaf o'r all-lifiadau yng Ngogledd Cymru yn mynd i Ogledd-orllewin a Chanolbarth Lloegr.

Mewn astudiaeth gan CITB yn 2015, nodwyd bod 88% o'r cyflogwyr adeiladu yng Nghymru yn yr is-sector atgyweirio a chynnal yn gweithio mewn perthynas ag adeiladau modern a rhai traddodiadol (cyn 1919). At hynny, roedd 49% yn rhag-weld cynnydd yn y gwaith ar adeiladau traddodiadol. Er hynny, yn ôl CADW, mae'r ddarpariaeth hyfforddi mewn sgiliau a gwybodaeth ar gyfer adeiladau traddodiadol yn brin iawn.

Fodd bynnag, oherwydd y galw cynyddol am sgiliau ar gyfer nifer o brosiectau adeiladu graddfa fawr yn y 5-10 mlynedd nesaf, ac am fod y farchnad lafur bresennol yn y sector yn heneiddio, wynebir heriau sylweddol wrth amnewid a thyfu sgiliau mewn is-sectorau allweddol ac ar wahanol lefelau o allu ac arbenigedd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae angen cynnydd o **+24.2%** mewn galwedigaethau Proffesiynol yn y sector hyd 2024 | Mae angen cynnydd o **+23.7%** mewn galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cyswllt yn y sector hyd 2024 | Mae angen cynnydd o **+7.4%** mewn galwedigaethau Crefftau Medrus yn y sector hyd 2024 | Mae angen cynnydd o **+3.3%** yn nifer y Gweithredwyr Prosesau, Peirianwaith a Pheiriannau yn y sector hyd 2024 |
| **37%** | **38%** | **34%** | **32%** |

**Y GALW AM AMNEWID GWEITHWYR**

Mae Watkin Jones Group yn neilltuo amser ac adnoddau i hyrwyddo gyrfaoedd mewn adeiladu. Mae cysylltiadau cryf rhyngddo ac ysgolion, colegau a phrifysgolion lleol, fel y mae Rhaglen Ysgoloriaethau Adeiladu Watkin Jones Group yn dangos. Mae'r rhaglen wedi rhedeg ers mwy na 10 mlynedd ar y cyd â Grwp Llandrillo Menai. Mae Mesur Meintiau yn rôl allweddol yn ein busnes ac rydym yn awyddus i'w datblygu o lefel hyfforddeion ymlaen. Fodd bynnag, nid oes cyrsiau penodol ar fesur meintiau yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd: mae hyn yn destun pryder i ni ac yn rhwystr rhag datblygu.

**Corina Lewis – Rheolwr Hyfforddi A Datblygu**



Ar ddechrau'r brentisiaeth, roeddwn i yng nghanolfan hyfforddi'r cwmni am 5 wythnos cyn mynd ar safle. Rwyf newydd gwblhau bloc hyfforddi dau fis ac wedi ennill yr holl dystysgrifau ar gyfer y gwahanol beiriannau. Nawr bydda i'n mynd i weithio ar safleoedd i ennill y profiad sydd ei angen i gwblhau fy fframwaith prentisiaeth. Drwy'r swydd yma, rwyf yn mwynhau cwrdd â phobl newydd, gweithio oddi cartref, dysgu sgiliau newydd, gyrru gwahanol beiriannau ac rwy'n cael cyflog da!

**Conah Astbury – Prentis Gweithredu Peiriannau, Jones Bros.**

**Mae'r sector creadigol a digidol yn sector twf arloesol yng Ngogledd Cymru, ac mae'r Cynllun yn parhau i'w gydnabod felly, gan ei fod hefyd yn cydberthyn i naw sector blaenoriaeth cenedlaethol Llywodraeth Cymru.**

Mae wedi'i gydnabod yn un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yng Ngogledd Cymru. Mae'n creu cyfoeth a swyddi drwy gynhyrchu ac elwa o eiddo deallusol. Mae'n sector sydd wedi'i seilio ar greadigedd, sgil a thalent yr unigolyn.

Rhai o'i is-sectorau yw cyhoeddi, teledu, fideo, ffilm, theatr, radio, hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus, gemau, celfyddydau perfformio a ffotograffiaeth. Mae'r sector yn parhau i ddatblygu'n un o'r sbardunau economaidd-gymdeithasol allweddol yng Ngogledd Cymru, sydd â marchnad lafur â chymwysterau uchel lle mae gan 68% o'r gweithlu o leiaf un cymhwyster ar lefel gradd.

MAE'R SECTOR YN CYNNAL
**10,800**
O SWYDDI YNG NGOGLEDD CYMRU

**£711**
YW'R ENILLION WYTHNOSOL CYFARTALOG YN Y SECTOR YNG NGHYMRU

MAE
**1,160**
O FENTRAU'N WEITHREDOL YN Y SECTOR YNG NGOGLEDD CYMRU

Mae dogfen y Weledigaeth ar gyfer Twf yng Ngogledd Cymru (Gorffennaf 2016) yn nodi wrth gyfeirio at yr elfen Ddigidol yn y sector amrywiol hwn:

**Bydd y sector digidol amrywiol, yn cynnwys cyfrifiannu perfformiad uchel, dadansoddi data, y cyfryngau, cyfrifiant gwybyddol ac ati, yn allweddol i'r rhanbarth, gan greu sectorau arloesol newydd a chreu ffyrdd newydd o ymgymryd â busnes**

Mae nifer mawr o gwmnïau yng Ngogledd Cymru eisoes yn cefnogi'r economi ddigidol ehangach sydd ag arbenigedd ym maes deallusrwydd digidol sy'n amrywio o feddalwedd ac arloesi diwydiannol i ddatblygu gemau fideo. Mae ein hagosrwydd i glystyrau o fusnesau sy'n datblygu gemau fideo yn Lerpwl, a'r cynnydd o ran cysylltiadau gweithio a rhannu sgiliau ar draws y ffin, a'n hagosrwydd hefyd i gwmnïau cyfryngau arloesol ehangach yn Salford, yn enghraifft ychwanegol o'r cysylltedd trawsffiniol y mae'r diwydiant yng Ngogledd Cymru yn parhau i'w ddatblygu a'i hyrwyddo fel rhan o'n harlwy sgiliau rhyngwladol sydd ar gael i farchnadoedd a chyflogwyr ar lefel fyd-eang.

Mae'r sector Creadigol a Digidol yng Ngogledd Cymru yn cynhyrchu unigolion talentog â sgiliau trosglwyddadwy sydd o fantais i ddiwydiannau creadigol yn ogystal â'r sectorau mwy sefydledig sydd wedi'u disgrifio mewn rhannau eraill o'r Cynllun hwn.

Mae Sir y Fflint a Gwynedd ymysg y 5 lleoliad mwyaf poblogaidd ar gyfer diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae'n sicr bod hyn yn ganlyniad yn rhannol i waith ein sefydliadau addysg bellach ac uwch yn y rhanbarth, a busnesau angori allweddol sy'n creu canolfannau rhagoriaeth yn Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug a Galeri yng Nghaernarfon.

Yr her i Ogledd Cymru, mewn marchnad sy'n cystadlu fwyfwy am yr elfennau sy'n rhan o'r sector Creadigol a Digidol, yw datblygu a hyrwyddo sgiliau a chreadigedd yr holl bobl ifanc yn y rhanbarth, yn ogystal ag adnabod a chefnogi'r rhai mwyaf galluog a thalentog. Dylent gael eu hyrwyddo wedyn gan gyflogwyr a busnesau sy'n rhan o gadwyn gyflenwi'r sector a fydd yn helpu i sicrhau bod y clwstwr hwn yn parhau i dyfu yn y rhanbarth.

Fel y mae Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei chyhoeddiad 'Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru' yn Rhagfyr 2016:

> Mae ffonau symudol, gwegamerâu a meddalwedd gyfrifiadurol wedi democrateiddio'r dull o gynhyrchu. Erbyn hyn, gall pawb fod yn awdur, yn gerddor neu'n rhywun sy'n gwneud ffilmiau. Mae technoleg yn llai o ran maint, yn rhatach, yn fwy pwerus ac yn fwy personol; mae'n newid y modd yr ydym yn defnyddio cynnwys, ac yn cynnig ffyrdd newydd o gyfnewid safbwyntiau, syniadau a chynnwys

Yr her i Ogledd Cymru yw cefnogi, hyrwyddo, a chadw'r sgiliau mewn marchnad lafur sy'n fwyfwy deheuig wrth fabwysiadu technolegau yn y sector eang hwn, yn awr ac yn y dyfodol, gan hyrwyddo cysylltedd rhwng ei elfennau er mwyn cyfrannu'n fwy helaeth at ddatblygu sgiliau ar gyfer pob agwedd ar y sector Creadigol a Digidol yng Ngogledd Cymru.

ROEDD
**1,535**
O BOBL YN ASTUDIO YM MAES CELFYDDYDAU CREADIGOL A DYLUNIO, A CHYFRIFIADUREG MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2015-16

ROEDD
**4,480**
O BOBL YN ASTUDIO YM MAES CELFYDDYDAU CREADIGOL A DYLUNIO, Y CYFRYNGAU A PHERFFORMIO MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2015-16

ROEDD
**20**
O BRENTISIAETHAU AR LEFELAU 3 A 4 YN Y SECTOR HWN YN 2015-16

Bydd yn hanfodol darparu cymorth ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n diwallu anghenion busnesau a'r economi ddigidol a chreadigol yng Ngogledd Cymru er mwyn sicrhau eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol. Bydd y defnydd o genhadon dros y sector o fewn y rhanbarth a thu hwnt yn hanfodol i hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu sgiliau a dilyn llwybrau gyrfa.

Yng Ngogledd Cymru, ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, roedd 1,535 o fyfyrwyr yn 2015-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau gradd ac ôl-raddedig ar gyrsiau Celfyddydau Creadigol a Dylunio a Chyfrifiadureg. Roedd y nifer hwn yn fwy nag yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Yr her yw pennu cyfleoedd cyflogaeth i harneisio'r sgiliau hyn a'u cadw a'u datblygu gyda chyflogwyr yn y sector ledled y rhanbarth.

Mae'r sector yng Ngogledd Cymru mewn lle delfrydol, yn strategol ac yn ddaearyddol, i ateb y galwadau cynyddol drwy ddatblygu'r clwstwr a'r rhwydwaith creadigol ymhellach ar sail prosiectau blaenllaw, a chynyddu cymwyseddau a datblygiadau o ran sgiliau yn yr is-sectorau priodol.

Mae'r rhwydwaith C6 blaenorol wedi datblygu ymhellach erbyn hyn i gwrdd ag anghenion cynyddol y sector drwy droi'n "Gogledd Creadigol / Creative North Wales". Hwn yw'r corff a fydd yn ceisio cynrychioli barn y sector creadigol a digidol ar draws y rhanbarth. Mae'n bwriadu cyflawni hyn drwy lobïo llunwyr polisi; hyrwyddo cydweithio drwy rannu arferion da; a phennu anghenion y rhanbarth am sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y sector(au).

O fewn y rhanbarth, rydym eisoes yn gweld tystiolaeth glir bod cyflogwyr yn dechrau clystyru mewn rhai o'n safleoedd strategol ar draws Gogledd Cymru. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddatblygu a hyrwyddo sgiliau gan y bydd y rhain yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau cyflogaeth a chydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y sector digidol, mewn lleoliadau fel Parc Gwyddoniaeth Menai, Parc Technoleg Wrecsam a Pharc Busnes Llanelwy.

Fel rhanbarth blaengar â sector Creadigol a Digidol sy'n tyfu, mae'n hollbwysig bod ein darpariaeth sgiliau'n cynnwys hyfforddiant sylfaenol da ar dechnolegau galluogi hanfodol Diwydiant 4.0. Digideiddio diwydiant yw'r cam cyntaf mewn newid technolegol sy'n digwydd yn yr holl sectorau, rhai Preifat a Chyhoeddus, sy'n ymwneud â data mawr, rhith-wirionedd, y Rhyngrwyd Pethau, ac argraffu 3D, ymysg pethau eraill. Mae cynaliadwyedd ein cymunedau'n dibynnu ar gystadleurwydd ein busnesau, felly rhaid bod yn barod am Ddiwydiant 4.0.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae angen cynnydd o **+14.7%** mewn galwedigaethau Proffesiynol yn y sector hyd 2024 | Mae angen cynnydd o **+12.9%** mewn galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cyswllt yn y sector hyd 2024 | Rhagwelir gostyngiad o **-0.1%** mewn galwedigaethau Crefftau Medrus yn y sector hyd 2024 | Mae angen cynnydd o **+9.2%** mewn galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid yn y sector hyd 2024 |
| **35%** | **34%** | **35%** | **24%** |

**Y GALW AM AMNEWID GWEITHWYR**

Mae'n dda gweld bod y sector Creadigol a Digidol yn cael ei gydnabod yn sector twf yng Ngogledd Cymru. Gan fod cymaint o amrywiaeth a sgiliau yn cael eu cynnig gan bob rhan o'r sector, rydym yn gweld mwy o gysylltu a rhannu sgiliau ar draws llwyfannau – ac ar draws sectorau mewn llawer achos. Yn Theatr Clwyd, y theatr gynhyrchu fwyaf yng Nghymru, rydym yn edrych ymlaen at gydweithio â phartneriaid ym meysydd addysg a chyflogaeth i hyrwyddo ymhellach y sgiliau sydd eu hangen yn y sector yng Ngogledd Cymru, fel y gallwn gadw a datblygu talentau yn y rhanbarth, a dod yn batrwm o arfer da wrth ehangu ein harlwy a'n cyfleusterau yn y sector creadigol a digidol a hefyd ym meysydd twristiaeth, adeiladu a gweithgynhyrchu, sydd i gyd yn berthnasol i'n gwaith pob dydd.

**Liam Evans-Ford, Cyfarwyddwr Gweithredol – Theatr Clwyd**



Gan fy mod yn byw yng Ngogledd Cymru, roedd yn bwysig i mi allu parhau i ddatblygu fy sgiliau ar gyfer fy musnes ochr yn ochr â'm haddysg. Drwy astudio ar gyfer gradd ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam, roeddwn yn gallu cael cefnogaeth gan y diwydiant a mynediad ato, ac rwyf wedi elwa o hyn fel cyd-berchennog  Follow Films. Rydyn ni'n gweithio ar sail yr egwyddor o ddefnyddio sgiliau priodol i wneud ffilmiau didwyll, heb fod yn hunanol, gan ganolbwyntio ar y storïau y mae ein nifer mawr gleientiaid yn gofyn i ni eu hadrodd.

**Graham Cooper, Cyd-Sylfaenydd – Follow Films**

**Gan fod y boblogaeth yn byw'n hyn, a bod angen ymateb i nifer cynyddol o wahanol alwadau, gan gynnwys anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol a chymhleth, mae angen cymorth ychwanegol i hyrwyddo sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau yng ngweithlu Gogledd Cymru a dull mwy agored a chynhwysol o weithredu ar sail ranbarthol.**

Er bod y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru yn cynnwys nifer o brif is-sectorau, gan gynnwys Iechyd a ddarperir drwy'r GIG a staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC); Gofal Cymdeithasol a ddarperir drwy awdurdodau lleol; a gwasanaethau iechyd preifat sy'n amrywio o wasanaethau deintyddol ac optegol i gymorth meithrin i blant, mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried i gyd, yn yr un modd â meysydd cyflogaeth aml-ddisgyblaeth mawr eraill, yn un sector - "Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol".
Er hynny, nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnwys y sector ar ei ben ei hun yn un o'n naw sector blaenoriaeth economaidd.
Felly, rydym ni yng Ngogledd Cymru yn cydnabod y cyfraniad parhaus a geir gan y sector cyfunol mawr hwn o'i weld (fel y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud) fel un sector, yn ein heconomi sylfaen a hefyd, yn bwysig, fel un o'r meysydd twf ychwanegol a bennwyd ar gyfer Gogledd Cymru.

MAE
**44,000**
O BOBL WEDI'U CYFLOGI YN Y SECTOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGOGLEDD CYMRU

MAE
**2,090**
O UNEDAU BUSNES COFRESTREDIG YN Y SECTOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGOGLEDD CYMRU

BYDD ANGEN LLENWI
**500**
O SWYDDI NEWYDD BOB BLWYDDYN YN Y 10 MLYNEDD NESAF YN Y SECTOR HWN YNG NGOGLEDD CYMRU

Er nad oes cyfeiriad uniongyrchol at y sector yn y Weledigaeth ar gyfer Twf y rhanbarth hyd 2035, mae cydrannau'r sector wedi'u nodi'n glir o ran y ffordd y mae eu sgiliau'n gallu cyfrannu; a ddylai'r sector ymgysylltu'n fwy eang yn y rhanbarth; datblygiadau cadarnhaol allweddol mewn technoleg iechyd; llesiant; delio ag effeithiau diweithdra a thlodi; a helpu partneriaid arweiniol i uwchsgilio'r farchnad lafur ehangach – yn awr ac yn y dyfodol.

**"Bellach ni allwn weld iechyd a gofal cymdeithasol yn sefydliadau neu wasanaethau ar wahân. Mae angen datblygu dull system gyfan"**

**Maria Bell, Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru**

Bydd newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru drwy symud y pwyslais o ofal eilaidd i ofal ac atal sylfaenol a chymunedol, yn ogystal â chamau i ddarparu gofal rheolaidd mor agos â phosibl i gymunedau, yn creu her o ran ateb yr anghenion a'r gofynion am sgiliau a ragwelir. Mae'n bosibl y bydd newidiadau o ganlyniad i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn dwysáu'r anawsterau o ran recriwtio a hyfforddi yn y sector.

Felly, mae'r gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru yn mynd drwy gyfnod o newid sylweddol lle bydd yn ofynnol iddo ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol. Bydd y newidiadau'n fwy amlwg mewn rhai meysydd na'i gilydd.

Bydd y pwyslais cynyddol ar atal, amddiffyn, ymyrryd, gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd, a rhagor o alinio rhwng gwasanaethau a'r angen am fwy o dryloywder yn galw am roi sylw a phwyslais o'r newydd ar sgiliau a hyfforddi'r gweithlu yn y sector.

**Mae pob rhan o'r sector yng Ngogledd Cymru yn parhau i wynebu anawsterau sylweddol o ran sgiliau a staffio, ynghyd â'r ansicrwydd oherwydd Brexit, a'r ddibyniaeth helaeth ar staff sydd wedi ymfudo o wledydd yr UE i ymgymryd â rolau nad yw'r farchnad lafur breswyl ranbarthol yn gallu eu cyflawni**

O ganlyniad i brinder staff a sgiliau yn y sector iechyd yng Ngogledd Cymru, mae gwariant BIPBC ar staff locwm wedi dyblu rhwng 2012 a 2016 (6.3% o'r holl gostau llafur ar staff nad ydynt yn barhaol). Mae hyn yn amlygu eto yr anawsterau o ran recriwtio a chadw gweithwyr yn y rhan hon o'r sector.

Mae angen datblygu a hyrwyddo llwybrau gyrfa mwy pwrpasol ar draws y sector, er mwyn denu a chadw mwy o weithwyr, gyda mwy o fuddsoddi mewn datblygiadau ar gyfer hyfforddiant a sgiliau a chamau i hybu mynediad i'r sector drwy brentisiaethau a chyrsiau addysg bellach ac uwch.

Oherwydd y gofynion newydd i gofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, bydd angen cymhwyster ar lefel dderbyniol ar y rheini a gyflogir yn y sector ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid oes cyllid ychwanegol i ddarparu ar gyfer ennill cymwysterau, felly mae perygl o golli rhagor o staff o'r sector.

Yn gyffredinol, mae'r sector yn ceisio gweithio mewn ffordd fwy cynhwysol yn y rhanbarth, er mwyn datblygu gwasanaethau priodol sy'n cael eu harwain gan y galw. Bydd hyn yn creu her o ran pennu pa sgiliau a mathau o weithwyr y bydd eu hangen yn y dyfodol. Y gobaith yw y bydd hyn yn cryfhau'r cysylltiad â darparwyr yn y Trydydd Sector yn ogystal â sefydliadau cymunedol er mwyn hyrwyddo sgiliau ar sail yr angen a'r galw yng Ngogledd Cymru.

Yng Ngogledd Cymru, mae angen ystyried ffyrdd o ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a chymwyseddau er mwyn darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Mae hyn yn cynnwys llwybrau fel y set newydd o gymwysterau ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, a Gwaith Chwarae.

Mae'r angen am ddull rhanbarthol o Arwain a Rheoli yn y sector wedi'i gydnabod eisoes gan weithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn bwysig iawn yn y sector gofal preswyl preifat lle bydd yn hanfodol cynllunio ar gyfer olyniaeth drwy ddatblygu, cefnogi a chadw rheolwyr yn y dyfodol, gan fod 13% o'r rheolwyr sy'n arwain yn y sector ar hyn o bryd heb gymhwyster priodol.

| | | |
|---|---|---|
| ROEDD **11,140** O WEITHGAREDDAU DYSGU YM MEYSYDD IECHYD, GWASANAETHAU CYHOEDDUS A GOFAL MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG BELLACH YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2016 | ROEDD **3,335** O BRENTISIAETHAU GOFAL IECHYD A GWASANAETHAU CYHOEDDUS A GOFAL YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2016 | ROEDD **2,000** O FYFYRWYR MEWN SEFYDLIADAU ADDYSG UWCH YNG NGOGLEDD CYMRU YN ASTUDIO PYNCIAU CYSYLLTIEDIG Â MEDDYGAETH, IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YN 2016 |

Mae prentisiaethau'n cael eu hyrwyddo fwyfwy yn y sector er mwyn hybu, cadw a datblygu sgiliau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhai o'r cyflogwyr yn yr is-sector gofal preswyl preifat yn y rhanbarth sydd wedi hyrwyddo a derbyn prentisiaethau yw Pendine Park, Michael Phillips Care Agency Cyf, Fairways Care Cyf, Cymorth Llaw Cyf, a Carelink Homecare Services Cyf.

Roedd mwyafrif y staff mewn gofal cymdeithasol yn fenywod; darparwyr gofal a gomisiynwyd yng Ngwynedd oedd â'r ganran fwyaf o staff gwrywaidd o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, sef 23%, ac yn Sir y Fflint yr oedd y ganran leiaf, sef 10%. Ar lefel y rhanbarth a'r awdurdodau lleol, a ledled Cymru, roedd mwyafrif y staff sy'n gweithio i ddarparwyr gofal a gomisiynwyd yn 41-50 oed, a'r grŵp oedran ail fwyaf oedd 31-40 oed.
Mae'r sector yn bwriadu datblygu dull o helpu'r gweithlu sy'n heneiddio i gadw'n wastad â datblygiadau a thechnoleg mewn arferion a mentrau yn y sector. Y gobaith yw y bydd hyn yn helpu i gadw staff ac yn ategu strategaeth ehangach ar gyfer denu a recriwtio staff yn y rhanbarth.

Mae adroddiad y Bartneriaeth Genedlaethol ar gyfer Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol am 2015 a gomisiynwyd gan y sector a Llywodraeth Cymru, yn tynnu sylw at y ffaith mai'r ffigur cyfartalog am ddarparwyr gofal sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol yn Gymraeg yng Ngogledd Cymru oedd 24%. Fodd bynnag, y ffigur ar gyfer hyn yn Ynys Môn yw 61%, a 56% yng Ngwynedd, ond yng Nghonwy, nid yw ond yn 16%, a 11% yn Sir Ddinbych.

Mae ffigurau rhagamcanol am statws cyflogaeth yn y sector yng Ngogledd Cymru yn dangos y bydd nifer y dynion a gyflogir ym maes Iechyd a Gwaith Cymdeithasol yn cynyddu ychydig o 8,000 yn 2004 i 10,000 yn 2024. Bydd cyflogaeth ymysg menywod yn cynyddu'n sylweddol o 31,000 i 40,000.

Mae'r dadansoddiad o'r ffigurau rhagamcanol am alwedigaethau yn dangos y bydd nifer y dynion mewn galwedigaethau iechyd proffesiynol yng Ngogledd Cymru yn codi i 4,000 yn 2024, tra bydd y gyflogaeth ymysg menywod yn codi o 7,000 i 12,000. Bydd y gyflogaeth ymysg dynion a menywod mewn galwedigaethau proffesiynol perthynol i iechyd a gofal cymdeithasol yn dyblu i 2,000 a 4,000 yn y drefn honno erbyn 2024. Mewn galwedigaethau gwasanaethau gofal personol, bydd y gyflogaeth ymysg dynion yn codi i 2,000 yn 2024, a'r gyflogaeth ymysg menywod yn cynyddu o 13,000 i 17,000.

| Mae angen cynnydd o **+10.2%** mewn galwedigaethau Proffesiynol yn y sector hyd 2024 | Mae angen cynnydd o **+9.0%** mewn galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cyswllt yn y sector hyd 2024 | Rhagwelir gostyngiad o **-37.7%** mewn galwedigaethau Crefftau Medrus yn y sector hyd 2024 | Mae angen cynnydd o **+7.6%** mewn Gwasanaethau Gofal a Gwasanaethau Eraill yn y sector hyd 2024 |
|---|---|---|---|
| **40%** | **37%** | **39%** | **43%** |

**Y GALW AM AMNEWID GWEITHWYR**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

"Mae BIPBC wedi penodi tiwtor Cymraeg teithiol newydd ar gyfer y rhanbarth i helpu staff yn yr holl feysydd proffesiynol. Mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwy cyfforddus wrth gyfathrebu yn Gymraeg, yn enwedig mewn lleoliad gofal iechyd, a thrwy ddarparu cymorth i staff di-Gymraeg i ddysgu a datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg, ceir mwy o allu yn y bwrdd iechyd i sicrhau lefel gwasanaeth well."

Eleri Hughes-Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

I thought an apprenticeship would be mundane but I was surprised



Roeddwn yn meddwl y byddai prentisiaeth yn ddiflas ond ces i fy synnu bod cymaint o waith ymarferol ynglŷn â hi. Roeddwn yn ddihyder iawn ar y dechrau ond, wrth weithio gyda chyd-brentisiaid, mae'r hyfforddiant a gefais a'r cymorth gan fy asesydd wedi fy helpu i gyrraedd Lefel 2 a'm hysbrydoli i fynd ymlaen i Lefel 3. Prentisiaeth oedd y dewis iawn yn sicr.

Ioan Wright - Prentis Gofal a Iechyd Cymdeithasol, Gwasanaethau Gofal Pendine Park

**Mae'r sector twristiaeth a lletygarwch yn parhau'n gyfrannwr allweddol i economi Gogledd Cymru, gan gynhyrchu bron £2 biliwn y flwyddyn. Gyda'r rhagolygon am fwy o fuddsoddi ac ehangu a'r newid o arlwy tymhorol yn unig i un sy'n cynnig nifer o atyniadau parhaol sy'n agored drwy'r flwyddyn, mae wedi'i bennu'n un o'r sectorau twf ar gyfer cyflogaeth a sgiliau ledled y rhanbarth yn y Cynllun hwn. Mae hyn wedi'i gadarnhau ymhellach drwy enwi Gogledd Cymru yn bedwerydd gorau gan lyfr tywys Lonely Planet yn ei adolygiad blynyddol o gyrchfannau gwyliau.**

Lansiwyd Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Twristiaeth yn 2013 ar gyfer y cyfnod hyd at 2020, a chafodd ei diweddaru a'i hadolygu yn Rhagfyr 2016.

Mewn perthynas â Gogledd Cymru, mae'n nodi y bydd yn parhau i fuddsoddi ochr yn ochr â phartneriaid lleol a rhanbarthol mewn cynlluniau ac atyniadau sy'n cydweddu â'n hapêl fwyaf i ymwelwyr, gan gyfeirio at y buddsoddiadau diweddar mewn atyniadau fel Surf Snowdonia a Zipworld.

**Mae atyniadau mawr i ymwelwyr fel y rhain yn hybu niferoedd yr ymwelwyr â'r rhanbarth a hefyd yn sbarduno ac yn creu galwadau ychwanegol mewn meysydd cysylltiedig fel trafnidiaeth, llety, arlwyo a busnesau eraill sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Mae pob un o'r meysydd hyn yn galw am gyfuniad o sgiliau unigryw a sgiliau trosglwyddadwy**

MAE
**40,000**
O BOBL WEDI'U CYFLOGI YN Y SECTOR YNG NGOGLEDD CYMRU

MAE
**3,340**
O FUSNESAU TWRISTIAETH YN GWEITHREDU AR HYN O BRYD YNG NGOGLEDD CYMRU

MAE
**40%**
O'R AROSIADAU DROS NOS YNG NGHYMRU YN DIGWYDD YNG NGOGLEDD CYMRU

Roedd dadansoddiadau mewn Cynlluniau Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol blaenorol ar gyfer Gogledd Cymru wedi nodi y byddai twf o 3,000 yn nifer y swyddi newydd yn y sector dros y 5-10 mlynedd nesaf ar sail y rhagdybiaeth y byddai datblygiadau'n parhau'n unol â'r amcangyfrifon presennol. Mae'r ffigur hwn wedi aros yn gyson gan fod disgwyl y bydd twf yn y sector hwn yng Ngogledd Cymru yn fwy nag yng ngweddill Cymru, ac y bydd angen llenwi swyddi gwag oherwydd y posibilrwydd y bydd gwladolion o wledydd yr UE sy'n gweithio ar hyn o bryd yng Ngogledd Cymru yn dychwelyd i Ewrop ar ôl Brexit.




**Mae Croeso Cymru wedi lansio ymgyrch hysbysebu werth £5 miliwn o'r enw Blwyddyn y Chwedlau sydd wedi'i ffilmio yn Llyn Llydaw yn Eryri. Mae'r ymgyrch yn cyflwyno'r her #FindYourEpic i ymwelwyr â Gogledd Cymru ac ardaloedd eraill, ac mae'n cael ei chefnogi gan sgiliau'r diwydiant ledled y rhanbarth.**

Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'r sector fel cyswllt hanfodol rhwng diwylliant a'r economi, ac i ddangos maint y croeso yr ydym yn ei roi i ymwelwyr. Mae hefyd yn dangos y gefnogaeth yr ydym am ei gweld ar lefel ranbarthol i hyrwyddo'r rheini sy'n gweithio yn y sector sy'n siarad Cymraeg.

Gan y bydd datblygu pellach ar atyniadau angori ledled Cymru yn effeithio ar dwf mewn meysydd cysylltiedig eraill fel bwyd ac arlwyo, bydd hyn hefyd yn creu heriau. Un her o'r fath yw prinder pen-cogyddion yng Ngogledd Cymru, gan fod cyflogwyr ac atyniadau allweddol yn awr yn gorfod cymryd ymlaen pen-cogyddion o asiantaethau am gost uwch o lawer er mwyn llenwi swyddi gwag, gan ei bod yn ymddangos nad oes digon o unigolion â chymwysterau priodol yn preswylio yn y rhanbarth.

Yn ôl Arwyn Watkins, Llywydd Cymdeithas Goginiol Cymru, wrth siarad yn Uwchgynhadledd Twristiaeth Croeso Cymru ym Mai 2017, mae pen-cogyddion yn wirioneddol brin. Credir mai "prinder pobl" yw hwn, nid prinder sgiliau, gan fod ein colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn darparu hyfforddiant a chyrsiau o ansawdd da i niferoedd sylweddol o fyfyrwyr, ond mae'r gallu i gadw unigolion cymwysedig yn y rhanbarth yn her ac mae eu nifer yn isel o hyd.

| Roedd **800** o brentisiaethau Hamdden, Twristiaeth a Lletygarwch yng Ngogledd Cymru yn 2016 | Roedd **4,490** o weithgareddau dysgu mewn sefydliadau addysg bellach ym meysydd twristiaeth, hamdden ac arlwyo yng Ngogledd Cymru yn 2015-16 | Roedd **290** o brentisiaethau Hamdden, Twristiaeth a Lletygarwch yng Ngogledd Cymru yn 2016 |
|---|---|---|

Yn 2015 roedd y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol wedi cydweithio â phartneriaid yn y sector i lunio adroddiad a oedd yn edrych yn benodol ar sgiliau yn y sector twristiaeth awyr agored yng Ngogledd Cymru. Un o'r prif faterion a godwyd oedd diffyg prentisiaethau uwch ar gyfer y sector.

Roedd yr adroddiad wedi nodi hefyd nad oedd dull cydgysylltiedig o ymdrin â chymwysterau twristiaeth awyr agored ac nad oedd eu cynnwys yn paratoi ymgeiswyr yn drwyadl ar gyfer rolau yn y gweithle gan nad oeddent yn cynnwys tystysgrifau arbenigol i arweinwyr na'r profiadau sydd eu hangen.

Mae ffigurau rhagamcanol ar gyfer y diwydiant twristiaeth a lletygarwch yng Ngogledd Cymru, ac ar statws cyflogaeth yn benodol, yn dangos y bydd cyflogaeth ymysg dynion yn yr is-sector llety a bwyd ym maes twristiaeth wedi codi o 10,000 yn 2004 i 12,000 yn 2024. Bydd cyflogaeth ymysg menywod wedi gostwng o 15,000 yn 2004 i 14,000 yn 2024, gan ddilyn y duedd genedlaethol.

Rhagwelir y bydd cyflogaeth ymysg menywod mewn galwedigaethau gweinyddu a gwasanaethau elfennol ym maes llety a bwyd yn gostwng o 9,000 yn 2004 i 7,000 yn 2024, tra bydd y gyflogaeth ymysg dynion yn codi o 4,000 i 5,000. Ni fydd newid mewn cyflogaeth ymysg dynion a menywod mewn crefftau medrus eraill sy'n gysylltiedig, sy'n cynnwys crefftau paratoi bwyd a lletygarwch. Er enghraifft, ni fydd newid yng nghyswllt arlwyo a rheolwyr bar, gan y bydd eu niferoedd yn aros ar 3,000 a 1,000 yn y drefn honno. Mewn cyferbyniad â hynny, ledled Cymru, rhagwelir y bydd cyflogaeth ymysg dynion mewn crefftau medrus cysylltiedig eraill yn cynyddu yn ystod yr un cyfnod.

Yng Ngogledd Cymru, rydym hefyd yn disgwyl gweld galw parhaus am grefftau medrus (sy'n cynnwys crefftau paratoi bwyd a lletygarwch) yn ogystal â chynnydd mewn galwedigaethau gwerthu a gwasanaethau cwsmeriaid, yn ogystal â sgiliau lefel uwch, yn enwedig yng nghyswllt rheoli pobl a phrosiectau.

Mae ein darparwyr addysg yn cydweithio'n fwyfwy agos â chyflogwyr yn y sector i ddenu a datblygu sgiliau priodol, drwy ddigwyddiadau fel yr un a gynhaliwyd ar y cyd yn ddiweddar rhwng Grŵp Llandrillo Menai a bwyty a man cyfarfod newydd Dylan's yn Llandudno i recriwtio hyd at 60 i swyddi aml-sgil ac aml-ddisgyblaeth.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy gydweithio â'r diwydiant, yn bwriadu rhoi rhagor o gymorth ar gyfer sgiliau yn y sector drwy gyflwyno Gwobr Dwristiaeth Genedlaethol am ragoriaeth mewn gwasanaethau cwsmeriaid yn 2017/18, yn ogystal ag ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys elfen gwasanaethau cwsmeriaid ym Magloriaeth Cymru.

| **+25.9%** | **+31.2%** | **+10.2%** | **+25.6%** |
|---|---|---|---|
| Increase needed in Professional occupations within the sector up to 2024 | Increase needed in Associate Prof. and Technical occupations within sector up to 2024 | Increase needed in Sales & Customer Service occupations within the sector up to 2024 | Increase needed in Leisure & Other Services within the sector up to 2024 |
| **44%** | **42%** | **39%** | **49%** |

**Y GALW AM AMNEWID GWEITHWYR**

Mae'r ffigurau uchod yn dangos canran y gweithwyr newydd y bydd angen eu recriwtio o hyn tan 2024 ym mhob un o'r meysydd allweddol yn yr is-sectorau Llety a Gwasanaethau Bwyd yn y sector Twristiaeth a Lletygarwch yng Ngogledd Cymru. Mae'r cynnydd o 31.2% sydd ei angen mewn galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt yn cynnwys pen-cogyddion, fel y nodwyd uchod.

Fodd bynnag, yn achos staff hamdden cyffredinol rheng flaen (yn cynnwys staff bar a gweini, glanhawyr, etc), ar ôl cynnwys y rheini a fydd yn gadael y sector o ganlyniad i Brexit, rhai sy'n ymadael yn dymhorol, gweithwyr sy'n ymddeol, a rhai sy'n gadael y sector, bydd y galw am amnewid gweithwyr yn 50% bron erbyn 2024.

northwalestourism twristiaethgogleddcymru

Mae'r diwydiant Twristiaeth a Lletygarwch yng Ngogledd Cymru yn parhau i dyfu'n gyflym ac, ar ôl yr hwb a gawsom gan argymhelliad Lonely Planet, rydym yn disgwyl gweld cynnydd pellach yn nifer yr ymwelwyr drwy'r flwyddyn. Fodd bynnag, mae anawsterau o hyd o ran sgiliau a recriwtio sy'n gysylltiedig â llwybrau gyrfa cynaliadwy, yn enwedig ymysg pobl leol. Bydd ein dibyniaeth gynyddol ar wladolion o wledydd tramor i lenwi swyddi gwag na allwn recriwtio ar eu cyfer yn lleol, yn dod yn fwy o ystyriaeth wrth i'r negodiadau ar Brexit gael effaith, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn dwysáu anawsterau o ran recriwtio i rolau allweddol fel y gwelir ar hyn o bryd yng nghyswllt pen-cogyddion ledled Gogledd Cymru.

Jim Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr – Twristiaeth Gogledd Cymru



Mae fy mhenderfyniad i ddilyn prentisiaeth drwy Goleg Cambria wedi newid fy mywyd. Rwyf wedi dysgu sgil sydd wedi fy helpu i wireddu fy mreuddwyd a datblygu fy sgiliau iaith Saesneg. Mae gen i swydd amser llawn ac rwy'n ddigon hyderus i ddweud fy mod yn ben-cogydd da. Roedd fy asesydd wedi fy annog i fynd mor bell ag y gallwn – credwch ynoch chi'n hun – ac rwyf wedi cyrraedd y nod.

Tomasz Franc, Coginio Proffesiynol Lefel 3, Aramark

**Mae'r sector bwyd a diod yn parhau'n gyfrannwr allweddol i economi Gogledd Cymru, a chan fod y rhagolygon yn dangos y ceir rhagor o ehangu a buddsoddi ynddo, mae wedi'i bennu'n un o'r sectorau twf ar gyfer cyflogaeth a sgiliau yn y rhanbarth.**

Mae'r diwydiant yng Ngogledd Cymru yn cynnwys amrywiaeth o yrfaoedd sy'n cwmpasu elfennau mewn amaethyddiaeth, gwerthu, marchnata, cynhyrchu, logisteg, a datblygu cynhyrchion. Ymhlith y nifer mawr o rolau sy'n gysylltiedig y mae gwyddonwyr a thechnolegwyr bwyd, rheolwyr cynhyrchu, pen-cogyddion, datblygu cynhyrchion, cigyddion, pobwyr, maethegwyr, rheolwyr cadwyn gyflenwi, ac ymchwilwyr. (Mae Tasty Careers Wales, sy'n derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru, wedi mapio'r holl rolau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant, a gellir gweld y rhain ar wefan tastycareerswales.org.uk)

RHAGWELIR Y BYDD
**1,000**
O SWYDDI NEWYDD YN CAEL EU CREU YN Y SECTOR YNG NGOGLEDD CYMRU YN Y 5 MLYNEDD NESAF

ROEDD
**275**
O BRENTISIAETHAU AR GAEL YN Y SECTOR YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2016

MAE
**70%**
O'R BUSNESAU YN Y SECTOR HWN YNG NGOGLEDD CYMRU YN CYFLOGI LLAI NA 10 O BOBL

Mae oddeutu 27% o'r gweithlu amaethyddol yng Nghymru yn preswylio yng Ngogledd Cymru. Gwelwyd dirywiad graddol yn y diwydiant amaethyddol yn y rhanbarth dros y 5 mlynedd diwethaf. Er hynny, cafwyd mwy o arallgyfeirio yn y diwydiant hwn i weithgareddau twristiaeth, a chynhyrchu bwyd a diod arbenigol, ac mae hyn yn hybu adfywiad yn y sector traddodiadol hwn.

Mae astudiaethau diweddar o'r sector yn dangos bod hyder busnesau yng Ngogledd Cymru wedi gostwng, fel y gwnaeth yng ngweddill Cymru, a nodwyd ffigur o 53.1% ar gyfer 2016 o'i gymharu â 58.6% yn 2015. Rhai o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn yw cynnydd yng nghostau cynhyrchwyr o ganlyniad i gyflwyno'r Cyflog Byw, costau tanwydd uwch ac ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit sy'n effeithio ar allforion a gweithwyr o wledydd tramor yn y sector. Er hynny, mae'r sector yn tyfu o ran trosiant a nifer yr unedau busnes, er bod cyflogaeth wedi gostwng ychydig. Mae hyn yn awgrymu bod cynhyrchiant y sector yn cynyddu'n gyffredinol. Mae cynhyrchiant y sector bwyd a diod yng Nghymru yn well nag yn y DU, gan fod ei Werth Ychwanegol Gros y pen yn £64,800 a'i gymharu â £54,700 ar lefel y DU.

**Mae'n hanfodol bod pobl ifanc yn cael eu denu i'r diwydiant i ddilyn llwybrau gyrfa cynaliadwy er mwyn i'r sector barhau i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ateb galwadau newydd am ddatblygu cynhyrchion drwy dechnoleg**

Cyhoeddwyd y bydd Canolfan Technoleg Bwyd Grŵp Llandrillo Menai yn bartner allweddol mewn menter werth £21 miliwn gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn rhoi hwb mawr i ddiwydiant bwyd ac economi Gogledd Cymru. Bydd prosiect HELIX yn hybu ymchwil academaidd i'r diwydiant cynhyrchu bwyd rhyngwladol, tueddiadau a rheoli gwastraff er mwyn helpu gweithgynhyrchwyr ledled Cymru i ddod yn fwy cynhyrchiol ac effeithlon.

Bydd y ganolfan yng Ngogledd Cymru yn ymuno â Chanolfan Bwyd Cymru yng Ngheredigion a Chanolfan Diwydiant Bwyd Zero2Five ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, o dan adain Arloesi Bwyd Cymru, i weithredu'r cynllun.

Rhai o'r cyflogwyr yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn cymorth gan GLIM ar gyfer eu rhaglenni prentisiaethau yn y sector yw Glanbia Cheese, 2 Sisters Food Group, Ready Foods, a Harlech Food Service Cyf. Yn 2016, roedd Coleg Cambria wedi cynnig 10 cwrs arbenigol drwy ddysgu hyblyg ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y diwydiannau arlwyo a/neu weithgynhyrchu bwyd, yn ogystal â 5 cwrs arlwyo a pharatoi bwyd ar gyfer myfyrwyr amser llawn.

Mae Coleg Cambria yn cefnogi nifer mawr a chynyddol o gyflogwyr yn y sector hwn yng Ngogledd Cymru ac ar draws y ffin drwy ddarpariaeth sy'n cynnwys datblygu staff ar Lefelau 2 a 3, drwy gyrsiau pwrpasol sy'n arwain at dystysgrifau, diplomâu, a phrentisiaethau. Yn 2016 roedd wedi cefnogi 14 o brentisiaethau gyda Village Bakery, ac mae wedi gwneud hynny ar gyfer o leiaf 9 ychwanegol hyd yn hyn yn 2017. Mae hyn yn ychwanegol at y cymorth arall y mae'n ei gynnig drwy brentisiaethau i gyflogwyr fel Wholebake, a chyrsiau byr teilwredig ar gyfer cyflogwyr ar draws y sector sy'n canolbwyntio ar brosesau sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu bwyd a'r dechnoleg gysylltiedig.

Yng Ngogledd Cymru, roedd 275 o brentisiaethau ar gael yn y diwydiant gweithgynhyrchu bwyd a diod yn 2016. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain ar Lefel Sylfaen ond cafwyd cynnydd yn nifer y prentisiaethau Lefel 3 ac uwch ac mae'r ffigur hwn yn uwch o lawer na'r ffigur o 145 ar gyfer 2012.

| Mae angen cynnydd o **+24.4%** mewn galwedigaethau Proffesiynol yn y sector hyd 2024 | Mae angen cynnydd o **+8.8%** mewn galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cyswllt yn y sector hyd 2024 | Rhagwelir gostyngiad o **-5.3%** mewn galwedigaethau Crefftau Medrus yn y sector hyd 2024 | Rhagwelir gostyngiad o **-5.2%** mewn galwedigaethau Gweithredwyr Prosesau, Peirianwaith a Pheiriannau yn y sector hyd 2024 |
|---|---|---|---|
| **42%** | **38%** | **39%** | **33%** |

## Y GALW AM AMNEWID GWEITHWYR

Brighter foods

Rydym yn gweld twf hynod yn y sector gweithgynhyrchu bwyd yng Nghymru ac rydym yn falch iawn o gymryd rhan yn hynny. Mae Brighter Foods wedi ennill gwobrwyon am ei gynnyrch ac wedi tyfu'n gyflym ers ei sefydlu yn 2014. Mae eisoes wedi cyrraedd trosiant o fwy na £13 miliwn yn ei ail flwyddyn ac mae'n cyflogi mwy na 180 yn ardal Tywyn ar arfordir Gogledd Cymru. Yn ddiweddar, mae'r cwmni wedi ennill statws Buddsoddwyr mewn Pobl ac mae'n lansio cynllun prentisiaethau eleni i ddatblygu rhai o'r sgiliau y bydd eu hangen arno ar gyfer y dyfodol. Rydym yn cynllunio ar gyfer twf a buddsoddi sylweddol dros y 12 mis nesaf wrth weld mwy o ddiddordeb (ymysg cwsmeriaid newydd a phresennol) yn y syniadau rydym yn eu datblygu ac yn y sgiliau ar gyfer cynhyrchu ein bariau byrbryd blasus.

**Robin Williams, Prif Weithredwr, Brighter Foods**



Ar ôl ennill NVQ Lefel 3 yn sgiliau'r diwydiant pobi, a bod yn ddigon ffodus i ennill y wobr am ddysgwr y flwyddyn mewn Dysgu Seiliedig ar Weithgynhyrchu Bwyd yng Ngholeg Cambria ar gyfer 2016, rwyf wedi cael fy nyrchafu'n oruchwyliwr yma yn y popty ac wedi ymuno â'r rhaglen 12 mis ar gyfer datblygu rheolwyr. Mae Village Bakery yn lle braf i weithio ac mae'n nhw'n gofalu amdanoch chi'n dda. Maen nhw'n rhoi pwys mawr ar ddatblygiad personol ac ym mis Ionawr aethon nhw â mi a nifer o rai eraill i St Vith yng Ngwlad Belg i ddysgu am does sur ac i wneud ychydig o bobi crefftwrol. Roedd yn brofiad gwych. Rwy'n edrych ymlaen at ddyfodol disglair yn Village Bakery ac rwyf am symud ymlaen a dod yn rheolwr ryw ddydd.

**Tom Jackson, Prentis – Village Bakery, Wrecsam**

**Nodwyd yn glir yn nogfen y Weledigaeth ar gyfer Twf yng Ngogledd Cymru ba sectorau fydd yn helpu i sbarduno'r economi a sgiliau yn y rhanbarth yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol yn un sy'n adlewyrchu'r dyhead yn y rhanbarth am sgiliau lefel uwch ac am ddatblygu cyflogaeth a llwybrau gyrfa cynaliadwy.**

Ceir cystadlu cryf yn y sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol, ond mae'n elwa o gronfa o bobl gymwysedig a chrefftus iawn y mae angen eu cynorthwyo drwy wella seilwaith a chadwynau cyflenwi lle maent ar waith.

Gan ei fod yn agos i nifer mawr o wasanaethau a chyflogwyr presennol yn y sector hwn ar draws y ffin (fel y rhai ym Mharc Busnes Caer), yng Ngogledd-ddwyrain Cymru y ceir y gyfran fwyaf o fusnesau yn y sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol yn y rhanbarth ar hyn o bryd.

Mae tua 6,100 o unedau lleol yn Sir y Fflint, a 6,000 yn Wrecsam. Ceir tua 4,000 o unedau lleol yng Ngwynedd ac, er mai yn Ynys Môn y mae'r nifer lleiaf o fusnesau, sef 1,400, mae hyn yn gymharol uchel yng nghyd-destun demograffeg economaidd-gymdeithasol.

Mae hwn yn sector twf eisoes ledled Gogledd Cymru. Gwelsom y cynnydd mwyaf mewn ardaloedd fel Wrecsam, lle mae nifer yr unedau busnes wedi codi ychydig mwy na 900 yn y blynyddoedd diwethaf, a hefyd yn Sir Ddinbych lle gwelsom gynnydd tebyg o ychydig mwy nag 800. Mae nifer yr unedau lleol yn y sector yn Ynys Môn hefyd wedi cynyddu 200.

**615**
O BRENTISIAETHAU BUSNES A GWEINYDDU YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2016

**100**
O BRENTISIAETHAU CYFRIFYDDU YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2016

**15**
O BRENTISIAETHAU GWASANAETHAU ARIANNOL YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2016

Er bod nifer y prentisiaethau busnes a gweinyddu wedi gostwng yn gyffredinol o 720 yn 2014-15 i 615 yn 2015-16, gwelsom gynnydd mawr o 45 i 105 yn y galw am brentisiaethau uwch mewn busnes a gweinyddu, sy'n cyd-fynd â'r galw cynyddol gan gyflogwyr yn y sector am sgiliau lefel uwch – sydd wedi'i hybu gan agosrwydd Gogledd Cymru i gwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol mawr yn y sector hwn yn yr ardal drawsffiniol o gwmpas Parc Busnes Caer, Lerpwl a Manceinion.

Wrth droi Cyllid Cymru yn Fanc Datblygu Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn cael ei leoli yng Ngogledd Cymru, yng nghyffiniau Wrecsam. Bydd y prosiect hwn yn dod â 50 o swyddi newydd sy'n talu'n dda ac yn galw am sgiliau lefel uchel. Bydd y Banc yn gyfrifol am fuddsoddi hyd at £1 biliwn mewn busnesau dros y pum mlynedd nesaf.

**Trwy leoli'r banc yn y Gogledd, bydd yn y lle delfrydol i wneud y gorau o'r cyfleoedd anferth sy'n gysylltiedig â thwf y sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol bob ochr i'r ffin**

**Ken Skates, Ysgrifennydd Y Cabinet Dros Yr Economi a'r Seilwaith**

Mae Prif Weithredwr Cyllid Cymru, Giles Thorley, wedi nodi iddo weld awydd mawr am fuddsoddi yn y rhanbarth yn y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hyn yn arwydd da ar gyfer y sector hwn, ac economi Gogledd Cymru yn gyffredinol. Rhagwelir twf ychwanegol ac, ar ôl lleoli'r Banc yng nghyffiniau Wrecsam, mae'n bosibl y bydd yn ystyried recriwtio gweithwyr ychwanegol i ateb galwadau, a sicrhau presenoldeb cryf ym mhob rhanbarth wrth iddo gynyddu ei gymorth i fusnesau bach a chanolig eu maint, gan gynnwys gwell mynediad at gyllid, gwasanaethau cymorth a chyngor i reolwyr.

Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod Cyllid Cymru wedi buddsoddi £7.7 miliwn yn uniongyrchol yng Ngogledd Cymru yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gan sicrhau trosoledd o £19 miliwn o'r sector preifat gan fuddsoddwyr eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â phanel y sector i ddatblygu a gweithredu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer y sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol yng Nghymru, er mwyn gwireddu ei weledigaeth:

**Ein nod yw gwneud Cymru y rhan fwyaf cystadleuol o'r DU o ran Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol y tu allan i Lundain erbyn 2021.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod 4 amcan allweddol ar gyfer hyrwyddo sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol sy'n gynaliadwy a chystadleuol ar lefel fyd-eang:
1. Cynyddu cyflogaeth yn y Sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol
2. Cynyddu Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol
3. Creu amgylchedd ar gyfer twf
4. Codi proffil rhyngwladol Cymru a denu buddsoddiad

Dau gwmni sefydledig sydd eisoes yng Ngogledd Cymru ac yn arwain y sector yw AVOX a Moneypenny, y ddau ohonynt yn Wrecsam. Er 2010, mae sylfaen gweithwyr AVOX yn Wrecsam wedi cynyddu o 140 i bron 600, er bod pryderon ar y dechrau a fyddai sgiliau ar gael i ateb y galw. Bydd lle ym mhencadlys newydd Moneypenny, sy'n werth £15 miliwn, i 500 o staff ychwanegol yn y blynyddoedd nesaf wrth iddo geisio dyblu ei sylfaen gleientiaid bresennol.

BYDD ARBENIGEDD MEWN **TECHNOLEG** YN FFACTOR LLWYDDIANT HANFODOL AR GYFER TWF Y SECTOR YNG NGOGLEDD CYMRU

BYDD ANGEN CYNYDDOL AM SGILIAU **DIGIDOL** YMHLITH STAFF O OGLEDD CYMRU A GYFLOGIR YN Y SECTOR

DYLID CYFEIRIO'N GYNYDDOL AT BYNCIAU **STEM** MEWN PERTHYNAS Â'R SECTOR HWN YNG NGHWRICWLWM YSGOLION Y RHANBARTH

Mae adroddiad 'TheCityUK's' a gyhoeddwyd yn 2016 ar "UK financial and related professional services (FRPS): meeting the challenges and delivering opportunities" yn tynnu sylw at nifer o feysydd gweithredu sydd yr un mor berthnasol i Ogledd Cymru ag i ranbarthau eraill lle mae'r sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol yn tyfu.

Un maes allweddol y mae'n tynnu sylw ato sy'n berthnasol i'r rhanbarth hwn yw adeiladu sgiliau a denu talentau. Mae'n nodi bod angen i gyflogwyr ffurfio partneriaethau ag ysgolion a phrifysgolion i adeiladu'r genhedlaeth nesaf o sgiliau technegol. Mae angen arbenigedd mewn technoleg i hybu arloesedd yn holl gydrannau'r sector er mwyn sicrhau bod ei bersonél yn parhau'n gystadleuol. Mae angen mwy o ddealltwriaeth ym maes addysg o anghenion y sector hwn, ac mae angen hefyd i'r sector ymateb drwy gynnig rhagor o gymhellion drwy brentisiaethau a lleoliadau gwaith. Bydd hyn yn mynd law yn llaw â phwyslais cynyddol yn y cwricwlwm ysgolion ar sgiliau STEM a sgiliau digidol, gan fod modd trosglwyddo'r rhain i bob agwedd ar waith y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.

Wrth i'r sector dyfu ac ymestyn ei gyrhaeddiad ar hyd coridor yr A55 i Ogledd-orllewin Cymru, byddwn yn gweld marchnad swyddi fwyfwy grymusol, lle bydd ffactorau ychwanegol i gyflogau'n sbarduno gweithwyr y presennol a'r dyfodol yn y clwstwr gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.

Mae'r sector hwn yn ceisio gwneud defnydd cynyddol o weithio yn y cartref a gweithio hyblyg er mwyn denu a chadw staff. Yn yr un modd â sefydliadau rhanbarthol fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'n hyrwyddo cydbwysedd bywyd a gwaith ymysg gweithwyr proffesiynol a gweithwyr â sgiliau lefel uwch. Mae'r manteision o fyw a gweithio yng Ngogledd Cymru yn cael eu hyrwyddo fwyfwy i ymateb i alwadau am sgiliau, ac mae darpar staff yn gweld yr elfennau hyn, ynghyd â diwylliant y sefydliad, yn gymhelliad i ymgeisio am rolau newydd.

Nid yw effaith BREXIT ar y sector wedi'i werthuso eto, yn enwedig o posibilrwydd o grebachu mewn ymateb iddo gan rai o'r cyflogwyr mwyaf yn y sector yn yr ardaloedd trawsffiniol, neu'r posibilrwydd a ragwelir gan rai y bydd yn cynnig cyfleoedd newydd ar ôl dileu cyfyngiadau neu reoliadau blaenorol. Gan fod mwyafrif y busnesau yn y sector hwn yng Ngogledd Cymru yn fusnesau bach a chanolig a busnesau micro, bydd yn hanfodol broceru'r lefel briodol o gymorth ar gyfer sgiliau i ateb eu galwadau cyfnewidiol mewn hinsawdd ansicr.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae angen cynnydd o **+21.7%** mewn galwedigaethau Proffesiynol yn y sector hyd 2024 | Mae angen cynnydd o **+19.6%** mewn galwedigaethau Proffesiynol a Thechnegol Cyswllt yn y sector hyd 2024 | Rhagwelir gostyngiad o **+8%** mewn galwedigaethau Crefftau Medrus yn y sector hyd 2024 | Rhagwelir gostyngiad o **+6.1%** yn nifer y Gweithredwyr Prosesau, Peirianwaith a Pheiriannau yn y sector hyd 2024 |
| **40%** | **36%** | **34%** | **37%** |

**Y GALW AM AMNEWID GWEITHWYR**

Mae twf y sector Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol yn parhau yng Ngogledd Cymru a'r ardal drawsffiniol, ac rydym ni yn Moneypenny yn ymfalchïo yn y sgiliau rydym yn eu datblygu a'u meithrin yn ein tîm. Gan fod cyflogwyr bellach yn cael gwybodaeth ac yn gwneud ymholiadau wrth fynd drwy ffonau clyfar, llechi a dyfeisiau eraill, byddwn ni ac eraill yn y sector yn gorfod sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion a disgwyliadau cynyddol ein cleientiaid, ac yn cynnal a datblygu gwasanaeth a gwybodaeth ragorol i gwsmeriaid drwy ddilyniant a hyfforddiant sgiliau parhaus gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol priodol.

**Moneypenny, Wrecsam**



Mae'r radd BA (Anrhydedd) a gefais mewn Rheoli Busnes wedi rhoi gwell dealltwriaeth i mi o'r ffordd y mae busnesau'n gweithio, y gwahanol sectorau mewn busnes, a sut i gyfathrebu'n effeithiol. Roedd wedi rhoi syniad gwell i mi o'r yrfa roeddwn am ei dilyn ar ôl gorffen yn y brifysgol. Roedd astudio ym Mhrifysgol Glyndwr Wrecsam yn rhoi hyblygrwydd i mi gadw fy swydd ran-amser, yn ogystal â bod yn agos i'm cartref. Mae'r Radd Rheoli Busnes yn cynnig nifer mawr o lwybrau a rhagolygon gyrfa gwahanol. Mae'r swydd rwyf ynddi ar hyn o bryd yn ymwneud â cheisiadau ariannol, gwasanaethau cwsmeriaid, a gwybodaeth ariannol ryngwladol.

**Hannah Gainfort, Graddedig, Prifysgol Glyndwr Wrecsam**

Mae'r Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru yn amlinellu rôl y gweithlu crefftus iawn yn glir, a'r angen i gyfleoedd cyflogaeth fod ar gael ar bob lefel.

**Rhaid i ni sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion yn y rhanbarth yn meddu ar y sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen a sicrhau bod yr ardal yn darparu cynnig cyflogaeth deniadol i ddenu a chadw gweithwyr, yn enwedig y rheini sydd â sgiliau lefel uchel… Ymdrinnir â diweithdra drwy ddarparu rhaglenni integredig a chydlynol a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn – gan roi'r hyder a'r gefnogaeth iddynt allu mynd i mewn i'r farchnad lafur**


Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru, Gorff 2016

Er mwyn hyrwyddo ein cyflenwad o sgiliau yn y dyfodol ym marchnad lafur Gogledd Cymru ym mhob un o'r sectorau allweddol a sectorau twf, rhaid parhau i weithredu'n gyson ac yn gydlynol ar lefel ranbarthol drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, sydd hefyd yn hyrwyddo lleoliadau gwaith o ansawdd da, sy'n orfodol ar gyfer pob cymhwyster technegol, ac yn eu trefnu drwy gydweithio â phartneriaid.

Drwy ddarparu llwybrau clir a dilys at gyflogaeth grefftus yn y rhanbarth, bydd yn cynnig cyfleoedd pellach i'n pobl ifanc ddysgu'r sgiliau a fydd yn eu galluogi i gael swyddi mwy sicr am well cyflog, gan ein bod yn debygol o weld mwy byth o symudedd o ran sgiliau a chyflogaeth yn y cyflenwad o lafur yng Ngogledd Cymru yn y 5-10 mlynedd nesaf.

Bydd sgiliau digidol yn dod yn fwy amlwg byth fel nodwedd drawsbynciol, gan effeithio ar brosesau a chynhyrchiant mewn cyflogaeth ac mewn addysg, gan gwmpasu codio a chyfryngau cymdeithasol, a chymorth ar-lein i hyrwyddo dysgu a gweithio yn y cartref.


## NIFER Y BOBL ECONOMAIDD WEITHGAR SY'N PRESWYLIO YNG NGOGLEDD CYMRU AC MEWN ARDALOEDD TRAWSFFINIOL 2016




**FFYNHONNELL:**
**ONS (Annual Population Survey, 2016)**

Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys y rheini sydd mewn cyflogaeth ar hyn o bryd, yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig, yn ogystal â'r rheini sydd wedi'u cofrestru'n ddi-waith ar hyn o bryd ond yn chwilio am waith. Mae mwyafrif y rhai economaidd weithgar yn gyflogeion, a'u niferoedd yn amrywio o 63,100 yn Sir y Fflint a 58,100 yn Wrecsam, 42,700 yng Nghonwy a 34,500 yn Sir Ddinbych, i 24,300 yn Ynys Môn a 42,800 yng Ngwynedd.

## CANRAN Y BOBL ECONOMAIDD WEITHGAR SY'N HUNANGYFLOGEDIG YNG NGOGLEDD CYMRU AC MEWN ARDALOEDD TRAWSFFINIOL 2016




**FFYNHONNELL:**
ONS (Annual Population Survey, 2016)

Er mai yng Ngwynedd yr oedd y ganran fwyaf (16.1%) a'r nifer mwyaf o entrepreneuriaid sydd wedi'u dynodi'n hunangyflogedig (13,700), mae dwysedd y boblogaeth mewn ardaloedd eraill yn dangos tuedd gynyddol at entrepreneuriaeth yng Ngogledd Cymru. Er mai'r ganran o 7.4% yn Sir y Fflint oedd y lleiaf o'r chwe sir yng Ngogledd Cymru, mae hyn yn cyfateb i 8,400 o bobl oherwydd dwysedd y boblogaeth. Gellir cymharu hyn â sir gyfagos Sir Ddinbych lle mae'r ganran o 12.4% yn cyfateb i 7,700 o bobl.


ROEDD
**51,100**
O BOBL O OEDRAN GWEITHIO YN HUNANGYFLOGEDIG YN 2016

ROEDD
**98,100**
O BOBL O OEDRAN GWEITHIO YN ECONOMAIDD ANWEITHGAR YN 2016

ROEDD
**36,400**
O AELWYDYDD HEB WAITH Â PHRESWYLWYR O OEDRAN GWEITHIO YN 2016

Roedd y gyfradd diweithdra yn y rhan fwyaf o Ogledd Cymru a'r ardaloedd trawsffiniol wedi gostwng yn ystod dau chwarter olaf 2016. Yr eithriadau oedd Ynys Môn a Gwynedd lle gwelwyd cynnydd bach yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, roedd y gyfradd gyffredinol ar gyfer chwe sir Gogledd Cymru wedi parhau i ostwng o 15,400 yn 2015 i 13,900 yn 2016.

## CANRAN Y BOBL ECONOMAIDD WEITHGAR A OEDD YN DDI-WAITH YNG NGOGLEDD CYMRU AC MEWN ARDALOEDD TRAWSFFINIOL 2016





**FFYNHONNELL:**
**ONS (Annual Population Survey, 2016)**

Mae cynlluniau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau'r trydydd sector, yr undebau llafur, a darparwyr hyfforddiant y sector preifat i gyd yn hanfodol i helpu'r rheini sydd y tu allan i'r farchnad lafur ar hyn o bryd, neu sydd mewn perygl o golli eu lle ynddi, i uwchsgilio a chodi eu huchelgais a gwella symudedd eu sgiliau. Mae angen penodol gan bobl economaidd anweithgar dros 25 oed am fentrau ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i ddelio â nifer o rwystrau i gyflogaeth sydd yn aml yn gymhleth. Bydd prosiectau rhanbarthol fel OPUS i rai dros 25 oed ac ADTRAC i rai 16-24 blwydd oed, yn hanfodol i ddelio â nifer o'r materion hyn, a chefnogi unigolion sydd â sgiliau priodol a'u cyfeirio at gyfleoedd cyflogaeth.

## TÂL BLYNYDDOL GROS CYFARTALOG POBL SY'N BYW AC YN GWEITHIO YNG NGOGLEDD CYMRU AC MEWN ARDALOEDD TRAWSFFINIOL 2016

**FFYNHONNELL:**
**ONS (Annual PopulationSurvey, 2016)**




Wrth gymharu chwe sir Gogledd Cymru, gwelwn amrywiad o £6,699 rhwng y cyflog blynyddol cyfartalog uchaf (Sir y Fflint) a'r isaf (Gwynedd). Mae'r amrywiant hwn i'w weld hefyd wrth ddadansoddi'r tâl gros yr awr yn y rhanbarth, gan fod y ffigur ar gyfer Gwynedd yn £10.82, a'r ffigur ar gyfer Sir y Fflint yn £14.31. Mae hyn yn ganlyniad i'r gwahaniaeth sylweddol rhwng y cyflogwyr a'r diwydiannau a geir yn y ddwy sir, ac yn dangos yr heriau i godi lefelau sgiliau a chyflogau yn rhan orllewinol y rhanbarth, i ddod â nhw'n nes at y rheini yn rhan ddwyreiniol y rhanbarth.

| ROEDD **121,000** O BOBL O OEDRAN GWEITHIO MEWN 'ROLAU UWCH-REOLWYR, PROFFESIYNOL, CYSWLLT A THECHNEGOL' | ROEDD **76,200** O BOBL O OEDRAN GWEITHIO MEWN 'ROLAU CREFFTAU MEDRUS A GWEINYDDOL AC YSGRIFENYDDOL' | ROEDD **62,300** O BOBL O OEDRAN GWEITHIO MEWN 'ROLAU GWEITHWYR PROSESAU, PEIRIANWAITH A PHEIRIANNAU AC ELFENNOL' |
|---|---|---|


Y ganran ar gyfer y rheini sy'n preswylio yng Nghonwy sydd mewn swyddi 'Uwch-reolwyr, proffesiynol, cyswllt a thechnegol' yw 40.6%, wedyn Sir Ddinbych lle mae 39.3% a Wrecsam lle mae 39%. Y ffigur ar gyfer Gwynedd yw 38.5%, 36.7% ar gyfer Sir y Fflint, a 36.1% ar gyfer Ynys Môn.

Ceir y ganran fwyaf o breswylwyr sydd mewn swyddi 'crefftau medrus a gweinyddol', sef 26.1%, yn Sir y Fflint a'r ail fwyaf yn Ynys Môn lle mae 25.6%. Y ffigur ar gyfer Sir Ddinbych yw 23.9% a 23.7% ar gyfer Gwynedd a Chonwy. Y ganran yn Wrecsam yw 21.6%. Fodd bynnag, o ran y niferoedd o bobl sydd dan sylw, ceir 14,100 yn Wrecsam sydd yn ail i Sir y Fflint lle mae 18,700.

O ran y rolau 'Gofal, Hamdden, Gwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid', y gellir cyfrif llawer ohonynt yn rhan o'r 'Economi Sylfaen' yng Ngogledd Cymru, ceir canran o 20.1% ymysg preswylwyr Sir Ddinbych, a 19.3% wedyn yn Ynys Môn a Wrecsam. Y ganran yng Nghonwy yw 19.2%, 17.3% yng Ngwynedd a 14.4% yn Sir y Fflint. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi'r cyflenwad o ran niferoedd gwirioneddol, gwelir mai yn Wrecsam y mae'r nifer mwyaf, sef 12,600, ac wedyn Sir y Fflint lle mae 10,300. Mae 9,900 yng Nghonwy a 9,800 yng Ngwynedd.


Er mai yn Sir Ddinbych y mae'r ganran fwyaf o'r gweithlu preswyl yn y sector hwn, mae'n ail leiaf o ran gwir niferoedd, sef 8,500, a'r lleiaf yw Ynys Môn lle mae 5,800.

## CANRAN Y BOBL Â CHYMHWYSTER NVQ4+ SY'N BYW AC YN GWEITHIO YNG NGOGLEDD CYMRU AC MEWN ARDALOEDD TRAWSFFINIOL 2016




**FFYNHONNELL:**
ONS (Annual Population Survey, 2016)

## CANRAN Y BOBL SYDD HEB GYMHWYSTER SY'N BYW AC YN GWEITHIO YNG NGOGLEDD CYMRU AC MEWN ARDALOEDD TRAWSFFINIOL 2016




**FFYNHONNELL:**
**ONS (Annual Population Survey, 2016)**


Yn 2016, roedd tua 17,290 o fyfyrwyr yn ein sefydliadau addysg uwch ym Mangor a Wrecsam. Nid yw hyn yn cynnwys y myfyrwyr hynny sy'n preswylio yng Ngogledd Cymru sy'n astudio ar gyfer cymhwyster addysg uwch yn y Brifysgol Agored, neu gyda'r ddau ddarparwr Addysg Bellach.

Mae nifer mawr o fyfyrwyr mewn ardaloedd gwledig yng Ngogledd Cymru yn astudio'n rhan-amser drwy ddysgu o bell gyda'r Brifysgol Agored. Mae'r dull hwn o ddysgu cyfunol sy'n seiliedig ar dechnoleg yn arloesol ac yn arwain y farchnad ac yn trechu rhwystrau daearyddol rhag dysgu.

Yn ogystal â Phrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, mae Prifysgol Caer yn agos iawn ac mae cysylltiadau'n tyfu rhwng y sefydliadau hyn ar hyd coridor yr A55 yng Ngogledd Cymru. Ceir partneriaethau cryf hefyd â phrifysgolion eraill, a'r pennaf o'r rhain yw Aberystwyth, Abertawe a Chaerdydd.

Mae'r gallu i gadw sgiliau lefel uwch ac unigolion cymwysedig yn parhau'n her allweddol i'r rhanbarth a'i gyflogwyr. Mae cysylltiadau cryf rhwng yr holl sefydliadau addysg bellach ac uwch a chyflogwyr, ac mae angen hyrwyddo'r rhain a manteisio arnynt ymhellach er mwyn cadw mwy o'n graddedigion, yn enwedig y rheini sy'n hanu o Ogledd Cymru.

## CYFANSWM Y MYFYRWYR ADDYSG UWCH YN ÔL DARPARWR A LEFEL/DULL ASTUDIO YN 2016




**FFYNHONNELL:**
**HESA (Students in Higher Education)**

Mae dadansoddiad o ddata am dueddiadau dros y pedair blynedd diwethaf, a gynhaliwyd ar y cyd gan y tair prifysgol a phartneriaid trawsffiniol, yn dangos y byddai tua 80% o'r graddedigion sy'n hanu o'r rhanbarth a'r ardaloedd trawsffiniol yn y tri sefydliad yn dewis aros yn y rhanbarth i weithio.

Yn achos y graddedigion o'r tair prifysgol sy'n hanu o'r tu allan i Ogledd Cymru a'r ardaloedd trawsffiniol, y ffigur yw dim ond 23%. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn er 2012, ac yn dangos newid yn y gydnabyddiaeth i'r cyfleoedd economaidd a chyflogaeth sydd ar gael, a bod y rhanbarth yn cadw mwy o sgiliau lefel uwch.

Mae dadansoddiad gan y tair prifysgol o'r cyfnod o bedair blynedd rhwng 2012 a 2016 yn dangos bod 61% o raddedigion o'r tair prifysgol wedi cael cyflogaeth yn un o'r sectorau allweddol a sectorau twf a nodwyd, ac roedd y ffigur hwn yn gyson gan mwyaf yn ystod y cyfnod hwn.

**Roedd 61% o'r graddedigion a gyflogwyd wedi cael gwaith mewn sector allweddol neu sector twf**

O'r 61% o raddedigion a gafodd gyflogaeth mewn sector allweddol neu sector twf, roedd 47.7% wedi cael swyddi'n gysylltiedig â 'Gwyddorau Bywyd, Iechyd a Gofal'; 28.7% wedi cael swyddi'n gysylltiedig â 'Manwerthu, Twristiaeth a Lletygarwch'; ac 8.9% wedi cael swyddi'n gysylltiedig â'r sector 'Ariannol a Phroffesiynol'.

Mae'n bwysig nodi bod 39% o raddedigion o sefydliadau yng Ngogledd Cymru ac mewn ardaloedd trawsffiniol wedi cael cyflogaeth mewn sectorau sy'n cael eu cysylltu fel arfer â'r 'Economi Sylfaen', sy'n cynnwys o leiaf 173,000 o'r gweithlu yng Ngogledd Cymru.

ROEDD
**28,165**
O'R MYFYRWYR YM MHRIFYSGOLION BANGOR, GLYNDŴR WRECSAM A CHAER YN 2016 YN HANU O'R DU

ROEDD
**1,180**
O'R MYFYRWYR YM MHRIFYSGOLION BANGOR, GLYNDŴR WRECSAM A CHAER YN 2016 YN HANU O WLEDYDD ERAILL YR UE

ROEDD
**2,860**
O'R MYFYRWYR YM MHRIFYSGOLION BANGOR, GLYNDŴR WRECSAM A CHAER YN 2016 YN HANU O WLEDYDD Y TU ALLAN I'R UE

## GRADDAU CYNTAF YNG NGOGLEDD CYMRU YN ÔL DARPARIAETH AMSER LLAWN 2016

| PRIFYSGOL BANGOR | |
|---|---|
| Gwyddorau biolegol | 2,286 |
| Pynciau perthynol i feddygaeth | 872 |
| Astudiaethau busnes a gweinyddol | 653 |
| Gwyddorau ffisegol | 550 |
| Ieithoedd | 516 |
| Astudiaethau cymdeithasol | 504 |
| Addysg | 421 |
| Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol | 355 |
| Celfyddydau creadigol a dylunio | 328 |
| Cyfraith | 238 |
| Cyfrifiadureg | 209 |
| Peirianneg a thechnoleg | 204 |
| Cyfathrebu torfol a dogfennu | 165 |
| Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig | 157 |

| PRIFYSGOL GLYNDWR WRECSAM | |
|---|---|
| Ieithoedd | 397 |
| Astudiaethau hanesyddol ac athronyddol | 346 |
| Celfyddydau creadigol a dylunio | 299 |
| Cyfraith | 274 |
| Cyfunol | 258 |
| Astudiaethau busnes a gweinyddol | 250 |
| Cyfathrebu torfol a dogfennu | 240 |
| Addysg | 205 |
| Cyfrifiadureg | 111 |
| Gwyddorau mathemategol | 94 |
| Peirianneg a thechnoleg | 64 |
| Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio | 44 |
| Astudiaethau cymdeithasol | 29 |

Mae’r dadansoddiadau o fyfyrwyr y ddwy brifysgol yng Ngogledd Cymru yn dangos gwahaniaeth o ran denu’r rheini sy’n hanu o Ogledd Cymru, a’r rheini o’r tu allan i’r rhanbarth i astudio ar gyfer cymwysterau addysg uwch.

Mae Prifysgol Bangor yn denu nifer mawr o fyfyrwyr o'r tu allan i'r rhanbarth ac o wledydd tramor, a hynny'n cadarnhau'r enw da sydd ganddi ar lefel ryngwladol, tra bo Prifysgol Glyndwr Wrecsam yn ateb galw mawr ar lefel leol ac is-ranbarthol am Addysg Uwch ledled Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr yn benodol, er bod niferoedd cymharol uchel o fyfyrwyr o wledydd eraill yr UE a gwledydd tramor eraill yn y ddwy brifysgol

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam sydd â'r nifer mwyaf o fyfyrwyr sy'n hanu o wledydd eraill yr UE: roedd 545 ohonynt yn astudio yn Wrecsam yn 2016, o'i gymharu â 425 o fyfyrwyr o wledydd eraill yr UE ym Mangor. Er hynny, mae dadansoddiad o'r galw gan fyfyrwyr o wledydd tramor y tu allan i'r UE yn dangos bod Bangor wedi denu 1,790 o fyfyrwyr, o'i gymharu â 295 ar gyfer Wrecsam.

Mewn cymhariaeth â hynny, roedd Prifysgol Caer wedi denu 210 o fyfyrwyr sy'n hanu o wledydd eraill yr UE yn 2016, a 645 o fyfyrwyr o wledydd tramor y tu allan i'r UE. Yma roedd y gyfran fwyaf o fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU o'r tair prifysgol, gyda chyfanswm o 14,060 (8,415 yw'r ffigur ar gyfer Prifysgol Bangor, a 5,690 ar gyfer Prifysgol Glyndŵr Wrecsam).

MAE
**52%**
O'R MYFYRWYR SY'N ASTUDIO YM MHRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM YN FENYWOD

MAE
**30%**
O'R MYFYRWYR SY'N ASTUDIO YM MHRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM O DAN 20 OED

MAE
**32%**
O'R MYFYRWYR SY'N ASTUDIO YM MHRIFYSGOL GLYNDŴR WRECSAM YN HŶN NA 30 OED

MAE
**56%**
O'R MYFYRWYR SY'N ASTUDIO YM MHRIFYSGOL BANGOR YN FENYWOD

MAE
**47%**
O'R MYFYRWYR SY'N ASTUDIO YM MHRIFYSGOL BANGOR O DAN 20 OED

MAE
**19%**
O'R MYFYRWYR SY'N ASTUDIO YM MHRIFYSGOL BANGOR YN HŶN NA 30 OED

Dylid nodi hefyd fod y ddau ddarparwr Addysg Bellach yng Ngogledd Cymru wedi cynnig cyrsiau Addysg Uwch yn 2015-16. Yn ôl ffigurau Llywodraeth Cymru o gronfa ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, roedd 975 o fyfyrwyr yng Ngholeg Cambria yn astudio ar lefel Addysg Uwch, a 1,865 gyda Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r ddau ffigur hyn yn uwch na'r rhai ar gyfer 2014-15, sef 760 ar gyfer Coleg Cambria a 1,740 ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai.

Mae'r ddau goleg Addysg Bellach yng Ngogledd Cymru yn parhau i arwain y ffodd fel dau o'r sefydliadau mwyaf yn y sector hwn yng Nghymru.

Rhoddwyd dyfarniad 'rhagorol' i Goleg Cambria ar ôl arolygiad Estyn yn 2016, ac mae'n parhau i fuddsoddi ym mhob agwedd ar waith y coleg er mwyn datblygu addysgu a dysgu. Ymhlith y datblygiadau a gafwyd hyd yn hyn, mae agor y Ganolfan Chweched Dosbarth newydd a'r Ganolfan Brifysgol, y ddwy yng Nglannau Dyfrdwy, canolfan beirianneg newydd yn y Bers, a Chanolfan Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn Llaneurgain.

Arolygwyd Grŵp Llandrillo Menai gan Estyn yn 2017. Cafodd ganmoliaeth a dywedwyd bod ei ragolygon ar gyfer gwella yn 'rhagorol', a bod ei berfformiad presennol yn 'dda'. Mae'n parhau i ehangu ei gyfleusterau ar bob un o'i safleoedd ar draws ardal eang. Yn ogystal â'r Ganolfan Brifysgol yn Llandrillo-yn-Rhos, a'r canolfannau Ynni ac Adeiladu yn Llangefni, ceir datblygiad newydd gwerth £30 miliwn cyn hir a fydd yn cynnwys Canolfan Ragoriaeth Peirianneg yn Ynys Môn i gefnogi prosiect Wylfa Newydd.

ROEDD
**17,615**
O DDYSGWYR WEDI COFRESTRU YNG NGHOLEG CAMBRIA YN 2015-16

ROEDD
**19,920**
O DDYSGWYR WEDI COFRESTRU YN GRŴP LLANDRILLO MENAI YN 2015-16

Mae darparwyr Addysg Bellach yn parhau i ddatblygu hyblygrwydd o ran dewis a darparu er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr ac unigolion. O'r holl fyfyrwyr a oedd wedi cofrestru yn 2015-16, roedd 12,420 wedi astudio'n amser llawn yn ein sefydliadau Addysg Bellach (6,255 yng Ngholeg Cambria, a 6,165 gyda GLlM); a 17,145 wedi astudio drwy ddulliau rhan-amser (7,295 yng Ngholeg Cambria a 9,850 gyda GLlM).

Yn y cohortau cyfan o fyfyrwyr yn 2015-16, roedd 4,065 o fyfyrwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yng Ngholeg Cambria, a 2,645 gyda Grŵp Llandrillo Menai.

Roedd 10,600 o ddysgwyr amser llawn sy'n hanu o Ogledd Cymru wedi gadael sefydliadau Addysg Bellach yn 2015-16. O'r rhain, roedd 9,390 o dan 24 oed. Roedd o leiaf 1,700 wedi mynd ymlaen i gyflogaeth yn syth, 6,100 wedi dewis parhau i astudio ar gyfer cymwysterau, a 1,500 wedi mynd ymlaen i sefydliadau Addysg Uwch.

MAE
**4,850**
O FYFYRWYR SY'N HANU O OGLEDD CYMRU MEWN ADDYSG BELLACH YN DILYN CYRSIAU ADEILADU, CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

MAE
**5,885**
O FYFYRWYR SY'N HANU O OGLEDD CYMRU MEWN ADDYSG BELLACH YN DILYN CYRSIAU PEIRIANNEG A THECHNOLEGAU GWEITHGYNHYRCHU

MAE
**11,140**
O FYFYRWYR SY'N HANU O OGLEDD CYMRU MEWN ADDYSG BELLACH YN DILYN CYRSIAU IECHYD, GWASANAETHAU CYHOEDDUS A GOFAL

MAE
**3,095**
O FYFYRWYR SY'N HANU O OGLEDD CYMRU MEWN ADDYSG BELLACH YN DILYN CYRSIAU TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU

MAE
**7,510**
O FYFYRWYR SY'N HANU O OGLEDD CYMRU MEWN ADDYSG BELLACH YN DILYN CYRSIAU BUSNES, GWEINYDDU A'R GYFRAITH

MAE
**8,020**
O FYFYRWYR SY'N HANU O OGLEDD CYMRU MEWN ADDYSG BELLACH YN DILYN CYRSIAU MANWERTHU, LLETYGARWCH A MENTER FASNACHOL

Mae'r myfyrwyr yn y meysydd uchod yn ateb y galw am sgiliau ar gyfer y sectorau allweddol a sectorau twf. Mae partneriaid rhanbarthol yn parhau i roi sylw i alwadau ynghylch cydraddoldeb y rhywiau a stereoteipio tybiedig mewn rhai sectorau a rolau.

Ar hyn o bryd, yn y cyrsiau uchod, rydym yn gweld o hyd fod 68% o fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal yn fenywod. Yn y cohort sy'n dilyn cyrsiau Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig, gwelwn o hyd fod 97% o'r myfyrwyr yn ddynion. Yn achos cyrsiau Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu, dim ond 19% o gohort y pynciau hyn sy'n fenywod.

Mae'r pwysigrwydd o ddarparu cyfleoedd dysgu dwyieithog yng Ngogledd Cymru yn parhau, gyda phwyslais cynyddol ar helpu cyflogwyr i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, a chymorth hefyd i fyfyrwyr sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf. Mae hyn yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru o hyrwyddo camau i greu hyd at 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg ar bob lefel ac o bob oed erbyn 2050.

Mewn Addysg Bellach ar draws Gogledd Cymru, roedd 695 o weithgareddau dysgu ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal yn cael eu darparu'n ddwyieithog yn 2015-16 i'r rheini sy'n hanu o Ogledd Cymru; 1,350 ym maes Manwerthu, Lletygarwch a Menter Fasnachol; 810 ym maes Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig; a 700 ym maes Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu.


Yn ystod tymor y Cynulliad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu 100,000 o brentisiaethau uwch ledled Cymru. O hyn ymlaen, canolbwyntir ar brentisiaethau i bob oed yn hytrach na rhai ar gyfer pobl 16-24 oed yn unig.

Mae ein darparwyr hyfforddiant a darparwyr addysg eisoes yn hyrwyddo ac yn cefnogi prentisiaethau ymysg cyflogwyr ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae cyflwyno'r Ardoll Brentisiaethau wedi creu dryswch ac ansicrwydd oherwydd y gwahaniaeth yn y mecanweithiau a ddefnyddir rhwng Cymru a Lloegr.

Mae hyn yn cynnig nifer o heriau i'r farchnad lafur, cyflogwyr, a darparwyr sy'n ymwneud ag ardaloedd trawsffiniol. Fel y nodwyd mewn rhan arall o'r Cynllun, mae 28,300 o bobl yn teithio'n rheolaidd o Gymru i Loegr i weithio, a 32,400 yn teithio'n rheolaidd yn y cyfeiriad arall. Nid yw hyn yn cynnwys y nifer sylweddol o fyfyrwyr a dysgwyr sydd hefyd yn croesi'r ffin bob diwrnod i elwa o'r ddarpariaeth ac ateb y galw.

Mae'n bosibl y bydd graddau'r effaith o'r Ardoll Brentisiaethau yng Ngogledd Cymru yn fwy nag a ragwelwyd oherwydd, gan fod y trothwy o £3 miliwn yn cyfateb i tua 110 o gyflogeion neu ragor ar gyfartaledd, gallai cynifer â 330 o fusnesau fod yn gymwys yng Ngogledd Cymru.

## NIFER Y BUSNESAU SYDD Â 100 O GYFLOGEION O LEIAF A ALL FOD YN GYMWYS I DALU'R ARDOLL YN 2016




Yn achos y cyflogwyr hynny sy'n gymwys i dalu'r Ardoll, bydd angen cydweithio'n agosach â nhw drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol i ddeall beth yw eu gofynion a'u hanghenion, yn unol â blaenoriaethau lleol a rhanbarthol. Drwy gael y wybodaeth ychwanegol hon, gallwn roi gwell cymorth i bartneriaid darparu i flaenoriaethu a chanolbwyntio mewn ffordd sy'n gyson â Chynnig Twf Gogledd Cymru, a hefyd i gynorthwyo Llywodraeth Cymru yn unol â pholisi a blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer y dyfodol.

Yr her i ni ar draws Gogledd Cymru, yn ogystal â chefnogi Rhaglen Polisi Prentisiaethau Llywodraeth Cymru, yw cwrdd ag anghenion rhanbarthol ar gyfer hyrwyddo a thyfu prentisiaethau yn unol â'n sectorau allweddol a sectorau twf, gyda phwyntiau mynediad mwy gweladwy at brentisiaethau uwch.

**550**
YN FWY O BRENTISIAETHAU UWCH YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2015-16 (1,885) NAG YN Y FLWYDDYN FLAENOROL (1,335)

**865**
YN LLAI O BRENTISIAETHAU SYLFAEN YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2015-16 (3,615) NAG YN Y FLWYDDYN FLAENOROL (4,480)

**165**
YN LLAI O BRENTISIAID BENYWAIDD YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2015-16 (5,405) NAG YN Y FLWYDDYN FLAENOROL (5,570)

**475**
YN LLAI O BRENTISIAID YNG NGOGLEDD CYMRU YN 25-64 OED YN 2015-16 (4,140) NAG YN Y FLWYDDYN FLAENOROL (4,615)

**30**
YN LLAI O BRENTISIAID YNG NGOGLEDD CYMRU YN 16-18 OED YN 2015-16 (1,335) NAG YN Y FLWYDDYN FLAENOROL (1,365)

**85**
YN FWY O BRENTISIAID YNG NGOGLEDD CYMRU YN 19-24 OED YN 2015-16 (3,820) NAG YN Y FLWYDDYN FLAENOROL (3,735)

Mae pryder ymysg perchenogion busnesau llai ledled Gogledd Cymru sy'n aelodau o'r Ffederasiwn Busnesau Bach, y Siambr Fasnach, a Chyngor Busnes Gogledd Cymru a Mersi Dyfrdwy, fod y cyflogwyr mwy yn denu'r darpar brentisiaid gorau, yn aml oherwydd ffactorau fel tâl uwch, llwybrau cliriach ar gyfer camu ymlaen, a buddion ychwanegol i gyflogeion sydd ar gael oddi wrth gyflogwyr rhyngwladol.

Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor er mwyn ein cyflenwad sgiliau drwy ddenu a chadw'r darpar brentisiaid hynny sy'n ymddiddori mewn amgylcheddau mwy arloesol a hyblyg, lle mae mwy o greadigrwydd. Y cwmnïau a busnesau llai yng Ngogledd Cymru sy'n gallu cynnig pecyn o'r math hwn, a dylid hyrwyddo hyn fel mantais ymysg y prentisiaid mwyaf talentog mewn galwedigaethau yng Ngogledd Cymru.

ROEDD CYFANSWM Y PRENTISIAETHAU ADEILADU WEDI CYNYDDU YN 2016, GYDA GOSTYNGIAD AR LEFEL 2 A CHYNNYDD AR LEFEL 3

ROEDD CYFANSWM Y PRENTISIAETHAU GWEITHGYNHYRCHU WEDI GOSTWNG YN 2016, OND WEDI CYNYDDU AR LEFELAU 3 A 4

ROEDD CYFANSWM Y PRENTISIAETHAU GOFAL IECHYD A GWASANAETHAU CYHOEDDUS WEDI CYNYDDU YN 2016, AC WEDI CYNYDDU 375 AR LEFEL 4

Mae cyflogwyr blaenllaw yn y rhanbarth fel Airbus yn parhau i fuddsoddi i ddenu a hyrwyddo prentisiaethau yn y rhanbarth, ac mae 75 o brentisiaethau i grefftwyr a 30 o brentisiaethau i is-raddedigion wedi'u cynnig yn 2016, a chynigir tua 120 o brentisiaethau newydd mewn gwahanol ddisgyblaethau ym Medi 2017.

Yn sgil prosiect adeiladu Carchar Berwyn yn Wrecsam a gwblhawyd yn ddiweddar, crëwyd 100 o brentisiaethau yn y sector adeiladu ac mewn sectorau cysylltiedig gan bartneriaid rhanbarthol drwy gydweithio'n uniongyrchol â'r prif gontractwr yn ogystal â chontractwyr yng nghadwyn gyflenwi'r prosiect gyda'r nod o ddenu gweithwyr newydd i bob rhan o'r sector.

Gan fod canran y cyflogwyr yng Ngogledd Cymru sy'n cynnig prentisiaethau yn fwy na'r cyfartaledd o 13% yng Nghymru, mae nifer y busnesau sy'n cynnal rhaglenni prentisiaethau i uwchsgilio a datblygu'r rheini sydd eisoes mewn cyflogaeth, yn ogystal â newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur, yn cynyddu'n raddol.

Yn ogystal â'r cwmnïau a nodwyd uchod sy'n cynnig ac yn cynnal prentisiaethau ledled Gogledd Cymru gyda chymorth ein darparwyr, mae cwmni Jones Brothers yn parhau i hybu a hyrwyddo prentisiaethau mewn gwaith adeiladu cyffredinol a gweithrediadau peiriannau a pheirianwaith yn ei ganolfan hyfforddi achrededig.
Ymysg y nifer mawr o gyflogwyr eraill sy'n cynnal prentisiaethau y mae TATA Steel; Siemens; Holyhead Marine; Village Bakery; Pendine Park; Wholebake; Glanbia Cheese; Harlech Food Service; Babcocks yng Ngorsaf yr Awyrlu yn y Fali; Portmeirion; Venue Cymru; Magnox; ac RWE.

Er mwyn hyrwyddo cyflenwad o sgiliau ar gyfer prosiect Wylfa Newydd yn y dyfodol, roedd Horizon Nuclear Power hefyd wedi recriwtio ei gohort cyntaf o 10 o brentisiaid yng Ngogledd Cymru yn 2016 wrth lansio ei Gynllun Prentisiaethau Technegol. Mae'n bwriadu recriwtio 12 o brentisiaid ychwanegol yn ystod 2017-18 ar gyfer ei raglen dair blynedd, sydd eisoes wedi rhoi profiad gwerthfawr o waith ac astudio i 10 o brentisiaid yn ystod ymweliad pythefnos â chyfleusterau yn Japan.

**1,680**
O HYFFORDDEIAETHAU YNG NGOGLEDD CYMRU YN 2016 O'I GYMHARU Â 1,085 YN 2015

**270**
O GYFRANOGWYR MEWN RHAGLENNI 'PAROD AM WAITH' YN 2016 O'I GYMHARU Â 535 YN 2015

**4,665**
O GYFRANOGWYR DYSGU SEILIEDIG AR WAITH YN Y SECTOR MANWERTHU A MASNACHOL YN 2016

Mae darparwyr hyfforddiant preifat hefyd yn cynnig darpariaeth effeithiol ar gyfer prentisiaethau a hyfforddiant seiliedig ar waith yng Ngogledd Cymru, drwy gydweithio'n agos â chyflogwyr ac unigolion mewn nifer o sectorau ac ardaloedd i helpu staff o'r lefel mynediad hyd at lefelau rheoli ac uwch. Mae nifer o'r darparwyr hyfforddiant preifat hefyd yn cynnig arbenigedd mewn sectorau allweddol a sectorau twf penodol, ac yn helpu i ddelio ag anawsterau o ran cadw gweithwyr ac olyniaeth drwy ddarpariaeth i gwrdd â gofynion statudol a gorfodol ar gyfer diwydiant.

Y prif sectorau a meysydd gweithgarwch yng Ngogledd Cymru lle darperir gweithgareddau dysgu seiliedig ar waith i unigolion yw:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| GOFAL A DATBLYGIAD PERSONOL | RHEOLI BUSNES AC ASTUDIAETHAU SWYDDFA | TECHNOLEG GWYBODAETH | CYFATHREBU DRWY'R CYFRYNGAU A CHYHOEDDI | MATHEMATEG |
| ARLWYO A LLETYGARWCH | PEIRIANNEG | MANWERTHU, GWERTHU A MARCHNATA | IECHYD A DIOGELWCH | ADEILADU |

Mae DWP, Gyrfa Cymru, a darparwyr y Trydydd Sector hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at helpu unigolion a delio â rhwystrau i gyflogaeth. Mae cymorth pwrpasol, wyneb yn wyneb i ymdrin yn uniongyrchol ag anawsterau o ran gallu personol a sgiliau yn fwyfwy pwysig i helpu unigolion i fod yn fwy 'parod am waith' yng Ngogledd Cymru, a delio â materion cyffredinol sy'n ymwneud â chyflogadwyedd.

ROEDD
**66.7%**
O DDISGYBLION WEDI ENNILL GRADD A*-C MEWN TGAU MATHEMATEG YN YSGOLION GOGLEDD CYMRU YN 2016

ROEDD
**82.9%**
O DDISGYBLION WEDI ENNILL GRADD A*-C MEWN TGAU GWYDDONIAETH YN YSGOLION GOGLEDD CYMRU YN 2016

ROEDD
**59.9%**
O DDISGYBLION WEDI ENNILL GRADD A*-C MEWN TGAU TGCH YN YSGOLION GOGLEDD CYMRU YN 2016

ROEDD
**77.0%**
O DDISGYBLION WEDI ENNILL GRADD A*-C MEWN MATHEMATEG SAFON UWCH YN YSGOLION GOGLEDD CYMRU YN 2016

ROEDD
**73.0%**
O DDISGYBLION WEDI ENNILL GRADD A*-C MEWN CEMEG SAFON UWCH YN YSGOLION GOGLEDD CYMRU YN 2016

ROEDD
**48.3%**
O DDISGYBLION WEDI ENNILL GRADD A*-C MEWN TGCH SAFON UWCH YN YSGOLION GOGLEDD CYMRU YN 2016

Yn ogystal â hyn, roedd 2,400 o ddysgwyr sy'n hanu o Ogledd Cymru yn astudio pynciau Mathemateg ac Ystadegau gyda darparwyr Addysg Bellach yn ystod 2016, 1,410 ar gyfer NQF Lefel 2 neu gymhwyster cyfatebol, a 495 ar gyfer NQF Lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol. Hefyd roedd 1,430 o ddysgwyr sy'n hanu o Ogledd Cymru yn astudio pynciau seiliedig ar Wyddoniaeth gyda darparwyr Addysg Bellach yn ystod 2015-16, 155 ar gyfer NQF Lefel 2 neu gymhwyster cyfatebol, a 1,245 ar gyfer NQF Lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol.

Rydym wedi parhau i gydweithio â Chydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu Gogledd Cymru i gynnal dadansoddiad llawn o'r ddarpariaeth er mwyn deall dyfnder ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer rhai a fydd yn rhan o'r cyflenwad llafur yn y dyfodol nad ydynt yn dilyn llwybrau traddodiadol at gyflogaeth a hyfforddiant pellach ar hyn o bryd.

Cyhoeddwyd adroddiad llawn yn 2016, ac adnodd ar-lein wedyn gyda gwefan bwrpasol a oedd yn rhoi'r gallu i chwilio am ddarparwyr yn ôl math, ardal a lefel y ddarpariaeth. O ganlyniad i hyn, gwelwyd bod o leiaf 34 o sefydliadau'n gweithredu ledled Gogledd Cymru gan gynnig mwy na 130 o fathau o ddarpariaeth ym mhob un o'r chwe sir.

Yn rhan o'r gwaith yn y rhanbarth i ategu argymhellion Donaldson ar gyfer y Cwricwlwm Ysgol, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol eisoes yn cydweithio â'r consortiwm ysgolion rhanbarthol i Ogledd Cymru – GwE – gan gefnogi'r mewnbwn dan arweiniad cyflogwyr i'r rhaglen Ysgolion Arloesi ranbarthol.
O ganlyniad i hyn, mae Partneriaeth Sgiliau Ranbarthol Gogledd Cymru yn gallu cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu modiwlau sy'n cydweddu â'r Rhaglen Dyfodol Llwyddiannus, ac at ddiwallu'r angen yn y rhanbarth i hyrwyddo a darparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar brofiad sy'n ymwneud â sefyllfaoedd gwirioneddol mewn bywyd a gwaith.

Felly, wrth gydweithio i ymateb i argymhellion Donaldson ledled Gogledd Cymru, rydym hefyd yn dangos ein hymrwymiad fel partneriaid i hybu'r cysylltiadau â chyflogadwyedd drwy bennu dulliau o ddarparu sy'n gyson â galwadau gan y farchnad lafur ranbarthol yn y dyfodol. Bydd y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn hyrwyddo hyn, gan ategu gwybodaeth a gallu darparwyr addysg.

| CYF | ARGYMHELLIAD | DIWEDDARIAD AR GYNNYDD |
|---|---|---|
| 2016-1 | Cydweithio â chyflogwyr, datblygwyr a darparwyr sy'n cefnogi prosiectau trawsnewidiol allweddol yn y sector ynni a sectorau eraill, i gyflenwi'r cyfleusterau sydd eu hangen i greu uchelgais, a rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen ar bobl leol i gael cyflogaeth yn y datblygiadau nesaf. Bydd y dull hwn o weithredu yn hybu a hyrwyddo gyrfaoedd lleol, twf economaidd a thwf cymunedau er mwyn cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. | Mae darparwyr yng Ngogledd Cymru yn parhau i ddatblygu a chynllunio cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf i hybu sgiliau.<br>Yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, bydd y rhanbarth yn elwa o ganolfan STEM newydd Coleg Cambria yn Ffordd y Bers yn Wrecsam, sy'n werth £10 miliwn, a Chanolfan Arweinyddiaeth a Rheoli Busnes yn Llaneurgain. Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam wedi cyhoeddi strategaeth ystadau ar gyfer buddsoddi a datblygu sylweddol yn ei champysau a'i chyfleusterau.<br>Yng Ngogledd-orllewin Cymru, mae Prifysgol Bangor yn datblygu Parc Gwyddoniaeth Menai yn Ynys Môn ac yn parhau i ddatblygu ei phortffolio o brosiectau, gan gynnwys ei Rhaglen Ymchwil a Sgiliau Niwclear. Bydd hyn yn ategu'r estyniad gwerth £20 miliwn i gyfleusterau ar gampws Grŵp Llandrillo Menai yn Llangefni sy'n cynnwys Canolfan Ragoriaeth Peirianneg newydd, ochr yn ochr â'i Ganolfan Ynni a chynigion ar gyfer Canolfan Hyfforddi AWBR i gefnogi gweithwyr Horizon Nuclear Power yn Wylfa Newydd. |
| 2016-2 | Cydweithio â chyflogwyr, datblygwyr a darparwyr sy'n cefnogi'r sector gweithgynhyrchu, i roi cymorth pellach i ddatblygu'r cyfleusterau ac arbenigedd sydd eu hangen i ysbrydoli pobl leol a rhoi iddynt y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol er mwyn datblygu ein gweithlu ymhellach fel ei fod yn aros yn gystadleuol gan greu mwy o sgiliau lefel uwch mewn ardaloedd allweddol fel Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy ac Ystad Ddiwydiannol Wrecsam. | Mae'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru, sefydliadau addysg bellach ac uwch, a phartneriaid sector preifat i ddarparu cymorth a chyfleusterau ar gyfer Gogledd Cymru i hyrwyddo hyfforddiant a chymorth ar gyfer sgiliau lefel uwch yn parhau i ddatblygu.<br>Mae hyn yn cynnwys y cyhoeddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith am gymorth ar gyfer Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch werth £30 miliwn yng Nglannau Dyfrdwy, i ganolbwyntio ar sectorau sy'n cynnwys awyrofod, niwclear a bwyd. Mae wedi cael ei datblygu gan Fwrdd Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, Coleg Cambria, Prifysgol Abertawe ac AMRC Sheffield, a bydd yn cynnwys darpariaeth o gymorth mewn perthynas â chynhyrchion, prosesau a dulliau effeithlon o ddarparu sgiliau mewn busnesau bach a mawr. |
| 2016-3 | Datblygu mwy o gysondeb rhwng y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol a chylchoedd cynllunio partneriaid darparu rhanbarthol, er mwyn hyrwyddo'r cwricwlwm, adnoddau a'r weledigaeth. | Mae'r amserlenni wedi'u mapio, ond nid yw'r cyfnodau a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno cynlluniau yn cyd-fynd eto â chyfnodau'r partneriaid. Er hynny, mae gwell tryloywder a chydweithredu rhwng partneriaid i bennu'r hyn sydd i'w gynnwys yn y cyfnodau wedi hwyluso datblygiadau ar gynllunio sgiliau rhanbarthol, ac roedd croeso i adborth a sylwadau gan bartneriaid. Nid yw'r cais i Lywodraeth Cymru am gaffael offeryn rhagolygon ar gyfer cyflogaeth a sgiliau fel yr un a ddefnyddir gan Gyrfa Cymru a mwyafrif y sefydliadau addysg bellach yng Nghymru wedi cael ei gymeradwyo eto. Byddai hyn yn fodd i sicrhau bod data rhagolygon yn gyson er mantais i'r farchnad lafur, y cyflogwyr a'r darparwyr sy'n gysylltiedig. |

| CYF | ARGYMHELLIAD | DIWEDDARIAD AR GYNNYDD |
|---|---|---|
| 2016-4 | Mae angen dull llinell sylfaen cyffredin o froceru sgiliau a chyflogaeth y bydd prif gontractwr/perchennog prosiect yr holl brosiectau trawsnewidiol rhanbarthol perthnasol yn gallu ychwanegu anghenion a gofynion penodol ato. | Mae'r model a oedd wedi'i arwain gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, drwy gydweithio â DWP, Gyrfa Cymru a phrif gontractwyr prosiect Carchar Berwyn yn Wrecsam wedi dangos bod gwasanaeth broceru tryloyw a hyblyg yn gallu gweithio'n effeithiol ar brosiectau graddfa fawr.<br><br>Model y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a'i phartneriaid ar gyfer Wrecsam oedd y prif gyfraniad at ennill Gwobr Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru am 'Arweinyddiaeth a Datblygu Pobl' yn 2016.<br><br>Mae'r model hwn yn cael ei ddefnyddio yn Ynys Môn yn awr ar gyfer prosiect Wylfa Newydd a phrosiectau Ynni cysylltiedig yn y rhanbarth, gan adeiladu ar sail y llwyddiant yn Wrecsam drwy gynnwys gofynion penodol ychwanegol ar gyfer Wylfa Newydd.<br><br>Bydd hyn yn cael ei ategu ymhellach drwy lansio CYFLE, yr offeryn cyflogaeth proffesiynol ar-lein i Ogledd Cymru, cyn hir. Mae hyn yn ychwanegu'n sylweddol at y prosiect 'Llunio'r Dyfodol' blaenorol, drwy greu adnodd a fydd yn darparu meincnod ar gyfer sgiliau yng Ngogledd Cymru yn awr ac yn y dyfodol, am y tro cyntaf. |
| 2016-5 | Datblygu dull ategol o ymdrin â phynciau STEM yng Ngogledd Cymru a fydd yn helpu i gyfleu, ysbrydoli a hyrwyddo cyfle cyfartal, gan adlewyrchu a chefnogi anghenion cyflogwyr, dysgwyr a darparwyr yn glir ar bob lefel. | Nid yw'r cynnig yn 2016 i recriwtio Cydlynydd STEM i weithio yn y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol/Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'i weithredu eto oherwydd diffyg cyllid.<br>Yn dilyn yr archwiliad a dadansoddiad llawn gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol o'r ddarpariaeth STEM yn yr holl ysgolion yng Ngogledd Cymru, cafodd y rhaglen ACT ON STEM ei chreu a'i darparu yn 2016/17. Fe'i harweiniwyd gan gyflogwyr mewn partneriaeth â darparwyr a phrosiectau fel Ymgyrraedd yn Ehangach. Mae set gynhwysfawr o adnoddau i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6, ei hathrawon a rhieni, yn gysylltiedig â phob un o sectorau twf a sectorau allweddol y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol wedi'i datblygu a'i darparu i bob un o'r 369 o ysgolion cynradd yng Ngogledd Cymru. Rhoddwyd sylw iddi ar lefel genedlaethol ar wefan "Hwb" Llywodraeth Cymru. Dangoswyd y cyfarfod lansio ar S4C er mwyn hybu ymwybyddiaeth ohoni. |
| 2016-6 | Gweithio gyda chyflogwyr y rhanbarth a'u cyrff cynrychiadol i ddatblygu "Pecyn Cymorth Sgiliau Cyflogadwyedd Gogledd Cymru" a fyddai'n dyfarnu un dystysgrif achredig ar ran darparwyr rhanbarthol. Byddai llwyddiant wrth gwblhau'r pecyn cymorth yn helpu cyfranogwyr i gwrdd â disgwyliadau a gytunwyd ar gyfer y farchnad lafur ac ateb galwadau gan gyflogwyr yn y dyfodol yn ein sectorau allweddol a sectorau twf. | Ffurfiwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd eisoes wedi cyfarfod ddwywaith. Mae wedi cynnal archwiliad cychwynnol o'r cymorth a'r disgwyliadau ar lefel ranbarthol. Mae'r grŵp yn aros am ganllawiau pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru ar ei Pholisi a Chynllun Cyflogadwyedd newydd, ar ôl cynnal seminar llwyddiannus ar y cyd ar ddechrau 2017, i bennu'r allbwn o Ogledd Cymru i'r datblygiadau cenedlaethol, a phenderfynu wedyn sut y gallwn lunio dulliau rhanbarthol a lleol i ategu a chefnogi gwaith Llywodraeth Cymru.<br>Y brif neges gan gydweithwyr yng Ngogledd Cymru yw bod angen sicrhau bod unrhyw feini prawf ar gyfer canlyniadau cyflogadwyedd yn syml ac yn berthnasol i anghenion y cyflogwyr a'r rhanbarth. |

| CYF | ARGYMHELLIAD | DIWEDDARIAD AR GYNNYDD |
|---|---|---|
| 2016-7 | Cydweithio â phartneriaid i ystyried ffyrdd priodol o gynnal arolwg rhanbarthol a chenedlaethol o farn ac anghenion cyflogwyr yn dilyn Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau a gwahanu ei allbynnau i helpu i gynllunio ar gyfer darparu sgiliau yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol. | Ni chafwyd cynnydd yn 2016-17 oherwydd anawsterau ynghylch adnoddau a chapasiti o ganlyniad i orfod canolbwyntio ar brosiectau eraill ac allbynnau cyflawni ar gyfer y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol.<br><br>Bydd yn parhau'n argymhelliad allweddol ar gyfer 2017-18 a chyflwynir papur drafft a chynllun gweithredu arfaethedig i bartneriaid y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol erbyn Rhagfyr 2017 |
| 2016-8 | Gwireddu effaith a pherthnasedd themâu trawsbynciol mewn perthynas â'r Gymraeg a'i pherthnasedd a'i heffaith ar yr agenda gyffredinol ar sgiliau a chyflogaeth yng Ngogledd Cymru. | Ni oedd yr unig Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yng Nghymru yn 2016 i lunio atodiad penodol i'n Cynllun Sgiliau Rhanbarthol ar bwysigrwydd y Gymraeg.<br><br>Rydym hefyd wedi cydweithio â phartner cenedlaethol – Colegau Cymru – ac wedi cynnal digwyddiad gyda chyflogwyr o bob rhan o Ogledd Cymru i hyrwyddo'r arferion gorau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac i hyrwyddo sgiliau cysylltiedig a chyfleoedd cyflogaeth drwy'r Gymraeg. |
| 2016-9 | Datblygu maniffesto sgiliau trawsffiniol ar sail un asiantaeth sgiliau drawsffiniol i hyrwyddo hylifedd sgiliau ac arbenigedd sy'n symud rhwng Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr bob dydd, ar gyfer cyflogaeth a dysgu. | Rydym yn parhau i gydweithio â phartneriaid trawsffiniol i ddeall natur yr heriau sy'n gysylltiedig – yn enwedig mewn cysylltiad â'r Ardoll Brentisiaethau.<br>Mae cydweithwyr yn y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn parhau i gydweithio â phartneriaid ar faterion sgiliau trawsffiniol. Mae hyn wedi cynnwys annerch Grŵp Seneddol Hollbleidiol Gogledd Cymru a Dyfrdwy Mersi yn San Steffan, a chynnal dadansoddiad ar y cyd â phartneriaid ar gyfer cysoni blaenoriaethau sectorau economaidd ar gyfer cymwysterau addysg uwch ar draws y ffin, ar gyfer Gogledd Cymru a Phartneriaeth Gyflogaeth Leol Swydd Gaer a Warrington. |
| 2016-10 | Parhau i gynyddu'r cydweithredu a rhannu gwybodaeth â ffrydiau gwaith eraill ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn dangos a hyrwyddo dull cydgysylltiedig o weithredu i ddarparwyr addysg, cyflogwyr a myfyrwyr. | Mae pob un o Reolwyr Rhaglenni Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn parhau i gwrdd yn rheolaidd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y partneriaid rhanbarthol, i rannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth sy'n helpu pob un o'n ffrydiau gwaith ein hunain ac sydd er budd y rhanbarth cyfan, yn enwedig yn y gwaith ar gyfer datblygu Cynnig Twf Gogledd Cymru. Bydd y cydweithio hwn yn parhau ac yn datblygu mewn perthynas â sgiliau, cyllid Ewropeaidd, cadwynau cyflenwi a seilwaith yn ogystal â themâu eraill. |

| CYF | ARGYMHELLIAD | PROSES | TARGED CYFLAWNI |
|---|---|---|---|
| 2017-1 | Parhau i gydweithio â chyflogwyr, datblygwyr a darparwyr sy'n cefnogi prosiectau trawsnewidiol allweddol ym mhob un o'r sectorau allweddol a sectorau twf yn y rhanbarth, i gyflenwi'r cyfleusterau sydd eu hangen i greu uchelgais, a rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen ar bobl leol i gael cyflogaeth yn y datblygiadau nesaf. | Bydd y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol yn parhau'n ganolbwynt cymorth rhanbarthol ar gyfer rhannu a thrafod cyfleoedd i gydweithio ac arloesi rhwng partneriaid yng nghyd-destun datblygiadau parhaus o fewn sefydliadau darparwyr, fel ymateb i brosiectau trawsnewidiol a datblygiadau eraill yng Ngogledd Cymru ac mewn ardaloedd trawsffiniol.<br><br>Bydd Cynnig Twf Gogledd Cymru yn cydberthyn i ddogfen debyg sy'n cael ei datblygu gan Bartneriaeth Gyflogaeth Leol Swydd Gaer a Warrington er mwyn sicrhau bod cydberthynas a synergedd ynghylch sgiliau, cyflogaeth, a chymorth i brosiectau lle nad oes ffiniau sectoraidd neu weinyddol. | Yn parhau |
| 2017-2 | Parhau â dull llinell sylfaen cyffredin o froceru sgiliau a chyflogaeth y bydd prif gontractwr/perchennog prosiect yr holl brosiectau trawsnewidiol rhanbarthol perthnasol yn gallu ychwanegu anghenion a gofynion penodol ato (2016-4) | Parheir i ganolbwyntio ar y model broceru rhanbarthol sy'n cael ei arwain gan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol gyda phartneriaid fel DWP, Gyrfa Cymru, addysg uwch, addysg bellach ac awdurdodau lleol a ddefnyddiwyd gyntaf ym mhrosiect Carchar Berwyn, ac sydd bellach yn cael ei ddefnyddio yn Ynys Môn i gefnogi prosiect Wylfa Newydd a phrosiectau Ynni cysylltiedig yn y rhanbarth.<br><br>Bydd hyn yn cael ei ategu ymhellach drwy lansio CYFLE, yr offeryn cyflogaeth proffesiynol ar-lein i Ogledd Cymru, cyn hir. Mae hyn yn ychwanegu'n sylweddol at y prosiect 'Llunio'r Dyfodol' blaenorol, drwy greu adnodd a fydd am y tro cyntaf yn darparu meincnod ar gyfer sgiliau yng Ngogledd Cymru yn awr ac yn y dyfodol, wrth i ni gydweithio â phartneriaid mewn addysg yn ogystal â chyflogwyr a'r farchnad lafur ehangach yng Ngogledd Cymru. | Yn parhau<br><br>Hydref 2017 |
| 2017-3 | Parhau i sefydlu a chefnogi dull ategol o ymdrin â phynciau STEM yng Ngogledd Cymru a fydd yn helpu i gyfleu, ysbrydoli a hyrwyddo cyfle cyfartal, gan adlewyrchu a chefnogi anghenion cyflogwyr, dysgwyr a darparwyr yn glir ar bob lefel (2016-5) | Datblygu achos busnes am gyllid i benodi cydlynydd STEM am gyfnod penodol i weithio yn nhîm craidd y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, ar ran yr holl bartneriaid rhanbarthol perthnasol. Sefydlu Gweithgor STEM rhanbarthol o dan y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, i ganolbwyntio ar rannu'r arferion gorau, heriau, ac arloesi sy'n gysylltiedig â STEM yng Ngogledd Cymru gan fanteisio ar brofiad partneriaid allweddol, ac ymestyn hyn i MSParc a Techniquest Glyndŵr ymysg eraill. Ceisio llunio dull rhanbarthol o weithredu, a'i gysoni hefyd â ffocws Llywodraeth Cymru ar Addysg STEM gan gyfrannu ato.<br><br>Adolygu'r llwyddiant a gafwyd hyd yma ar ACT ON STEM, a phennu cyfleoedd i ariannu datblygiadau i'w ymestyn o Flynyddoedd 5 a 6, i oed ysgol uwchradd a Blynyddoedd 7 ac 8 er mwyn ymestyn y llwybr cymorth rhanbarthol.<br><br>Cefnogi'r crynodiadau o STEM sy'n cael eu datblygu fel y rheini gydag AIRBUS a Choleg Cambria – er mwyn darparu cymorth rhanbarthol ar gyfer allbynnau lleol teilwredig. | Rhagfyr 2017<br><br>Tachwedd 2017<br><br>Ionawr 2018 Yn parhau |

| CYF | ARGYMHELLIAD | PROSES | TARGED CYFLAWNI |
|---|---|---|---|
| 2017-4 | Parhau i weithio gyda chyflogwyr y rhanbarth a'u cyrff cynrychiadol i ddatblygu "Pecyn Cymorth Sgiliau Cyflogadwyedd Gogledd Cymru" (2016-6) | Wedi i'r grŵp gorchwyl a gorffen rhanbarthol gyfarfod a rhannu gwybodaeth, mae'r gwaith wedi'i ohirio ar hyn o bryd wrth aros am gyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru am ei Chynllun Cyflawni Cyflogadwyedd cenedlaethol. Bydd yn cyfarfod wedyn i asesu'r cynigion cenedlaethol, ac ailgysoni anghenion rhanbarthol er mwyn eu hategu a delio â bylchau sy'n berthnasol i anghenion economaidd ac anghenion sgiliau Gogledd Cymru a'r ardal drawsffiniol ehangach.<br><br>Bydd hyn yn cynnwys prosiect peilot i ymestyn brand "ACT ON" i'r sector lletygarwch a thwristiaeth drwy gydweithio â Bwrdd Ardal Fenter Ynys Môn i hybu cyflogadwyedd a chadw sgiliau yn y sector hwn. | Hydref 2017 |
| 2017-5 | Cydweithio â phartneriaid i ystyried ffyrdd priodol o gynnal arolwg rhanbarthol a chenedlaethol o farn ac anghenion cyflogwyr yn dilyn Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau a gwahanu ei allbynnau i helpu i gynllunio ar gyfer darparu sgiliau yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol (2016-7) | Nid oedd capasiti nac adnoddau i gyflawni hyn yn ystod 2016-17. Mae'r cyd-destun rhanbarthol i sgiliau a chyflogaeth yn parhau i ddatblygu'n gyflym, yn enwedig yn sgil y gwaith ar Gynnig Twf Gogledd Cymru.<br><br>Bydd papur drafft yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol erbyn 2017 er mwyn ymgynghori a derbyn sylwadau. Ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau, bydd yn cael ei gyflwyno wedyn fel argymhelliad i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar ddechrau 2018 i'w weithredu a'i gefnogi. | Rhagfyr 2017 ac wedyn |
| 2017-6 | Parhau i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn yr holl sectorau allweddol a sectorau twf, a'i phwysigrwydd mewn themâu trawsbynciol ar gyfer hybu sgiliau a chyflogaeth ar bob lefel (2016-8) | Ar sail y gwaith yn yr atodiadau penodol i Gynllun Sgiliau Rhanbarthol 2016, a'r digwyddiadau pwrpasol a gynhaliwyd ar y cyd â chyflogwyr a Colegau Cymru i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle, byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol i hyrwyddo'r manteision i fusnes o gael gweithlu dwyieithog. | Yn parhau |
| 2017-7 | Monitro negodiadau ar BREXIT i asesu ymhellach ei effaith ar Ogledd Cymru ac ar wladolion o wledydd eraill yr UE sy'n gweithio, yn astudio ac yn byw yma ar hyn o bryd, a'u cyfraniadau i'n marchnadoedd sgiliau a chyflogaeth. | Gan fod mwy na 14,000 o wladolion o wledydd eraill yr UE yn gweithio yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd, a mwy na 1,000 yn astudio yn y rhanbarth, parheir i fonitro'r negodiadau ar BREXIT o ran ei effaith ar sgiliau, drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol.<br><br>Canolbwyntir yn benodol ar yr effaith ar ddarparwyr addysg, yn ogystal â busnesau ym mhob un o'n sectorau allweddol a sectorau twf, ynghyd â'r economi sylfaen sy'n torri ar draws nifer o'r 8 sector hyn, sy'n cyflogi'r cohort hwn ar hyn o bryd. | Yn parhau |

| CYF | ARGYMHELLIAD | PROSES | TARGED CYFLAWNI |
|---|---|---|---|
| 2017-8 | Cydweithio â phartneriaid yn y Trydydd Sector ar draws y rhanbarth i gynnal archwiliad llawn o'r holl ddarpariaethau ar gyfer sgiliau yn y sector hwn yng Ngogledd Cymru, er mwyn cyhoeddi adroddiad i nodi'r arferion gorau, dyblygu, a meysydd lle mae angen ehangu'r ddarpariaeth. | Yn dilyn yr archwiliad llwyddiannus o dan arweiniad y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol o adroddiadau ar y ddarpariaeth ar gyfer STEM yng Ngogledd Cymru yn 2015, a'r ddarpariaeth ar gyfer pobl NEET 16-24 oed yn 2016, byddwn yn cydweithio â phartneriaid yn y Trydydd Sector i gynnal archwiliad diffiniol o'r holl ddarpariaethau perthnasol ar gyfer sgiliau sy'n cael eu cynnig yng Ngogledd Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn helpu i gyfiawnhau cymorth pellach i feysydd lle ceir arferion da ar hyn o bryd, yn ogystal â dangos meysydd lle ceir dyblygu nad ydynt yn gwasanaethu cleientiaid yn effeithiol ar hyn o bryd, a hefyd yn tynnu sylw at arloesi ym meysydd darparu'r Trydydd Sector y gellir ei ymestyn. | Ebrill 2018 |
| 2017-9 | Pennu cymorth penodol ar gyfer y Sector Creadigol a Digidol yng Ngogledd Cymru i weithio ar ran sefydliad cynrychiadol y sector "Gogledd Creadigol / Creative North Wales" a'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol | Ar ôl cynnwys y Sector Creadigol a Digidol fel sector twf yng Nghynllun Sgiliau 2016, a chanolbwyntio ar y sector yn y Weledigaeth ar gyfer Twf yng Ngogledd Cymru er mwyn codi uchelgais a hyrwyddo sgiliau lefel uwch ledled y rhanbarth, mae angen pennu cymorth penodol ar gyfer sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth.<br><br>Gan ei bod yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar "Goridor Diwylliannol" i Ogledd Cymru a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, byddai'r swydd yn dod â'r agweddau creadigol a digidol at ei gilydd i bennu meysydd cryf, cyfleoedd, a bylchau i'w llenwi. Byddai hyn yn ategu'r agenda genedlaethol, ranbarthol a lleol ar gyfer cyflogwyr, darparwyr a myfyrwyr drwy hyrwyddo sgiliau a phrentisiaethau, a mwy o ddatblygu a chydweithredu drwy glystyrau. | Ebrill 2018 |
| 2017-10 | Pennu ffyrdd i'r rhanbarth hyrwyddo Polisi Prentisiaethau Llywodraeth Cymru ymhellach drwy ddatblygu dull ategol a chydgysylltiedig yng Ngogledd Cymru i hyrwyddo prentisiaethau mewn ysgolion. | Ar hyn o bryd, mae prentisiaethau'n cael eu hyrwyddo mewn ffordd ddigyswllt ac anghyson ledled Gogledd Cymru. Bydd hyn yn creu her i'r rhanbarth os bydd yn ceisio cyfrannu'n gyson at gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o gynnig hyd at 100,000 o brentisiaethau uwch newydd yn ystod tymor y Cynulliad presennol.<br>Mae angen gweithio ar sail yr enghreifftiau presennol o arfer da gan gyflogwyr a darparwyr yn y rhanbarth i bennu mecanwaith rhanbarthol priodol drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol a fydd yn hyrwyddo dull cyson o weithredu sy'n cael ei gefnogi gan bawb, er budd llawer – gyda gwybodaeth deilwredig i rieni, yn ogystal â disgyblion.<br>Dylid datblygu cymorth ychwanegol i athrawon mewn ysgolion i roi gwell dealltwriaeth o fanteision y llwybrau at brentisiaethau a'u cyfraniad i'r sectorau allweddol a sectorau twf economaidd rhanbarthol drwy gydweithredu rhwng y consortiwm addysg ysgolion rhanbarthol (GwE), cyflogwyr, ac aelodau'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol. | Chwefror 2018 |